



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# Canllawiau ar gyfer tyfwyr a grwpiau tyfu





|                                                                                                          |    |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------|----|
| Cyflwyniad                                                                                               | 1  |
| Modelau Gwahanol ar gyfer Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol                                                  | 2  |
| Rhandiroedd a'r Gyfraith                                                                                 | 4  |
| Anifeiliaid ar Randiroedd                                                                                | 8  |
| Cynllunio                                                                                                | 10 |
| Sefydlu Safle Newydd: Dod o Hyd i Dir Addas, Cyd-drafod cytundeb tir â Pherchennog y Tir                 | 17 |
| Grŵp Da: Llywodraethu, Polisiâu, Rolau a Chyfrifoldebau, Gwrthdaro a Chydweithredu, Cynnal Gwirfoddolwyr | 26 |
| Arian a Chyllid                                                                                          | 32 |
| Yr amgylchedd a bioamrywiaeth                                                                            | 45 |
| Asesu Risg ac Yswiriant                                                                                  | 52 |
| Gwybodaeth Ychwanegol ac Adnoddau                                                                        | 54 |

# Cyflwyniad

**Hwn yw ail argraffiad y canllawiau hyn, ar ôl iddynt gael eu cyflwyno'n llwyddiannus yn 2015. Ers hynny, mae'r cyfraniad y gall rhandiroedd a gerddi cymunedol ei chwarae o ran mynd i'r afael â blaenoriaethau mwyaf dybryd heddiw, o iechyd a llesiant i'r hinsawdd ac argyfyngau natur, wedi dod yn fwy amlwg byth.**

Mae Cymru erioed wedi bod yn genedl o dyfwyr. Mae ein hoffter o fwyd da a'n hawydd i ddarparu cynnyrch o ansawdd uchel i'n teuluoedd wedi llywio'r ffordd rydym yn defnyddio ein tir, o gefn gwlad i'n gerddi cefn. O'n canolfannau trefol i bentrefi gwledig ledled Cymru, mae'r awydd hwn i dyfu ein ffrwythau a'n llysiau ein hunain yn gryfach nag erioed ac mae mwy a mwy o bobl yn mwynhau manteision tyfu cynnyrch ar randiroedd neu mewn gerddi cymunedol.

Mae manteision garddio i unigolion a'r amgylchedd yn amlwg. Mae mwy o weithgarwch corfforol a llesiant meddyliol gwell, ffrwythau a llysiau ffres a mannau cyhoeddus sy'n cael gofal a defnydd da yn sgil-gynhyrchion naturiol tyfu'ch cynnyrch eich hun. Wrth arddio ar randir neu ardd gymunedol, cydnabyddir bod y manteision ychwanegol a ddaw o feithrin cysylltiadau cymunedol cadarnach, llai o unigedd cymdeithasol a'r cyfle i gydweithio a dathlu gyda'ch cymdogion yn gwella ansawdd bywyd yn ddramatig. I lawer, ystyrir bod rhandiroedd a gerddi cymunedol yn elfennau hanfodol o fyw bywyd hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, ac wrth i ni weithio tuag at greu Cymru iachach, hapusach a mwy cynaliadwy, maent yn bwysicach nag erioed.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu bod ymrwymiad clir ar gyrff cyhoeddus i alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, cadarn ac iach. Drwy amddiffyn a rheoli'r rhandiroedd a'r mannau tyfu a ddarperir ar hyn o bryd, a chefnogi datblygiad rhandiroedd a phrosiectau tyfu cymunedol newydd yn ôl y galw, gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru ein galluogi i greu poblogaeth iachach a hapusach a chyflenwad mwy cynaliadwy a sicr o fwyd.

Diben y canllawiau hyn yw rhannu a chynyddu arferion da a galluogi mwy o bobl i drochi eu dwylo a thyfu eu cynnyrch eu hunain.





# Modelau Gwahanol ar gyfer Rhandiroedd a Thyfu Cymunedol

Gall pobl fynd ati i dyfu cynnyrch mewn sawl ffordd. I bobl sy'n awyddus i weithio gyda'u cymdogion i wella'r amgylchedd lleol a gwneud eu cymuned yn lle gwell i bobl a bywyd gwyllt, efallai mai gardd neu berllan gymunedol yw'r dewis gorau. I bobl sydd â digon o amser ac awydd i dyfu llawer o gynnyrch ffres, gall rhandiroedd traddodiadol fod yn fwy addas.

Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd tyfu ar gael a llawer o wahanol fathau o brosiectau. Mae'r bennod hon yn esbonio'r mathau mwyaf poblogaidd o fannau tyfu.

## Rhandiroedd

Mae'n debyg mai rhandiroedd yw'r model mwyaf cyfarwydd a hysbys o dyfu yn y gymuned. Fel arfer, ardaloedd mawr o dir sydd wedi'u rhannu'n lleiniau llai o faint yw rhandiroedd. Yr awdurdod lleol fydd yn berchen ar y safle fel arfer, gyda chymdeithas rhandiroedd yn ei reoli a'r lleiniau unigol yn cael eu trin gan unigolyn neu deulu. Fel arfer, mae'r lleiniau o faint safonol a chodir tâl blyneddol amdanynt ar gyfer rhent a gwasanaethau fel cyflenwi dŵr.

Am ragor o wybodaeth am randiroedd ewch i [www.nsalg.org.uk](http://www.nsalg.org.uk)

- **Rhandiroedd statudol** – Fe'u cwmpeisir gan y Gyfraith ar Randiroedd a byddant wedi cael eu caffael neu eu meddiannu gan awdurdod lleol (o unrhyw fath, o gyngor plwyf i gyngor cymuned i gyngor tref) at ddiben penodol eu defnyddio fel rhandiroedd. Ni ellir eu gwerthu na'u defnyddio at ddibenion eraill heb ganiatâd Gweinidogion Cymru. Os bydd y cyfrifoldeb am reoli safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd y safle wedi'i osod ar brydles i gymdeithas rhandiroedd fe'i gelwir yn aml yn safle 'hunanreoledig'.

- **Rhandiroedd cymunedol** – Lle nad oes digon o randiroedd traddodiadol ar gael, mae rhai cymunedau yn dechrau grwpiau sy'n dod o hyd i dir ac yn creu eu safleoedd rhandiroedd eu hunain. Nid yw safleoedd rhandiroedd cymunedol yn ddarostyngedig i'r un cyfreithiau â safleoedd statudol (sy'n eiddo i gynghorau) ac ni roddir yr un lefel o ddiogelwch iddynt.

Am ragor o wybodaeth am randiroedd cymunedol ewch i [www.farmgarden.org.uk/cy](http://www.farmgarden.org.uk/cy)

- **Rhandiroedd dros dro** – Os bydd tir wedi cael ei gaffael neu ei ddal gan awdurdod lleol at ddiben arall, ond mae'n cael ei ddefnyddio fel rhandiroedd yn y cyfamser.

Gweler y bennod 'Rhandiroedd a'r gyfraith'

## Ffermydd cymunedol

Caiff planhigion eu tyfu a chaiff anifeiliaid eu cadw ar ffermydd cymunedol. Yn aml, byddant yn fwy o faint ac yn helaethach na gerddi cymunedol neu fannau tyfu cymunedol eraill. Mae ffermydd cymunedol yn aml yn ffermydd go iawn, sy'n cynhyrchu cig, wyau ac ati, ond maent hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd gwirfoddoli ac addysg.

Am ragor o wybodaeth am ffermydd cymunedol ewch i [www.farmgarden.org.uk/cy](http://www.farmgarden.org.uk/cy)

## Gerddi cymunedol

Fel arfer, pobl leol sy'n dymuno tyfu bwyd at eu defnydd eu hunain, ond hefyd er budd y gymuned ehangach, sy'n cychwyn gerddi cymunedol. Fel arfer, bydd yr holl waith tyfu ar erddi cymunedol yn cael ei wneud ar y cyd gan y gwirfoddolwyr. Y syniad yw rhannu'r gwaith ac yna'r budd. Mae'r rhan fwyaf o erddi cymunedol ar agor i bawb ymuno â nhw ac nid oes ganddynt restrï aros.

Am ragor o wybodaeth am erddi cymunedol ewch i [www.farmgarden.org.uk/cy](http://www.farmgarden.org.uk/cy)

## Amaethyddiaeth â Chefnogaeth y Gymuned

Menter gymdeithasol yw hon, sy'n seiliedig ar bartneriaeth weithgar, uniongyrchol rhwng ffermwyr (neu brosiect tyfu) a'r gymuned leol. Fel arfer, mae mentrau amaethyddiaeth â chefnogaeth y gymuned yn cynhyrchu llysiau a ffrwythau sy'n cael eu dosbarthu rhwng yr aelodau, sy'n talu ffi bob mis. Bwriedir i'r mentrau hyn rannu risgiau a buddion tyfu yn gyfartal rhwng y tyfwr a'r defnyddiwr.

Am ragor o wybodaeth am amaethyddiaeth â chefnogaeth y gymuned ewch i [www.communitysupportedagriculture.org.uk/](http://www.communitysupportedagriculture.org.uk/)

## Perllannau cymunedol

Yn ogystal â darparu ffrwythau a hafan werdd i'r gymuned leol, mae llawer o berllannau cymunedol yn ddalfeydd carbon ac yn gynefinoedd rhagorol i fywyd gwyllt. Mae perllannau cymunedol yn dod yn fwyfwy poblogaidd am eu bod yn hawdd i'w sefydlu, nid oes angen gwneud llawer iawn o waith cynnal a chadw arnynt a gellir eu defnyddio ar gyfer dathliadau cymunedol fel Diwrnod yr Afal.

Am ragor o wybodaeth am berllannau cymunedol ewch i [www.commonground.org.uk/projects/orchards/community-orchards](http://www.commonground.org.uk/projects/orchards/community-orchards)

## Cynlluniau Incredible Edible

Mae llawer o drefi yng Nghymru yn cymryd rhan ym mudiad Incredible Edible. Mae cynlluniau Incredible Edible yn plannu ffrwythau a llysiau mewn mannau cyhoeddus i bawb eu rhannu. Yn aml, caiff y cynnyrch ei dyfu mewn mannau lle y cânt eu gweld gan gryn nifer o bobl, fel arosfannau bysiau, dysglau plannu mewn trefi ac wrth ochr llwybrau troed.

Am ragor o wybodaeth am gynlluniau Incredible Edible ewch i [www.incredibleediblenetwork.org.uk/](http://www.incredibleediblenetwork.org.uk/)

## Cynlluniau digonedd/cynaeafu ffrwythau

Dyma fudiad sy'n tyfu, sy'n anelu at wneud defnydd gwell o goed ffrwythau a chnau lleol, sy'n cael eu hesgeuluso, drwy drefnu gwirfoddolwyr i

gynaeafu'r ffrwythau. Fel arfer, rhennir y ffrwythau rhwng perchennog y goeden, y gwirfoddolwyr sy'n eu casglu ac elusennau ac achosion da lleol.

Am ragor o wybodaeth am brosiectau digonedd ewch i [www.growsheffield.com/abundance/](http://www.growsheffield.com/abundance/)

## Gerddi coedwig

Mae Gerddi Coedwig yn cynhyrchu bwyd a chynhyrchion defnyddiol eraill megis pren a pherlysiâu drwy blannu haenau o blanhigion lluosflwydd yn bennaf sy'n efelychu ecosystem coedwig. Maent yn dda iawn i fioamrywiaeth ac organebau sy'n byw mewn pridd oherwydd yr amrywiaeth o gynefinoedd a ddarperir ganddynt a'r ffaith na therfir fawr ddim arnynt. Ar ôl iddynt gael eu sefydlu, nid oes angen gwneud fawr ddim gwaith cynnal a chadw arnynt er mwyn iddynt barhau i gynhyrchu cnydau.

Am ragor o wybodaeth am erddi coedwig ewch i [www.permaculture.org.uk/practical-solutions/forest-gardens](http://www.permaculture.org.uk/practical-solutions/forest-gardens)

## Cynlluniau rhannu gerddi

Mae'r cynlluniau hyn yn cysylltu tyfwyr brwdfrydig, ymroddedig â pherchnogion gerddi lleol sy'n awyddus i weld eu gerddi'n cael eu defnyddio'n fwy cynhyrchiol ac yn eu cyflwyno i'w gilydd. Fel arfer, bydd y cytundeb rhwng perchennog yr ardd a'r tyfwr yn nodi pryd y gall y tyfwr fynd ar y llain dyfu a chanran y cynnyrch a roddir i berchennog yr ardd.

Er mwyn gweld enghraifft o gynllun rhannu gerddi ewch i [www.gardenshareconwy.org.uk](http://www.gardenshareconwy.org.uk)

## Garddio yn y cyfamser

Dyma'r defnydd dros dro o dir ar gyfer garddio a thyfu bwyd. Mae'r cynlluniau yma'n arbennig o boblogaidd mewn ardaloedd lle mae yna gryn dipyn o dir nad ydyw'n cael ei ddefnyddio ac sy'n aros am ddatblygiad.

Gallant alluogi i dir gwastraff gael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol am gyfnod penodol.

Am esiampl o arddio yn y cyfamser gweler [www.meanwhile-gardens.org.uk/](http://www.meanwhile-gardens.org.uk/)



# Rhandiroedd a'r Gyfraith

## Rhandiroedd Statudol

Dim ond Rhandiroedd Statudol a gwmpesir gan y Gyfraith ar Rhandiroedd. Os bydd awdurdod lleol (o unrhyw fath, o gyngor plwyf i gyngor cymuned i gyngor tref) wedi caffael neu feddiannu safle at ddiben penodol ei ddefnyddio fel rhandiroedd, yna rhoddir diogelwch arbennig i'r safle hwn ac fe'i gelwir yn safle 'rhandiroedd statudol'.

Rhoddir rhywfaint o ddiogelwch cyfreithiol i rhandiroedd statudol. Ni ellir eu gwerthu na'u defnyddio at ddibenion eraill heb ganiatâd Gweinidogion Cymru. Ni ddylid caniatáu newidiadau o'r fath oni fydd Gweinidogion Cymru yn fodlon bod darpariaeth ddigonol wedi'i gwneud ar gyfer deiliaid rhandiroedd a gaiff eu dadleoli gan weithred yr awdurdod lleol.

Ni fydd y statws 'statudol' yn newid – hyd yn oed os bydd y cyfrifoldeb am reoli'r safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd yr awdurdod lleol wedi rhoi prydles ar gyfer y safle i gymdeithas rhandiroedd neu gorff rheoli tebyg. Os bydd y cyfrifoldeb am reoli safle wedi cael ei drosglwyddo neu os bydd y safle wedi'i osod ar

brydles i gymdeithas rhandiroedd fe'i gelwir yn aml yn safle 'hunanreoledig'.

## Safleoedd rhandiroedd dros dro

Os bydd tir wedi cael ei gaffael neu ei ddal gan awdurdod lleol at ddiben arall ond ei fod yn cael ei ddefnyddio fel rhandiroedd yn y cyfamser, yna gelwir y rhain yn 'rhandiroedd dros dro' er ei bod yn bosibl y byddant yn cael eu defnyddio fel rhandiroedd am ddegawdau. Nid yw rhandiroedd dros dro yn cael eu cwmpasu gan y gyfraith ar rhandiroedd ac nid oes unrhyw ddiogelwch statudol, sy'n rheoleiddio'r ffordd y cânt eu darparu a'u gwaredu, yn cael ei roi iddynt, ac eithrio'r rheoliadau cynllunio arferol.

## Safleoedd rhandiroedd sy'n eiddo preifat neu a arweinir gan y gymuned

Os caiff rhandiroedd eu cynnig ar safle preifat neu safle sy'n eiddo i'r gymuned, yna fel rhandiroedd dros dro, nid ydynt yn cael eu cwmpasu na'u diogelu gan y gyfraith ar rhandiroedd.





## Pa Ddeddfau sydd fwyaf perthnasol?

Y prif Ddeddfau Seneddol sy'n rheoli rhandiroedd yw:

- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908
- Deddf Rhandiroedd 1922
- Deddf Rhandiroedd 1925
- Deddf Rhandiroedd 1950

Mae deddfwriaeth o dan Ddeddf 1950 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â'r canlynol:

1. defnyddio lleiniau unigol, a
2. darparu a gwaredu safleoedd gan awdurdodau lleol.

Yn y bennod hon, ystyr y term 'llain' yw rhandir unigol. Ystyr 'safle' yw ardal fwy o faint lle mae nifer o leiniau rhandir unigol wedi'u lleoli. Nid yw'r un o'r Ddeddfau wedi'u diddymu'n gyfan gwbl ond mae adrannau o bob un wedi'u disodli gan Ddeddfau mwy diweddar. Gellir gweld y fersiwn wreiddiol o bob un o'r Ddeddfau perthnasol, ac unrhyw fersiynau diwygiedig ohonynt, yn [www.legislation.gov.uk/cy](http://www.legislation.gov.uk/cy)

## Cyfrifoldeb am rhandiroedd

Mae'r deddfwriaeth yn darparu mai awdurdodau rhandiroedd sy'n gyfrifol am ddarparu a gweinyddu rhandiroedd sy'n eiddo i'r cyngor. Diffinnir Cyngorau Cymuned, Tref a Sir (gan gynnwys bwrdeistrefi sirol) fel awdurdodau rhandiroedd o dan y gyfraith.

## Defnyddio lleiniau rhandir unigol

Pan fydd unigolyn yn rhentu llain rhandir o dan gytundeb tenantiaeth rhandir, rheolir meddiant y llain gan Ddeddf Rhandiroedd 1922 a chynnwys y cytundeb ei hun.

Mae Deddf Rhandiroedd 1922 yn cynnwys y cyfyngiadau canlynol:

1. y cyfnod rhybudd y mae'n rhaid ei roi i adael y llain

2. yr hyn y gellir ei dyfu ar y llain a'r cyfyngiadau ar gadw anifeiliaid ar y llain
3. maint llain unigol
4. yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch a dyfir ar y llain
5. cyfyngiadau ar rannu a throsglwyddo'r llain.

## Dod â thenantiaeth llain rhandir i ben

Er mwyn i awdurdod rhandiroedd ddod â thenantiaeth rhandir i ben, rhaid cyflwyno hysbysiad ymadael ysgrifenedig o 12 mis neu fwy, a ddaw i ben ar neu cyn 6 Ebrill neu ar neu ar ol 29 Medi mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae hyn yn golygu y daw'r denantiaeth i ben yn ystod misoedd y gaeaf, er mwyn sicrhau nad oes llawer o gnydau yn tyfu ac y gall tenant newydd gymryd y llain drosodd mewn pryd ar gyfer y tymor newydd.

Fodd bynnag, os na fydd y tenant yn talu rhent am 40 diwrnod neu os bydd yn torri telerau'r cytundeb tenantiaeth, yna gellir rhoi mis o rybudd iddo ymadael.

Nid oes gofyniad cyfreithiol i'r tenant ddod â'r denantiaeth i ben gan roi cyfnod penodol o rybudd.

## Yr hyn y gellir ei dyfu ar lain

Rhaid i lain "gardd rhandir" gael ei thrin gan y meddiannwr er mwyn cynhyrchu cnydau llysiau a ffrwythau.

Nid yw'r gyfraith yn gwahardd tyfu coed ffrwythau ond mae'n eithaf arferol i gytundebau tenantiaeth gyfyngu ar hyn.

## Anifeiliaid ar rhandiroedd

O dan Ddeddf Rhandiroedd 1950, dilëwyd y gwaharddiad ar gadw cwningod ac ieir, ar yr amod eu bod yn cael eu cadw at ddefnydd y tenant ei hun ac nid at ddibenion busnes nac er elw (1950 a12 (1)). Mae'n bwysig nodi bod y gyfraith yn gwahardd cadw ceiliogod.

Ni ddylid cadw'r anifeiliaid mewn ffordd sy'n niweidiol i iechyd neu sy'n peri niwsans. Nid yw'r gyfraith yn gwahardd cadw gwenyn, moch, geifr na mathau eraill o dda byw. Fodd bynnag, mae angen cael caniatâd y landlord i gadw unrhyw anifail neu dda byw ar randiroedd bob amser. Dylai manylion fod wedi'u cynnwys yn y cytundeb tenantiaeth.

### Gweler y Bennod 'Anifeiliaid ar Randiroedd'.

## Maint y llain

Mae Deddf 1922 yn nodi bod gardd rhandir yn 40 stang, sef ¼ erw neu 1012 metr sgwâr. Mae'n eithaf cyffredin i hanner a chwarter lleiniau gael eu cynnig, sy'n fwy addas i ffyrdd modern o fyw. Nid yw'r gyfraith yn cyfyngu ar nifer y lleiniau y gall unigolyn eu cael ond bydd llawer o safleoedd yn cyfyngu'r nifer i un neu ddau.

## Yr hyn y gellir ei wneud â'r cynnyrch o'r llain

Mae Deddf 1922 yn nodi bod yn rhaid i'r cynnyrch sy'n cael ei dyfu, yn gyfan gwbl neu'n bennaf, fod at ddefnydd deiliad y llain a'i deulu.

Y defnydd o'r ymadrodd "yn bennaf" sy'n rhoi rhyddid i werthu'r cynnyrch dros ben, ynghyd â'r gallu i dyfu ychydig o flodau a phlanhigion tebyg. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd cyfyngiadau pellach yn ymwneud â masnachu mewn cytundebau rhandiroedd penodol.

## Rhannu a throsglwyddo'r llain

Ni ellir is-osod rhandir heb ganiatâd yr awdurdod rhandiroedd. Bydd gan bob awdurdod rhandiroedd reolau penodol ynghylch pwy all gymryd llain drosodd neu p'un a oes gennych ganiatâd i rannu'r llain yn ddarnau neu ei rhannu â rhywun arall. Os byddwch yn gwneud hynny, mae'n bosibl y cyflwynir hysbysiad i chi i ddod â'r denantiaeth i ben.

## Darparu rhandiroedd

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu rhandiroedd os bydd galw amdanynt. Os bydd chwech o drigolion yr awdurdod am gael rhandir ac nad oes unrhyw rai ar gael, yna gallant wneud cais i'r awdurdod rhandiroedd perthnasol eu darparu. Gweler Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 23 – diwygiedig.

Mae gan awdurdodau rhandiroedd bwerau prynu a lesio gorfodol i gael tir ar gyfer rhandiroedd, er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n aml. Er nad yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi unrhyw derfynau amser ar gyfer ateb y galw, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud o fewn blwyddyn.



### Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 (Diwygiedig) Dyletswydd Cynghorau Penodol i Ddarparu Rhandiroedd

- (1) *If the council of any borough, urban district, or parish are of opinion that there is a demand for allotments ... in the borough, urban district, or parish, ... the council shall provide a sufficient number of allotments, and shall let such allotments to persons ... resident in the borough, district, or parish, and desiring to take the same.*
- (2) *On a representation in writing to the council of any borough, urban district, or parish, by any six registered parliamentary electors or [persons who are liable to pay an amount in respect of council tax] resident in the borough, urbandistrict, or parish, that the circumstances of the borough, urban district, or parish are such that it is the duty of the council to take proceedings under this Part of this Act therein, the council shall take such representation into consideration.*



## Am ragor o wybodaeth

- Mae pob un o'r Deddfau sy'n ymwneud â rhandiroedd ar gael ar-lein yn [www.legislation.gov.uk/cy/](http://www.legislation.gov.uk/cy/)
- The Law of Allotments' gan Paul Clayden, a gyhoeddir gan Shaw & Sons (yn ei 5ed argraffiad ar hyn o bryd).
- Mae cyngor hefyd ar gael gan y Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd yn [www.nsalg.org.uk](http://www.nsalg.org.uk)
- Deddf Rhandiroedd 1925 adran 8 a 24 (4)
- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 23 (ddiwygiedig), 25, 29 a 39
- Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1994
- Deddf Rhandiroedd 1922 adran 1 (1) (a), adran 22 (1) a (4)(b)
- Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 adran 27 (4).
- Deddf Rhandiroedd 1950 adran 1
- Land settlements & facilities Act 1919
- Allotments and Cottage Gardens Compensation for Crops Act 1887
- Poor Allotments Management Act 1873





# Anifeiliaid ar randiroedd

## Y Gyfraith

Cyn Deddf Rhandiroedd 1950, roedd cadw ieir a chwingod ar randiroedd yn cael ei wahardd o dan y gyfraith.

Diddymodd y Ddeddf y cyfyngiad hwn:

*'Abolition of contractual restrictions on keeping hens and rabbits.'*

(1) *Notwithstanding any provision to the contrary in any lease or tenancy or in any covenant, contract or undertaking relating to the use to be made of any land, it shall be lawful for the occupier of any land to keep, otherwise than by way of trade or business, hens or rabbits in any place on the land and to erect or place and maintain such buildings or structures on the land as reasonably necessary for that purpose:*

*Provided that nothing in this subsection shall authorise any hens or rabbits to be kept in such a place or in such a manner as to be prejudicial to health or a nuisance or affect the operation of any enactment.'*

Nid yw hyn yn golygu bod gan ddeiliaid rhandiroedd yr hawl i gadw anifeiliaid, dim ond nad yw hynny'n cael ei wahardd gan y gyfraith. Mae angen cael caniatâd y landlord i gadw unrhyw dda byw a dylid ei gynnwys yn y cytundeb tenantiaeth.

## Ieir a gwenyn

Mae ieir a gwenyn yn dda byw buddiol i'w cadw ar randiroedd neu safleoedd tyfu cymunedol. Mae ieir yn arddwyr gwyh, mae'n rhan o'u natur i grafu am bryfed a lindys yn y pridd. Gallwch wneud defnydd da o'r tueddiad hwn, gan y gallant glirio tir neu gael eu rhoi ar welyau ar ôl cynaeafu cnwd. Byddant yn clirio gweddillion cnydau ac yn gwrteithio'r pridd gydag un o'r gwrteithiau gorau sydd ar gael. Bydd cwch gwenyn ar y safle yn cynyddu

bioamrywiaeth ac yn sicrhau bod yr holl gynnyrch a blodau coed yn cael eu peillio.

Fel gyda phob math o dda byw, mae angen gofalu am ieir a gwenyn yn gywir er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cadw'n iach.

- Yn achos ieir, mae'n bwysig cofio y bydd angen eu gwarchod rhag ysglyfaethwyr, rhoi cyflenwad da o fwyd a graean iddynt er mwyn sicrhau y byddant yn parhau i gynhyrchu wyau a chwt ieir wedi'i gynllunio'n dda. Dylech hefyd ystyried rheoliadau Llywodraeth Cymru, lles anifeiliaid, sut i storio'r bwyd, cnofilod, diogelwch safle a'r effaith y bydd eich anifeiliaid yn ei chael ar ddeiliaid lleiniau eraill.
- Yn achos gwenyn, mae angen i chi ystyried y canlynol: nifer y cychod gwenyn i'w cadw, pryd i wneud gwaith cynnal a chadw arnynt, cadw golwg am blâu a lleoliad y cychod gwenyn o safbwynt diogelwch. Dylech gadarnhau a oes gan unrhyw ddeiliaid rhandir alergedd difrifol. Dylech ymuno â'ch cymdeithas cadw gwenyn leol, naill ai'n uniongyrchol neu drwy Gymdeithas Gwenynwyr Prydain (BBKA), sef y sefydliad cenedlaethol i wenynwyr. Bydd eich cymdeithas leol yn gallu rhoi cyngor a gwybodaeth ac arddangosiadau cadw gwenyn i chi. Bydd hefyd yn gallu rhoi cyngor ar gyfarpar, gwenyn ac yswiriant i chi neu eu gwerthu i chi hyd yn oed.

## Lles

Mae'n bwysig nodi na ddylid cadw anifeiliaid ar randiroedd oni ellir rhoi lefelau priodol o ofal ac amgylchedd addas iddynt. O dan Deddf Lles Anifeiliaid 2006, mae'n drosedd achosi dioddefaint diangen i unrhyw anifail ac mae'r Ddeddf yn rhoi manylion y ddyletswydd gofal tuag at anifeiliaid. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am anifail, boed yn

barhaol neu dros dro, gymryd camau rhesymol i sicrhau bod anghenion yr anifail yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys darparu'r canlynol:

- deiet addas
- amgylchedd addas
- y cyfle i ddangos patrymau ymddygiad arferol
- lle i gael ei roi dan do gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt; a'i
- amddiffyn rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefydau.

Argymhellir y dylai deiliaid rhandiroedd sy'n cadw anifeiliaid lunio cynllun i atal/ymdrin â'r canlynol:

- tân
- llifogydd
- achosion o glefyd
- diwedd y denantiaeth

Hefyd, dylid dangos manylion cyswllt yn barhaol mewn man amlwg os bydd argyfwng.

Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/lles-anifeiliaid>

## Deunydd darllen pellach

- Taflen NSALG – Keeping hens and rabbits on allotments  
[www.nsalg.org.uk/wp-content/uploads/2012/09/A5\\_Hens\\_rabbits\\_220213\\_HiRes.pdf](http://www.nsalg.org.uk/wp-content/uploads/2012/09/A5_Hens_rabbits_220213_HiRes.pdf)
- Mae Cymdeithas Gwenynwyr Cymru a'r Uned Gwenyn Genedlaethol yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth am gadw gwenyn  
[www.wbka.com/](http://www.wbka.com/) a [www.nationalbeeunit.com/](http://www.nationalbeeunit.com/)
- Ymddiriedolaeth Lles leir Prydain  
[www.bhwt.org.uk/](http://www.bhwt.org.uk/)
- Deddf Lles Anifeiliaid 2006  
[www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/45/contents](http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2006/45/contents)
- Lles leir Dodwy (cod ymarfer)  
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/lles-ieir-dodwy-cod-ymarfer.pdf>







# Canllawiau Cynllunio

Bydd y canllaw hwn yn rhoi cyngor i chi ar beth i'w wneud cyn dechrau ar eich prosiect. Darllenwch y canllaw cyfan.

Os byddwch yn bwrw ymlaen â datblygiad heb y caniatâd cynllunio gofynnol, gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) gymryd camau gorfodi yn eich erbyn ac efallai y bydd yn gofyn i chi gyflwyno cais cynllunio ôl-weithredol. Os bydd yn penderfynu na ddylid rhoi caniatâd, gallai fynnu eich bod chi'n adfer y safle i'w gyflwr blaenorol.

ACLlau sy'n gyfrifol am faterion cynllunio o ddydd i ddydd. Nhw sy'n gyfrifol am benderfynu a yw strwythur yn gyfystyr â datblygiad o dan y gyfraith gynllunio ac maent yn gwneud hyn drwy ystyried holl ffeithiau'r achos.

## Dod o hyd i dir ar gyfer ein prosiect tyfu – cadw materion cynllunio mewn cof

Mae'r bennod nesaf yn rhoi cyngor ar sut i ddechrau chwilio am dir ar gyfer eich prosiect, ond bydd angen i chi ystyried hefyd a oes angen i chi gael caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw strwythurau neu ddefnydd ar y safle, er mwyn i'r prosiect fynd yn ei flaen. Gwnewch hyn bob amser cyn penderfynu pa leoliad rydych chi am ei ddefnyddio ar gyfer eich safle.

## Tyfu bwyd ar dir – a oes angen caniatâd cynllunio i wneud hyn?

Mae tyfu ffrwythau a llysiau ar dir yn cael ei ystyried yn amaethyddiaeth (hyd yn oed ar safle rhandiroedd<sup>1</sup>). Gan nad yw amaethyddiaeth wedi'i chynnwys o fewn ystyr datblygiad yn Adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gallai fod yn dderbyniol defnyddio unrhyw ddarn o dir fel rhandir neu brosiect tyfu cymunedol heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i dir sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden, er enghraifft, gosod a chadw lawnt.

## A oes angen caniatâd cynllunio?

Fel arfer, nid oes angen caniatâd cynllunio oni bai bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn ateb y diffiniad statudol o 'ddatblygiad' a nodir yn Adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.



### Datblygiad yw:

**“Gwneud unrhyw waith adeiladu, peirianeg, mwyngloddio neu weithrediadau eraill ar, dros neu o dan dir, neu wneud unrhyw newid sylweddol i'r defnydd o unrhyw adeiladau neu dir arall”**

Tybir yn aml nad yw rhai strwythurau, os gellir eu symud neu os nad ydynt yn sownd yn y ddaear, yn gyfystyr ag 'adeiladau' fel y'u diffinnir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ac, felly, nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. Nid yw hyn o reidrwydd yn gywir. Rhaid penderfynu ar bob achos yn ôl ei rinweddau ei hun. Mae tri phrif ffactor i'w hystyried, sef:

- Maint – A yw'r adeilad yn ddigon mawr fel bod angen ei godi ar y safle yn hytrach na dod ag ef ar y safle wedi'i wneud yn barod?
- I ba raddau y mae'n sownd yn y ddaear – A yw'r adeiladwaith yn awgrymu rhywfaint o barhad (mae'n sownd yn y ddaear/byddai'n rhaid ei dynnu'n ddarnau er mwyn ei symud)?
- Parhad – A fwriedir cadw'r strwythur yno'n barhaol?

Os ydych chi wedi rhoi ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r cwestiynau hyn, mae'n debygol o fod yn 'ddatblygiad' ac, os felly, bydd angen caniatâd cynllunio. Mae tybio y bydd angen caniatâd

<sup>1</sup> Gweler Cyngor Plwyf Crowborough v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd Tachwedd 1980

cynllunio ar gyfer y rhan fwyaf o adeiladau, waeth pa mor fach ac, i bob golwg, ddibwys ydynt, a cheisio cyngor gan yr ACLI, yn fan cychwyn da.

Dylai deiliaid lleiniau hefyd ddarllen eu cytundebau tenantiaeth i weld pa strwythurau a allai gael eu caniatáu. Mae'n bwysig nodi bod caniatâd gan y swyddog neu'r pwyllgor rhandiroedd sy'n rheoli'r rhandiroedd ar wahân i ganiatâd cynllunio. Dylid cael y ddwy set o ganiatadau.

## Siediau storio a thai gwydr – datblygu a ganiateir

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiad, yn caniatáu i rywfaint o fân waith datblygu gael ei wneud, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen gwneud cais i'r ACLI am ganiatâd cynllunio. Gelwir hyn yn 'ddatblygu a ganiateir'.

Diwygiwyd Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 yn ddiweddar<sup>2</sup> er mwyn darparu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys codi, estyn, addasu neu ddisodli siediau storio a thai gwydr mewn mannau tyfu cymunedol. Mae rhai cyfyngiadau yn gymwys i reoli effaith weledol ac amgylcheddol y datblygiad a ganiateir. Golyga hyn, o dan rai amgylchiadau, na all pawb gael budd o'r hawliau hyn ac y bydd angen iddynt wneud cais i'r ACLI am ganiatâd cynllunio os bydd y strwythur yn gyfystyr â datblygiad.

Mae'r graddau y gallwch gael budd o'r hawliau datblygu a ganiateir yn dibynnu ar faint y man tyfu a maint y sied storio a'r tŷ gwydr.

### Arwynebedd y Safle a nifer y siediau storio a thai gwydr a ganiateir:

- Ar gyfer safleoedd sy'n mesur 125 metr sgwâr neu fwy, caniateir un sied storio **ac** un tŷ gwydr. Fodd bynnag, nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir yn caniatáu codi dwy sied storio neu ddau dŷ gwydr ar lain o dir o'r maint hwn.

- Ar gyfer safleoedd sy'n mesur rhwng 62 metr sgwâr a llai na 125 metr sgwâr, caniateir un sied storio **neu** un tŷ gwydr.
- Nid yw hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i safleoedd sydd ag arwynebedd o lai na 62 metr sgwâr, sy'n golygu y bydd angen i chi wneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer unrhyw strwythurau sy'n gyfystyr â datblygiad at ddibenion deddfwriaeth gynllunio.

### Maint y siediau storio a thai gwydr a ganiateir:

- Ni ddylai pob sied storio neu dŷ gwydr fod yn fwy nag arwynebedd daear o 6 metr sgwâr pan y'i mesurir y tu allan.
- Ni ddylai pob sied storio neu dŷ gwydr fod yn fwy na 2.2 metr o uchder.

### Ymestyn siediau storio a thai gwydr presennol

- Os oes gennych sied storio neu dŷ gwydr sy'n llai na'r arwynebedd mwyaf a ganiateir gan yr hawliau datblygu a ganiateir, caniateir i chi hefyd ymestyn eich strwythur, ar yr amod eich bod yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodwyd uchod.

Er gwaethaf yr uchod, nid yw'r hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys a bydd angen caniatâd cynllunio lle:

- byddai'r datblygiad mewn ardal warchodedig, sef tir erthygl 1(5). Tir yw hwn a geir mewn Parciau Cenedlaethol, ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ac ardaloedd cadwraeth.
- byddai'r datblygiad ar dir mewn Safle Treftadaeth y Byd;
- byddai'r datblygiad yng nghwrtil adeilad rhestredig; neu
- byddai'r datblygiad o fewn:
  - 8 metr i brif afon nad yw'n afon lanw (neu o fewn 8 metr i unrhyw amddiffynfeydd llifogydd neu gwlfert ar yr afon honno); neu
  - o fewn 16 metr i brif afon lanw (neu o fewn 16 metr i unrhyw amddiffynfeydd llifogydd neu gwlfert ar yr afon honno).

2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif .3) (Cymru) 2020

Mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn gymwys i fannau tyfu cymunedol a ddiffinnir, at ddibenion y ddeddfwriaeth, fel:

- (a) rhandir gan gynnwys gardd rhandir o fewn ystyr Deddf Rhandiroedd 1922; neu
- (b) unrhyw dir arall a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio -
  - i. gan un neu fwy o gymunedau,
  - ii. yn gyfan gwbl neu'n bennaf i dyfu llysiau, ffrwythau, perlysiau neu flodau,
  - iii. mewn ffordd nad yw'n anelu at wneud elw.

Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn egluro beth yw tŷ gwydr at ddibenion yr hawliau datblygu a ganiateir hyn. Ystyr tŷ gwydr yw strwythur megis tŷ gwydr neu dwnnel polythen lle y caiff llysiau, ffrwythau, perlysiau neu flodau eu tyfu o dan orchudd mewn man amgaeedig, ond nid yw'n cynnwys strwythur lle y cedwir da byw.

### **Cydberthnasau rhwng siediau storio/tai gwydr sy'n bodoli eisoes a'r hawliau datblygu a ganiateir**

Wrth ystyried nifer y strwythurau a ganiateir, mae'n rhaid i chi ystyried unrhyw siediau storio neu dai gwydr sy'n bodoli eisoes ar eich llain, p'un a ydynt yn cael eu caniatáu gan y ddeddfwriaeth ai peidio. Er enghraifft, os yw eich llain yn mesur 62 metr sgwâr a bod gennych sied storio neu dŷ gwydr sy'n gyfystyr â datblygiad eisoes, byddwch eisoes wedi defnyddio eich lwfans o ran hawliau datblygu a ganiateir a bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw strwythur ychwanegol. Fodd bynnag, cewch godi sied storio neu dŷ gwydr newydd yn lle eich strwythur presennol yn unol â'r cyfyngiadau a nodwyd uchod.

Os yw eich llain yn mesur 125 metr sgwâr neu fwy a bod gennych dŷ gwydr sy'n gyfystyr â datblygiad eisoes, ond nad oes gennych unrhyw strwythurau eraill, cewch godi sied storio yn unol â'r cyfyngiadau a nodwyd uchod heb orfod cael caniatâd cynllunio. Ni chaniateir i chi godi





ail dŷ gwydr. Yn yr un modd, mae'r un peth yn wir os oes gennych sied storio sy'n gyfystyr â datblygiad eisoes ond nad oes gennych unrhyw strwythurau eraill, h.y. caniateir i chi godi tŷ gwydr heb orfod cael caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, ni chaniateir i chi godi ail sied storio.

Os byddwch am wneud gwaith datblygu sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn a ganiateir gan yr hawliau datblygu a ganiateir, gallwch wneud cais i'r ACLI am ganiatâd cynllunio sy'n caniatáu i'r holl amgylchiadau lleol ac unrhyw ystyriaethau perthnasol gael eu hystyried.

Os oes unrhyw amheuaeth a fyddai unrhyw gynnig yn gyfystyr â datblygu a ganiateir, dylid ceisio cyngor gan yr ACLI.

Mae'r hawliau datblygu a ganiateir a nodir yn y bennod hon yn darparu ar gyfer siediau storio a thai gwydr ar raddfa, ac mewn lleoliadau, sy'n golygu bod yr effeithiau cynllunio yn fach iawn ac, felly, nad oes angen rhoi ystyriaeth fanwl iddynt drwy gais cynllunio.

Mae'n anochel bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng buddiannau rhanddeiliaid ac nad yw'n bosibl bodloni gofynion pob parti â buddiant wrth greu hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r hawliau datblygu a ganiateir hyn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i roi mwy o ryddid i dyfwyr ddefnyddio eu man tyfu a'r angen i sicrhau bod buddiannau'r amgylchedd ehangach yn cael eu diogelu.

## Ffensys

Gall unrhyw ddull amgáu, gan gynnwys ffens, wal neu giât, gael ei adeiladu heb ganiatâd cynllunio ar yr amod nad yw'n uwch nag 1 metr ger ymyl priffordd (ffordd) neu 2 fetr rywle arall, heblaw o fewn ffiniau adeilad rhestredig<sup>3</sup>. Peidiwch ag anghofio darllen eich cytundeb tenantiaeth i weld a yw ffensys yn cael eu caniatáu.

## Lleiniau caled a llwybrau mynediad

Mae'n bosibl y bydd angen llain galed i barcio ceir neu gynnal cyfarfodydd ar eich prosiect tyfu. Gallai llwybrau mynediad neu hyd yn oed fynedfa i gerbydau fod yn ddymunol hefyd. Mae'r holl waith hwn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad a bydd angen cael caniatâd cynllunio ar ei gyfer. Gallai ardaloedd bach iawn gael eu hystyried yn 'de minimus', sy'n golygu eu bod mor fach fel nad ydynt yn cyfiawnhau ymyrraeth gan yr ACLI. Dylech siarad â'ch awdurdod cynllunio am hyn cyn dechrau ar unrhyw waith. Peidiwch ag anghofio darllen eich cytundeb tenantiaeth i weld a yw lleiniau caled yn cael eu caniatáu.

## Gwelyau uwch

Gellid ystyried bod gwely uwch yn strwythur neu'n weithrediad peirianyddol y mae angen caniatâd arno. Mewn llawer iawn o achosion, ystyrir eu bod yn 'de minimus', sy'n golygu eu bod mor fach fel nad ydynt yn cyfiawnhau ymyrraeth gan yr ACLI. Po fwyaf yw'r gwely, y mwyaf tebygol ydyw y bydd angen caniatâd cynllunio arno. Dylech siarad â'ch ACLI am hyn cyn dechrau ar unrhyw waith. Peidiwch ag anghofio darllen eich cytundeb tenantiaeth i weld a yw gwelyau uwch yn cael eu caniatáu.

## Cadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio

Gofynnwch i'ch ACLI a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer strwythur penodol neu fath penodol o ddatblygiad. Efallai y bydd yn awgrymu y dylech gyflwyno Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithlon. Cais i brofi a yw defnydd neu ddatblygiad presennol neu arfaethedig yn gyfreithlon yw hwn. Mae manteision i fabwysiadu'r dull hwn o weithredu am ei fod yn rhoi sicrwydd i chi ac imiwnedd rhag camau gorfodi yn y dyfodol. Os na fydd y strwythur na'r defnydd eisoes wedi dechrau, bydd y ffi am y cais yn cyfateb i hanner y ffi arferol am wneud cais cynllunio.

3 Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995, Atodlen 2, Rhan 2, Dosbarth A

Gallwch wneud cais drwy wasanaeth ceisiadau ar-lein Ceisiadau Cynllunio Cymru – <https://llyw.cymru/cyflwyno-cais-am-ganiatad-cynllunio>

## Mae angen caniatâd cynllunio – beth y dylwn ei wneud?

### Cyngor cyn ymgeisio

Mae pob ACLI yn darparu gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio statudol i'r rhai sy'n gofyn amdano. Bydd ACLlau yn darparu ymateb ysgrifenedig i ymgeisydd, a fydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol o leiaf.

- hanes cynllunio perthnasol y safle
- polisiau perthnasol y cynllun datblygu y caiff y cynnig datblygu ei asesu yn eu herbyn
- canllawiau cynllunio atodol perthnasol
- unrhyw ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill
- asesiad cychwynnol o'r datblygiad arfaethedig, yn seiliedig ar y wybodaeth uchod.

Mae ffi<sup>4</sup> yn daladwy i'r ACLI am y gwasanaeth hwn sy'n seiliedig ar faint a graddfa'r datblygiad arfaethedig.

Gall ACLlau gynnig ymatebion ysgrifenedig ychwanegol, cyfarfodydd ac ati, os bydd ymgeisydd yn gofyn am ragor o gyngor cyn ymgeisio y tu hwnt i'r gofynion sylfaenol statudol. Bydd ACLlau yn codi ffioedd dewisol am y gwasanaethau hyn.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gwblhau ffurflen ymholi cyn ymgeisio er mwyn defnyddio'r gwasanaeth cyn ymgeisio, sydd ar gael ar wefan yr ACLI. Bydd yn rhaid i ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar y ffurflen ymholi cyn ymgeisio:

- Manylion cyswllt (enw, cyfeiriad, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost)
- Disgrifiad o'r datblygiad
- Cyfeiriad y safle
- Cynllun o'r lleoliad (ar sail Arolwg Ordnans)

- Cynlluniau, neu wybodaeth ategol ychwanegol, a fydd yn helpu'r ACLI i ddarparu ymateb penodol defnyddiol.

Dyma'r wybodaeth y mae'n ofynnol i chi ei darparu. Cewch ddarparu gwybodaeth yn ychwanegol at y gofynion uchod er mwyn helpu ACLI i ddarparu ymateb sy'n seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael.

Mae gan ACLlau 21 diwrnod i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r ymgeisydd. Caniateir estyniadau i'r cyfnod hwnnw, ar yr amod y bydd yr ACLI a'r ymgeisydd yn cytuno'n ysgrifenedig ar ddyddiad diwygiedig ar gyfer dychwelyd ymateb ysgrifenedig i'r ymgeisydd.

Bydd cyngor cyn ymgeisio yn rhoi syniad gwell i ymgeisydd ynghylch a yw ei gynnig yn debygol o gael caniatâd cynllunio ai peidio, er mai cyngor anffurfiol fydd hwn ac ni fydd yn gwarantu'r penderfyniad terfynol.

Mae'n ddefnyddiol ystyried yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio os byddwch am sicrhau bod eich prosiect yn cyd-fynd â'r tymhorau tyfu. Er enghraifft, er mwyn dechrau tyfu ym mis Mawrth, bydd angen i chi gyflwyno eich cais cynllunio ym mis Tachwedd y flwyddyn flaenorol er mwyn i chi gael eich caniatâd cynllunio a chwblhau'r gwaith mewn pryd.

## Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS)

Bydd angen systemau draenio cynaliadwy (SuDS) ar gyfer dŵr wyneb ar bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un anhedd-dy neu os yw'r arwynebedd adeiladu yn cyfateb i **100 metr sgwâr neu fwy**. Mae'n rhaid i'r systemau draenio cynaliadwy gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â Safonau Systemau Draenio Cynaliadwy Statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac mae'n rhaid i Gynlluniau Systemau Draenio Cynaliadwy gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol sy'n gweithredu yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy, cyn i unrhyw waith adeiladu ddechrau.

Os bydd eich datblygiad yn debygol o fod yn fwy na 100 metr sgwâr, dylech siarad

4 Fel y'i nodir yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) (Diwygio) 2016 <https://www.legislation.gov.uk/wsi/2016/62/contents/made>

â Chorff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy eich awdurdod lleol a fydd yn cynnig gwasanaeth cyngor cyn ymgeisio y codir tâl amdano i chi. Dylech siarad â'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy **cyn cyflwyno eich cais cynllunio** er mwyn i'ch systemau draenio allu cael eu cynnwys yn eich cais cynllunio i'w cymeradwyo.

## Y system gynllunio yng Nghymru a ffiniau aneddiadau

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi cynllun datblygu lleol (CDLI) ar gyfer ei ardal. Mae'r system gynllunio yng Nghymru yn rheoli'r ffordd y caiff tir ei ddatblygu a'i ddefnyddio er budd y cyhoedd. Prif ddiben y cynllun datblygu yw rhoi sicrwydd i'r datblygwr a'r cyhoedd ynglŷn â'r math o ddatblygiad a gaiff ei ganiatáu mewn lleoliad penodol. Dylai ceisiadau am ganiatâd cynllunio gael eu gwneud yn unol â'r CDLI oni fydd ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall.

Ers blynnyddoedd lawer mae'r system gynllunio wedi ceisio diogelu cefn gwlad a gwella'r amgylchedd trefol. Mae'r rhan fwyaf o waith datblygu a ganiateir wedi'i gyfyngu o fewn ffiniau aneddiadau. Mae ffin anheddiad yn llinell wedi'i thynnu ar fap o amgylch dinas, tref neu bentref, sy'n dynodi lle y bydd gwaith datblygu yn dderbyniol mewn egwyddor.

Wrth ddewis eich safle, argymhellir eich bod yn ceisio dewis un o fewn ffiniau anheddiad neu yn yr ardal drefol. Os byddwch am adeiladu strwythurau ar y safle, bydd yn haws i chi gael caniatâd cynllunio am mai at y lleoliad hwn y mae'r rhan fwyaf o waith datblygu wedi'i gyfeirio. Cefn gwlad yw unrhyw dir y tu hwnt i linell ffin yr anheddiad a bydd polisiau llymch yn gymwys.

## Lleihau'r effaith – canllaw arferion da

Mae pethau y gallwch eu gwneud er mwyn helpu i leihau effaith gwaith datblygu ar eich rhandir neu'ch safle tyfu.

- Gallwch leihau effaith siediau a strwythurau eraill ar y dirwedd drwy eu lleoli yn agos at wrych terfyn neu ar dir is neu drwy gael un ardal storio offer yn hytrach na storfeydd ar

leiniau unigol yma ac acw ar y safle datblygu. Mae angen i adeiladau yng nghefn gwlad fod â golwg amaethyddol. Felly, mae'n bosibl na fydd sied gardd ddomestig yn dderbyniol. Siaradwch â'ch ACLI am y math o strwythur y gellid ei ystyried.

- Mae'n rhan o hanfodion prosiect tyfu cymunedol ond, gwnewch yn siŵr eich bod bob amser yn cynnwys y gymuned leol yn eich prosiect. Byddwch yn ymwybodol o'r effaith y caiff strwythurau a gweithgareddau tyfu ar fwynhad eiddo cyfagos. Siaradwch â'r cymdogion a gofynnwch iddynt pa fath o gynllun yr hoffent ei weld a ble yr hoffent weld unrhyw strwythurau yn cael eu lleoli.
- Nid ateb eich dibenion chi yn unig y dylai cynllun eich man tyfu ei wneud. Ystyriwch sut olwg fydd arni o leoliadau gerllaw'r safle ac ymhellach i ffwrdd yn y dirwedd. Sefydlwch ffiniau prydferth yr olwg, megis cloddiau naturiol a lleiniau wedi'u plannu â blodau gwyllt.
- A ellir gwneud i'r strwythurau a osodwch ar y safle edrych yn fwy deniadol drwy blannu o'u hamgylch neu ddefnyddio deunyddiau gwahanol.
- Efallai y bydd angen gosod llwybrau a hyd yn oed heol i'ch man tyfu. Dylech bob amser ddefnyddio deunyddiau sy'n briodol i'r ardal o amgylch y safle a meddwl am fesurau i leihau dŵr ffo. Defnyddiwch arwynebau athraidd yn hytrach na tharmac.
- Meddyliwch am ffyrdd arloesol o gasglu dŵr o'r strwythurau. Y defnydd amlwg ar gyfer y dŵr yw dyfrhau eich cnydau ond bydd hyn hefyd yn helpu i atal dŵr ffo a llifogydd i eiddo cyfagos.
- Lleolwch eich safle gerllaw'r gymuned a fydd yn ei ddefnyddio. Os bydd defnyddwyr yn gallu cerdded neu feicio i'r safle, byddwch yn gallu dangos bod y safle mewn lleoliad cynaliadwy ac y caiff ei ddefnyddio'n helaeth. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus gerllaw yn fanteisiol hefyd.
- Er mwyn ategu polisiau yn y cynllun datblygu lleol, mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiad o fannau agored sy'n dangos faint o fannau agored y maent yn eu darparu yn eu hardal. Ar y cyfan, mae angen i fan agored



fod ar agor ac yn hygyrch i bawb. Os bydd eich prosiect tyfu yn bodloni'r meini prawf hyn, yna bydd eich prosiect yn fwy derbyniol. Felly, ceisiwch beidio â chodi ffensys a chaniatewch i bob aelod o'r cyhoedd gael mynediad iddo. Mewn llawer o ardaloedd, nid yw fandaliaeth yn broblem fawr.

- Rhowch wybod i Aelod (Cyngorydd) eich ward leol a phobl leol yn y gymuned am yr hyn rydych yn ei wneud. Cynigiwch eu cynnwys yn eich cynlluniau a gofynnwch am eu cefnogaeth.

## Ffioedd ceisiadau cynllunio

Bydd yn rhaid talu ffi i gyflwyno cais cynllunio. Mae'r ffioedd cynllunio cyfredol ar gael ar wefan eich ACLI.

### Dogfennau i'w cyflwyno gyda'ch cais cynllunio

Ceir canllawiau ar y wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer cais cynllunio dilys a chaniatadau eraill, gan gynnwys Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithlon, yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu, yn benodol atodiad Adran 7: ceisiadau cynllunio – rhestr o ofnion dilysu, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/llawlyfr-rheoli-datblygu>.

Holwch eich ACLI os byddwch yn ansicr o hyd ynghylch pa ddogfennau sydd angen eu cyflwyno.

Bydd methu â darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol pan fyddwch yn cyflwyno eich cais yn arwain at oedi cyn ei ddilysu.

## Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais

Caiff y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio eu cyflwyno ar-lein drwy wasanaeth ceisiadau ar-lein Ceisiadau Cynllunio Cymru – <https://llyw.cymru/cyflwyno-cais-am-ganiatad-cynllunio>.

Unwaith y bydd cais wedi'i gyflwyno, caiff ei ystyried gan yr ACLI. Os caiff ei gofrestru, caiff amrwyol bobl ac ymgynghorwyr eu hysbysu am y cais cynllunio a rhoddir 21 diwrnod iddynt gyflwyno sylwadau. Efallai y bydd y swyddog cynllunio yn ymweld â'r safle ac yn asesu effaith y cynnig ar yr ardal o'i amgylch.

Os daw gwrthwynebiadau i law ac yr ystyrir eu bod yn 'berthnasol'<sup>5</sup> i'r cais cynllunio, bydd yn rhaid i'r swyddog eu hystyried.

Gellir ymdrin â rhai ceisiadau cynllunio o dan bwerau dirprwyedig ac mae angen i geisiadau eraill gael eu hystyried gan bwyllgor cynllunio'r awdurdod lleol. Os caiff y cais ei ystyried gan y pwyllgor cynllunio, gall gymryd ychydig mwy o amser i benderfynu arno.

## Rydym wedi cael ein penderfyniad cynllunio – beth nesaf?

Nid yw'r ffaith eich bod wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer eich datblygiad bob amser yn golygu y gallwch fwrw ymlaen ag ef ar unwaith. Darllenwch eiriad y disgrifiad ar yr hysbysiad o'r penderfyniad. A yw'n cwmpasu'r holl waith rydych am ei wneud? Darllenwch yr amodau ar yr hysbysiad o'r penderfyniad cynllunio. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cydymffurfio â'r amodau hyn. Os na fyddwch yn cydymffurfio â'r amodau cynllunio, mae'n bosibl y bydd yr ACLI yn cymryd camau gorfodi yn eich erbyn.

## Mae ein cais wedi'i wrthod – beth nesaf?

Yn yr hysbysiad o'r penderfyniad, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio nodi'n glir ei resymau dros wrthod eich cais. Cymerwch amser i'w hystyried. Os na fyddwch yn eu deall o hyd, dylech siarad â'r swyddog cynllunio.

Os byddwch o'r farn y gallwch oresgyn y pryderon hyn, efallai y byddwch am gyflwyno cais cynllunio arall i'w ystyried.

Ar ôl trafod â'r swyddog cynllunio, os byddwch yn dal i gredu bod gennych achos da yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gyda'r cais cynllunio a gyflwynwyd, gallwch gyflwyno apêl i Weinidogion Cymru, drwy'r Arolygiaeth Gynllunio, yn erbyn y penderfyniad.

Os na fyddwch am apelio nac ailgyflwyno cais, gallwch weld a oes modd i chi barhau heb y datblygiad (strwythur neu waith) ar eich safle. Gallech ddewis safle gwahanol sy'n fwy priodol, lle y gallech gael caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad.

5 yn berthnasol i'r datblygiad



# Sefydlu Safle Newydd: Dod o Hyd i Dir Priodol, Cyd-drafod cytundeb tir â Pherchennog y Tir

Mae llawer o resymau pam y caiff safleoedd newydd eu sefydlu. Gall fod yn rhaid i bawb sy'n gysylltiedig roi o'u hamser â'u hegri, ond mae'r canlyniadau bob amser yn werth chweil. Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg cryno o'r pethau i'w hystyried; mae adnoddau manwl eraill ar gael drwy wasanaethau fel y Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol Cymru, a reolir gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol.

Gall fod pobl yn eich ardal leol sydd eisoes wedi cwblhau'r broses ac sy'n barod i rannu eu stori. Chwiliwch am y bobl hynny drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy gysylltu â gwasanaethau gwirfoddol lleol, swyddogion awdurdodau lleol a'ch aelodau etholedig lleol (aelodau o gynghorau cymuned, cynghorau sir a'r cynulliad).

## Chwilio am safle

### Pa fath o dir y dylech chwilio amdano?

Dylech ystyried prif flaenoriaethau eich grŵp – hygyrchedd, y math o arddio sydd ei angen e.e. rhandiroedd, man tyfu dros dro, gardd bywyd gwyllt, ardal chwarae ac ati, gan y bydd hyn yn rhoi cyfeiriad cyffredinol i chi o ran maint y tir y bydd ei angen arnoch, a nodweddion eraill, megis:

- lleoliad
- cyfeiriadedd
- mynediad
- ansawdd y pridd / halogiad
- y defnydd presennol o'r tir
- y gydberthynas â chymdogion
- argaeledd lleoedd parcio
- opsiynau o ran cyflenwad dŵr/casglu dŵr.

Bydd hyn yn rhoi rhai meini prawf chwilio i chi. Bydd mathau gwahanol o brosiectau tyfu cymunedol yn gofyn am fathau gwahanol o diroedd a lleoedd. Ewch i weld prosiectau natur cymunedol eraill; chwiliwch y rhyngwrwyd am astudiaethau achos. Byddwch yn agored ynglŷn â'r math o weithgaredd a fyddai'n gweithio orau i'ch cymuned. Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol i ganfod pa weithgareddau gwirfoddol sy'n digwydd yn eich ardal leol. Gall Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol eich helpu gyda hyn.

## Sut y gallwn ddod o hyd i dir addas?

- ewch am dro o gwmpas eich cymuned i ddod o hyd i safleoedd posibl
- siaradwch â phobl leol a grwpiau cymunedol eraill, rhowch hysbysebion yn eich llyfrgell leol, swyddfa'r post neu ganolfan gymunedol yn gwneud cais am dir ar gyfer tyfu cymunedol.
- defnyddiwch adnodd mapio ar y rhyngwrwyd a delweddau lloeren i nodi tir nad yw wedi'i ddatblygu'n llwyr neu dir agored yn eich ardal chwilio

Dylech fod yn hyblyg a chwilio ardal mor eang â phosibl ar yr adeg hon. Ceisiwch osgoi bod yn rhy gyfyngol. Mae'n bosibl mai darn o dir yr ymddengys ei fod yn amhriodol nawr fydd yr opsiwn a ffefrir gennych yn y pen draw. Yn yr un modd, gall fod problem gyda darn o dir sy'n edrych fel y dewis gorau ar yr olwg gyntaf na fyddwch yn gallu ei goresgyn heb dreulio cryn dipyn o amser neu wario swm sylweddol o arian arno.

## **Ystyriwch dir yn eich ysgol, eich parc neu'ch canolfan iechyd leol neu ar safleoedd preifat lleol.**

Dechreuwch ar raddfa fach. A oes lleiniau ymylon ffyrdd y gallech blannu arnynt neu welyau blodau y gallech eu gwella? A oes gerddi y gallech eu rhannu â grŵp arall?

Os ymddengys nad oes unrhyw dir yn diwallu eich anghenion, allwch chi newid eich math o brosiect i gyd-fynd â'r ffynonellau posibl o dir sydd ar gael?

## **Nodwch pwy sy'n berchen ar y tir**

Yn aml, gallwch ddarganfod pwy sy'n berchen ar ddarn o dir drwy holi pobl, siarad â'ch awdurdod lleol neu chwilio cofnodion perchenogaeth eiddo ar wefan y gofrestrfa tir.

Ar ôl i chi nodi pwy sy'n berchen ar y tir, gall gymryd amser i ddod o hyd i'r unigolyn cywir sy'n gyfrifol am y tir, ac sy'n gwybod a yw'r tir ar gael ai peidio. Os mai'r awdurdod lleol sy'n berchen ar y tir, man cychwyn da fyddai cysylltu â'ch aelod ward lleol a'r tîm parciau, rhandiroedd neu ystadau.

## **Perchnogion tir y gallech gysylltu â nhw**

### **Awdurdodau lleol**

Cysylltwch â'ch awdurdod lleol i gael manylion daliadau tir a all fod ar gael ganddo neu drafod a allwch chi ddefnyddio rhan o fan cyhoeddus presennol, megis cornel parc. Mae gan bob cyngor Gynllun Datblygu Lleol sydd ar gael ar-lein, mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y cyngor. Gall y Cynllun Datblygu Lleol hefyd roi gwybod i chi a oes gan eich awdurdod lleol bolisiau ar waith sy'n cefnogi prosiectau tyfu cymunedol. Gallech hefyd gysylltu â'r cynghorydd lleol sy'n gyfrifol am eich ardal, a allai eich helpu i gael y wybodaeth hon.

Mae Trosglwyddo Asedau<sup>6</sup> Cymunedol yn cynnwys trosglwyddo perchenogaeth tir

neu adeiladau oddi wrth sefydliadau megis awdurdodau lleol i grwpiau cymunedol. Weithiau, mae'n bosibl y caiff ased ei throsglwyddo am bris gostyngol os bydd budd i'r gymuned leol.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu canllaw ar Drosglwyddo Asedau<sup>7</sup>. Mae canllaw arferion da hefyd ar gael i'ch helpu i reoli'r broses o drosglwyddo asedau cymunedol a lleihau unrhyw risgiau cysylltiedig. Hefyd, mae amrywiaeth o sefydliadau sy'n rhoi cyngor a chymorth i grwpiau cymunedol neu wirfoddol.

## **Cynghorau cymuned a thref**

Yn aml, mae cynghorau cymuned a thref yn berchen ar dir a gall fod yn haws cysylltu â nhw gan fod cynghorwyr lleol yn aml yn byw yn eich cymuned. Maent yn cymryd incwm o Gynghorau Sir a dylid eu hannog i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned.

## **Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru**

Mae Busnes Cymru yn cynnal cronfa ddata fasnachol sy'n cynnwys amrywiaeth o asedau, a ddelir yn bennaf gan drydydd partion ond a all gynnwys y sector cyhoeddus gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

<https://businesswales.gov.wales/cy/cronfa-ddata-eiddo>

Mae Ystadau Cymru yn annog pob Corff Cyhoeddus yng Nghymru i roi tir ac asedau eiddo sydd ar gael ar lwyfan "Space Cymru" a gallai hynny helpu.

<https://llyw.cymru/dod-o-hyd-i-eiddo-sector-cyhoeddus-sydd-ar-gael-iw-osod-neu-ei-brynu>

At hynny, efallai y bydd yn werth holi Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rheoli'r Ystad Goed

<https://naturalresources.wales/about-us/contact-us?lang=cy>

## **Perchnogion tir preifat**

Mewn ardaloedd trefol, gall fod rhai safleoedd tir llwyd, tir nas defnyddir digon, tir gwastraff neu safleoedd diffaith. Efallai y byddai'r perchennog tir

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/trosglwyddo-asedau-cymunedol-canllawiau-i-ymgeiswyr>

<sup>7</sup> <https://gov.wales/goodpractice.wales/asset-transfer>



yn croesawu incwm a chyfranogiad ar y tir gan y gymuned, os nad oes ganddo unrhyw gynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol agos neu tra bydd yn aros i'r safle gael ei ailddatblygu. Mae darnau o dir sy'n aros i gael eu datblygu yn arbennig o addas ar gyfer 'defnydd yn y cyfamser' h.y. gosod tir neu adeiladau gwag dros dro, er budd cymdeithasol, hyd nes y gellir gwneud defnydd masnachol ohonynt unwaith eto.

Mewn ardaloedd gwledig, gall fod gan ffermwyr dir ar gael at ddefnydd cymunedol, yn enwedig os gallant gynhyrchu incwm drwy osod tir ar rent i grŵp.

### **Sefydliadau mawr**

Mae'r rhain yn cynnwys corfforaethau (e.e. Network Rail), busnesau lleol mawr neu Sefydliadau (y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Prifysgolion). Os byddwch yn gweld tir wedi'i esgeuluso neu dir diffaith sy'n perthyn i sefydliad mawr, cysylltwch ag ef yn uniongyrchol. Efallai y bydd yn fodlon caniatáu i'r gymuned ddefnyddio'r tir fel rhan o'i Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CSR).

### **Tai cymdeithasol**

Efallai y byddwch am drin darn o dir ar ystâd tai cymdeithasol. Mae gan rai darparwyr tai ddarnau sylweddol o dir heb unrhyw dai arnynt ac mae'n bosibl y bydd y darparwyr tai hyn yn awyddus i ildio eu cyfrifoldebau cynnal a chadw drostynt.

### **Tir ysgolion**

Mae nifer cynyddol o ysgolion a cholegau yn defnyddio rhan o'u tir ar gyfer ffermio a thyfu ac, yn aml, gwneir hyn yn llwyddiannus mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol.

### **Gwneud yn siŵr bod eich darpar safle yn addas**

A yw'r safle yn bodloni'r meini prawf gwreiddiol a bennwyd gennych? Mae'n syniad da adolygu'r safle gyda rhestr wirio safonol y gallwch ei chymharu â safleoedd eraill, os byddwch yn ystyried mwy nag un safle. Yn ogystal â'r meini prawf gwreiddiol, pethau eraill gwerth eu hystyried yw:

- oes gan grwpiau neu sefydliadau eraill ddiddordeb yn y safle



- a oes cyfyngiadau cynllunio ar waith (e.e. adeiladau rhestredig, gorchmynion diogelu coed ac ati)?
- a oes hawliau tramwy neu wasanaethfaint ar draws yr eiddo?
- a oes gwasanaethau ar y safle neu gerllaw sy'n hygyrch (e.e. dŵr, pŵer)?
- at ba ddibenion roedd y safle yn cael ei ddefnyddio'n flaenorol?
- a yw'r tir wedi'i halogi gan ddefnydd blaenorol?
- a oes planhigion neu gynefinoedd y mae angen eu gwarchod?
- pwy yw'r cymdogion ac a ydynt yn debygol o gefnogi'r grŵp?

Wrth ystyried eich cynlluniau ar gyfer y safle yn y dyfodol, mae'n bwysig ystyried y system gynllunio ac a fydd angen unrhyw ganiatâd i newid y defnydd a wneir ohono neu ar gyfer strwythurau.

## Cefnogaeth i'r prosiect cymunedol

Mae ennyn cefnogaeth i'r cynnig yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant y prosiect ac y bydd pobl yn cael budd ohono, denu gwirfoddolwyr a hwyluso'r broses o gyd-drafod â'r perchennog tir neu gydymffurfio ag unrhyw ganiatadau cynllunio.

Mae dewis pryd i ymgysylltu â chymdogion a'r gymuned leol yn bwysig. Mae sicrhau cefnogaeth cynghorwyr lleol yn bwysig ar y dechrau. P'un a yw'n gynghorydd cymuned, tref neu sir, bydd yn ffynhonnell ddefnyddiol o gymorth a rhwydweithio er mwyn helpu i ddatblygu'r cynnig.

Mae sôn am eich prosiect yn y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o hel syniadau ynghylch yr hyn yr hoffai pobl ei weld yn yr ardal a bydd hefyd yn cynyddu nifer y bobl sydd am helpu i sefydlu'r safle. Sefydlwch dudalen Facebook a Twitter er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl leol.

## Cysylltu â'r perchennog tir

Efallai y bydd perchnogion tir yn fwy parod i gynnig tir i'ch grŵp os gallwch ddangos eich bod chi'n gallu gweithredu ar brif anghenion, nodau a phryderon y perchennog tir. Bydd canfod beth yw'r anghenion, nodau a phryderon allweddol hyn yn eich helpu chi wrth gyd-drafod â'r perchennog tir.

Efallai na fydd yn ddigon sôn am fanteision trosglwyddo tir i sefydliad a arweinir gan y gymuned yn unig. Rhaid i chi allu dangos eich bod yn deall ac yn gallu mynd i'r afael â phryderon allweddol y perchennog tir.

Dyma rai o bryderon cyffredin perchnogion tir:

- **gofalu am y tir:** bydd y rhan fwyaf o berchnogion tir am fod yn hyderus y byddwch yn gofalu am y tir ac unrhyw beth arno, er enghraifft, cynnal a chadw ffensys a chadw chwyn dan reolaeth. Byddan nhw am i chi fod yn ymarferol a galluog.
- **golygfa hyfryd:** nid yw pawb yn gwerthfawrogi rhwydi, biniau compost, twneli polythen, tomwellt carped a phethau tebyg. Byddwch yn barod i gytuno i gyfyngu ar nifer y strwythurau a'r deunyddiau a ddefnyddir i'w hadeiladu a'u lleoli.
- **cymdogion hapus:** yn enwedig os yw'r landlord yn byw'n lleol, ni fydd am gynhyrfu'r cymdogion, felly, dylech ragweld unrhyw bryderon a allai fod gan y cymdogion ynghylch sŵn, parcio ac ati a dangos y gallwch fynd i'r afael â'r rhain. Os yw'n bosibl, dylech gyfarfod â phobl i ddileu chwedlau a cheisio llythyrau o gefnogaeth oddi wrth gymdogion. Rhowch y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am yr hyn sy'n digwydd.
- **cydymffurfio â'u polisiau a chyflawni eu nodau/amcanion:** mae gan rai landlordiaid, megis cynghorau, bolisiau y byddwch yn eu cyflawni'n well na thenantiaid eraill, e.e. ar gynhwysiant cymdeithasol. Cadarnhewch a oes gan eich landlord gynlluniau neu nodau y gallwch helpu i'w cyflawni.

- **cael eu tir yn ôl pan fydd ei angen:** mae angen i landlordiaid fod yn hyderus y byddwch yn gadael ar yr adeg rydych wedi cytuno i adael.
- **cefnogaeth i'w waith datblygu ar y safle yn y dyfodol:** ni fydd landlordiaid am i'ch defnydd o'r tir leihau'r tebygolrwydd y byddant yn cael caniatâd cynllunio yn y dyfodol e.e. drwy ennyn llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd i gadw'r lle yn wyrdd. Gallwch gytuno i beidio â gwrthwynebu unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol.
- **cynlluniau ac ymrwymiad realistig:** dangoswch gynllun busnes synhwyrol i'r perchnogion tir a byddwch yn siŵr y gallwch ei gyflawni, hyd yn oed ar ôl i frwdfrydedd cychwynnol y grŵp leihau ac yn wyneb rhwystrau. Mae'r rhan fwyaf o berchnogion tir am weld agwedd 'gallu gwneud' gadarnhaol
- **talw'r rhent:** efallai y bydd yr incwm o'r rhent yn gymharol fach i'r perchennog tir, ond bydd am i chi dalu'r rhent ar amser heb fynd i ôl-ddyledion. Y dull hawsaf yw drwy archeb sefydlog/debyd uniongyrchol. Dylech hefyd ddangos bod gennych chi gynllun da ar gyfer talu'r rhent.
- **bywyd hawdd:** dangoswch eich bod yn drefnus, yn ddibynadwy ac yn ddyfeisgar ac yn berson hawdd delio ag ef. Dewch â geiradaon oddi wrth rywun y bydd y perchennog tir yn ei barchu gyda chi. Ceisiwch beidio â newid eich meddwl ynghylch eich cynlluniau. Pennwch un aelod o'r grŵp i weithredu fel y pwynt cyswllt, sy'n gwrtais ac sy'n gallu cyfathrebu â'r perchennog tir drwy ddefnyddio ei ddewis ddull, megis e-bost neu wyneb yn wyneb.
- **proffesiynoldeb:** mae angen iddo fod yn hyderus y byddwch yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r cytundebau heb unrhyw ffwdan.

Bydd y wybodaeth ganlynol yn ddefnyddiol i'w rhoi i'r perchennog tir pan fyddwch yn cysylltu ag ef i ddechrau:

- eich enw
- enw'r grŵp neu'r sefydliad a phryd y cawsoch eich sefydlu

- y math o sefydliad – cyfansoddiadol neu gorfforedig
- beth yw nodau ac amcanion y prosiect?
- a yw'r prosiect yn sicrhau unrhyw rai o'r canlynol?
  - manteision cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol
  - manteision uniongyrchol i bobl leol
  - manteision i ystod mor eang ac amrywiol â phosibl o bobl leol
- beth rydych yn bwriadu ei wneud â'r tir?
- beth fydd yn digwydd i'r cynnyrch?
- gyda pha sefydliadau partner y mae eich sefydliad yn bwriadu gweithio ar y safle?
- sut y byddwch yn cynnwys y gymuned leol yn eich prosiect?
- a oes gennych gefnogaeth cynghorwyr y ward leol (darparwch dystiolaeth e.e. llythyr neu neges e-bost o gefnogaeth)?
- a fydd eich prosiect yn gweithio gydag unrhyw rai o'r grwpiau canlynol: y gwasanaeth carchardai, cynllun gwneud iawn â'r gymuned, cyn-droseddwy, pobl sy'n gaeth i sylweddau neu bobl sy'n gwella ar ôl wynebu problemau cam-drin alcohol neu sylweddau? Unrhyw grwpiau posibl arall a allai gael eu hystyried yn 'risg uchel' gan y cyhoedd.
- rhowch fanylion ynghylch sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu, gan gynnwys copïau o unrhyw geisiadau am gyllid rydych wedi'u gwneud.

## Prynu tir

Er ei bod yn well i'r mwyafrif helaeth o grwpiau cymunedol rentu eu safle oddi wrth berchennog tir, gall prynu tir (prynu'r rhydd-ddeiliadaeth) fod yn ateb gwych i nifer fach o grwpiau o dan amgylchiadau penodol. Nid yw grŵp cymunedol sy'n berchen ar dir yn cael ei gyfyngu gan brydles a gall amddiffyn y tir am byth er budd y gymuned.

Mae cymunedau yn canfod y gallant godi arian i brynu tir o ffynonellau unigryw e.e. cyllido torfol, cyfranddaliadau cymunedol, benthyciadau banc, grantiau penodol neu gymdogion sy'n awyddus



i'r tir gael ei ddiogelu rhag gwaith datblygu. Efallai na fydd rhai o'r ffynonellau incwm hyn ar gael i rentu tir ac mae tir, wrth gwrs, yn ased gwerthfawr a gall fod yn warant ariannol dda i sefydliad. Er enghraifft, gallai'r grŵp fenthycu arian yn erbyn y gwerth neu gynhyrchu incwm drwy osod tir ar rent.

Gall grwpiau sy'n prynu tir deimlo eu bod yn perthyn i'r tir yn fwy na phetaent yn ei rentu am gyfnod penodol. Gyda phrydles, mae cyfyngiadau o ran beth y gallwch ei wneud a pheidio â'i wneud, a rhaid i chi gael caniatâd y landlord i wneud rhai pethau penodol. Os ydych yn berchen ar y tir, dim ond y gyfraith sy'n eich cyfyngu. Mae gennych fwy o reolaeth a bydd darpar gyllidwyr yn hoffi hynny. Fodd bynnag, mae llawer o grwpiau cymunedol yn gweithio'n dda ar dir rhent. Os yw eich cytundeb tir am gyfnod digon hir a bod gennych ganiatâd i wneud popeth rydych am ei wneud, efallai na fyddwch yn cael fawr ddim budd o brynu'r tir. Os yw eich grŵp yn un anffurfiol neu dros dro, efallai na fyddai'n addas i ysgwyddo'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â phrynu tir.

## Rhesymau dros beidio â phrynu

- materion ariannol. Fel arfer, mae tir yn ddrud o gymharu â chost ei rentu.
- mae'n anodd dod o hyd i dir addas i'w brynu.
- rhaid i'r grŵp fod yn barod ac yn abl i gymryd cyfrifoldeb dros rai materion hirdymor difrifol a chymhleth, megis diogelu arian buddsoddwyr a chyflawni dyletswyddau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â bod yn berchnogion tir.
- gallai methiant grwpiau sy'n cael eu rhedeg yn wael leihau hyder mewn grwpiau cymunedol eraill. Er enghraifft, gallai cynnig cyfranddaliadau sy'n cael ei redeg yn wael arwain at reoliadau llymach ar gyfer y sector
- mae rhai grwpiau yn rhai anffurfiol a dros dro, felly nid oes angen iddynt brynu tir.

- mae angen gofal hirdymor ar dir a gall gael ei esgeuluso os bydd grŵp yn gwanhau dros amser.
- bydd yn anodd symud i safle arall os bydd anghenion y grŵp yn newid.
- efallai na fydd pobl ar incwm isel neu aelodau newydd sy'n ymuno ar ôl y cynnig cyfranddaliadau yn teimlo eu bod mor gysylltiedig â'r rhai a gyfrannodd at brynu'r tir, hyd yn oed pan fydd ganddynt hawl i gael mynediad at y tir.
- mewn rhai achosion, bydd pobl yn peryglu eu cynilion i brynu tir, er enghraifft, wrth brynu cyfranddaliadau y gellir eu tynnu allan.
- mae costau ymlaen llaw yn gysylltiedig â phrynu tir, megis costau tirfesur, na chânt eu hadennill os bydd gwerthiant yn methu.

Mae nifer yr achosion o drosglwyddo perchenogaeth rydd-ddaliadol oddi wrth gyrff cyhoeddus i sefydliadau cymunedol yn cynyddu, a defnyddir y term Trosoglwyddo Asedau cymunedol yn gyffredin. Mae cymorth a gwybodaeth ar gael o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys eich awdurdod lleol, CLAS Cymru<sup>8</sup> a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)<sup>9</sup>.

## Y trefniant cywir er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio

Mae cael y cyfansoddiad cywir i'r grŵp fod yn berchen ar y tir yn bwysig. Mae eich gwasanaeth gwirfoddol lleol yn fan galw cyntaf da o ran trafod cyfansoddiadau a chanfod pa rai sydd orau mewn sefyllfaoedd gwahanol. Mae gan lawer o grwpiau un corff/sefydliad sy'n prynu'r tir ac ail sefydliad sy'n cynnwys holl ddefnyddwyr y tir. Mae'r ail sefydliad yn rhentu'r tir ar brydles o'r sefydliad cyntaf; mae hon yn ffordd dda o sicrhau y gall holl aelodau'r gymuned gael budd o'r prosiect waeth faint o incwm a chyfoeth sydd ganddynt.

<sup>8</sup> [www.farmgarden.org.uk](http://www.farmgarden.org.uk)  
<sup>9</sup> <https://wcva.cymru/cy/hafan/>



## Ariannu prynu tir

Mae prynu tir yn cynnwys codi arian ac mae sawl ffordd o wneud hyn. Mae ffynonellau cyllid yn datblygu, felly mae'n bwysig ymchwilio i bob opsiwn gyda chymorth eich cyngor gwirfoddol lleol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru neu ffynonellau eraill o help yn y trydydd sector, megis Canolfan Cydweithredol Cymru<sup>10</sup>.

Dyma rai ffynonellau cyllid posibl:

- cynnig cyfranddaliadau
- benthyciad banc/morgais
- cyllido torfol
- cyllid grant

## Prydlesu neu gytundeb arall i ddefnyddio'r tir

Unwaith y bydd safle wedi'i nodi a chyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal ar y safle gyda'r landlord, y grŵp cymunedol a'r bobl sy'n awyddus i'r prosiect fynd yn ei flaen, gallwch ddechrau meddwl am gyd-drafod telerau a chytundeb cyfreithiol. Dyma pryd y dylech ystyried llunio cytundeb penawdau telerau a'i rannu â'r perchennog tir. Gallwch gael cytundeb penawdau telerau enghreifftiol o ran CLAS o Wefan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol [www.farmgarden.org.uk/cy](http://www.farmgarden.org.uk/cy) neu siaradwch ag un o'i gynghorwyr drwy [admin@farmgarden.org.uk](mailto:admin@farmgarden.org.uk)

- enwau'r perchennog tir (landlord) a defnyddiwr y safle (tenant)
- enw'r safle a chynllun o'r safle
- hyd cyfnod deiliadaeth y tir (term) – a fydd opsiwn i'r tenant ddod â'r brydles i ben yn gynnar neu adnewyddu'r brydles am dymor ychwanegol?
- rhent (os o gwbl). Faint? Pryd y bydd yn cael ei dalu? A fydd yn cael ei adolygu? A godir TAW ar ben y rhent sylfaenol?
- defnydd – beth y caniateir i'r tenant ei wneud ar y tir?

- rhwymedigaethau tenantiaid a landlordiaid (e.e. pwy sy'n gorfod cynnal ffiniau?)

## Cyd-drafod

Mae cynllunio a pharatoi yn hanfodol cyn dechrau unrhyw drafodaethau. Gwnewch eich gwaith cartref cyn unrhyw gyfarfodydd ffurfiol â'r perchennog tir neu gynrychiolwyr y perchennog tir. Yn y cyfarfodydd, dylech osgoi gwrthdaro a chyflwyno eich syniadau mewn modd ystyriol.

Mae'n ddefnyddiol iawn ymgysylltu â chynghorwyr/gwleidyddion etholedig ac ati, yn enwedig ar gyfer safleoedd sy'n eiddo i'r awdurdod lleol, ond hefyd â pherchnogion tir eraill.

Penderfynwch beth sydd ei eisiau ar eich grŵp, yn y sefyllfa ddelfrydol, ond byddwch yn ymwybodol, gyda bron pob cyd-drafodaeth, y bydd rhaid i bob parti symud ychydig oddi wrth eu man cychwyn gwreiddiol.

Felly, penderfynwch fel grŵp beth yw'r safle i gamu'n ôl iddo ac awdurdodwch eich cynrychiolydd i gynnal y cyd-drafodaethau hynny (wyneb yn wyneb os oes modd).

Gall cytuno ar elfennau sylfaenol y cytundeb gymryd amser, yn enwedig os yw'r perchennog tir yn sefydliad mawr, gyda phrosesau cymeradwyo amrywiol, ac os oes angen i'r grŵp ystyried y cynigion ar gamau gwahanol.

Tra bydd eich grŵp yn aros i sicrhau safle, gall fod opsiynau eraill ar gyfer cynorthwyo grwpiau lleol eraill neu ddefnyddio darnau eraill o dir am gyfnod dros dro.

## Y cytundeb cyfreithiol

Mae cytundeb cyfreithiol yn diogelu'r perchennog tir a'r tenant, drwy nodi eu cyfrifoldebau a'u buddiannau yn glir. Gall y ddau barti ddibynnu yn gyfreithiol ar y cytundeb a lunnir gan y parti arall.

<sup>10</sup> <https://cymru.coop/>

Os bydd gan y grŵp ddeiliadaeth lwyr gyfyngedig o'r tir, yna prydles fydd ei hangen. Mae mathau gwahanol o brydlesau sy'n addas ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, yn dibynnu ar y math o ddefnydd a ganiateir (e.e. gardd farchnad, perllan, gardd gymunedol). Os bydd y grŵp yn rhannu'r tir â defnyddwyr eraill, bydd trwydded yn fwy priodol.

Wrth ystyried beth hoffai'r grŵp ei gael o gytundeb cyfreithiol, efallai y bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd. Er enghraifft, efallai y bydd perchennog tir yn ansicr ynghylch rhoi prydles tymor hir i'r grŵp. Felly, i ddechrau, efallai y bydd am roi cytundeb byrdymor yn unig iddynt. Os bydd y grŵp am gael cyllid grant ar gyfer gwaith cyfalaf ar y safle, efallai y bydd y cyllidwyr grant yn mynnu bod y brydles am gyfnod penodol, a dylid esbonio hyn i'r perchennog tir.

Mae rhai grwpiau'n llwyddo drwy ddechrau'n fach gyda chytundebau cymharol fyr, a buddsoddiad ariannol mewn safle, ond maent yn datblygu dros amser i fod yn asedau cymunedol hir sefydledig llwyddiannus iawn.

## **Pwy all lofnodi prydles neu gytundeb cyfreithiol arall?**

Bydd pwy sydd wedi'i awdurdodi i lofnodi dogfennau cyfreithiol ar ran eich grŵp yn dibynnu ar y math o sefydliad sydd gennych. Dim ond pobl sydd wedi'u hawdurdodi gan y sefydliad i lofnodi dogfennau cyfreithiol a ddylai wneud hynny. Os ydych yn gwmni cofrestredig, fel arfer, bydd dogfennau yn nodi Ysgrifennydd neu Gadeirydd y Cwmni ac yn y blaen. Os ydych yn Sefydliad Elusennol Corfforaethol, dylai aelod o'r pwyllgor rheoli lofnodi.

Os ydych yn elusen neu'n sefydliad anghorfforedig, dylai eich pwyllgor rheoli (neu grŵp llywio os nad ydych wedi ffurfio pwyllgor eto) benderfynu pwy fydd yn lofnodi'r dogfennau cyfreithiol. Mae angen i bawb ddeall y cyfrifoldebau cyfreithiol a nodir

ym mhob dogfen, ond yr unigolyn fydd yn gyfrifol yn gyfreithiol gan nad yw sefydliadau anghorfforedig na grwpiau cyfansoddiadol yn endidau cyfreithiol.

Dylech geisio cyngor cyfreithiol er mwyn sicrhau bod y bobl gywir yn lofnodi'r cytundeb hwn.

Gall sefydliadau megis CGGC a Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol ddarparu gwybodaeth fanylach am brydlesau a thrwyddedau, dolenni i gynghorwyr proffesiynol eraill a chymorth cyffredinol.

## **Cyngor a ffioedd proffesiynol**

Dylech geisio cyngor proffesiynol wrth ymrwymo i gytundeb cyfreithiol. Mae'r buddsoddiad mewn cyngor cyfreithiol a phroffesiynol da ar ddechrau prosiect yn bwysig. Os bydd y brydles yn hwy na thair blynedd, bydd angen iddi nodi ei bod yn weithred a chael ei llunio gan gyfreithiwr neu gynghorydd cyfreithiol arall.

Er mwyn cadw costau mor isel â phosibl, mae nifer o dempledi ar gael i weithwyr cyfreithiol proffesiynol eu defnyddio fel man cychwyn. Mae rhai perchnogion tir yn gofyn i ddarpar denantiaid dalu eu costau cyfreithiol er y gall y costau hyn gael eu hepgor yn aml pan esbonnir manteision ehangach y cynigion.

Peidiwch ag anghofio chwilio am sgiliau o fewn eich grŵp neu'ch cymuned leol. Mynnwch wybod pa sgiliau sydd ar gael ac y gellir eu defnyddio ar gyfer eich prosiect. Efallai na fyddwch yn gallu defnyddio gwasanaethau aelod o'r grŵp cymunedol yn bersonol, ond efallai y bydd yr unigolyn hwnnw yn gallu rhoi cyngor i chi ar sut i fynd ati i sefydlu'r prosiect neu gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill. Peidiwch â disgwyl i aelodau eraill o'r grŵp roi o'u hamser proffesiynol am ddim am fod ganddynt set sgiliau benodol sydd ei hangen arnoch. Efallai y byddant wedi'u rhwymo gan eu dyletswyddau/contractau proffesiynol eu hunain i beidio â rhoi cyngor o'r fath.

Gall arferion da yn aml helpu i leihau ffioedd neu daliadau annisgwyl. Dylech bob amser wneud y canlynol:

- gwneud yn siŵr eich bod yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'r gweithiwr proffesiynol
- dod i gytundeb yn ysgrifenedig
- gwneud yn siŵr bod gennych set lawn o'r holl gofnodion perthnasol (gohebiaeth, gwybodaeth, cynlluniau ac ati) i'w rhoi i'ch gweithiwr proffesiynol.

## Costau eraill y gellir mynd iddynt

### Ffioedd ceisiadau cynllunio

Gweler y bennod ar 'Cynllunio'. Bydd angen gwneud cais cynllunio i ddatblygu man tyfu cymunedol neu randiroedd a bydd hyn yn golygu talu ffioedd. Dylech gynnwys hyn yn eich cyllidebau.

### Ffioedd cofrestru prydles

Bydd angen cofrestru prydles sy'n para 7 mlynedd neu fwy yn y gofrestrfa tir. Mae'n arfer safonol i denant fod yn gyfrifol am gofrestru'r brydles. Dylech gyflogi cyfreithiwr i gofrestru prydles gyda'r Gofrestrfa Tir.







# Grŵp Da: Llywodraethu, Polisiau, Rolau a Chyfrifoldebau, Gwrthdaro a Chydweithio, Cynnal Gwirfoddolwyr

Mae cydweithio'n bwysig i lwyddiant prosiectau cymunedol. Mae hyn yn golygu cael grŵp o bobl sy'n deall eu rolau ac sydd â'r cymhelliant i'w cyflawni. Mae'n cynnwys mabwysiadu ffordd o weithio sy'n caniatáu ar gyfer anghytuno a datrys.

Yn y bennod hon, byddwn yn ymdrin â beth sy'n gwneud 'grŵp da'; gyda chynghor ac enghreifftiau o sut i gael pobl i weithio gyda'i gilydd i greu prosiectau ffyniannus.

## Beth yw nodweddion grŵp da?

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u gwerthfawrogi. Mae rolau, cyfrifoldebau a gweithdrefnau clir ar waith. Adlewyrchir hyn ar lawr gwlad, gyda phrosiect trefnus a helaeth.

Nid yw rhedeg grŵp da, o reidrwydd, mor hawdd a syml â hynny. Pan ddaw pobl sy'n frwdfrydig dros bwnc at ei gilydd, gall gwrthdaro ddigwydd, a byddwn yn ystyried sut y gellir ymdrin â hyn yn ddiweddarach yn y bennod.

Mae pennu gweledigaeth glir ar gyfer y prosiect yn bwysig. Mae gweledigaeth glir yn golygu bod pobl yn deall beth yw'r cymhelliant cyffredinol ac mae'n helpu i ddenu pobl sy'n rhannu'r un gwerthoedd.

Mae dwy elfen i weithgaredd grŵp. Y cyntaf yw cynnwys a'r ail yw proses. Mae cynnwys yn cyfeirio at beth yn union sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd, yr agenda a'r sgysiau sy'n cael eu cynnal. Mae proses yn cyfeirio at beth sy'n digwydd oddi tanodd, y meddyliau, iaith y corff a theimladau'r rhai sy'n bresennol.

Mae'r ddau weithgaredd yn cael effaith ar lwyddiant y grŵp. Mae grwpiau llwyddiannus bob amser yn rhoi digon o amser i bobl fynegi eu syniadau a'u teimladau am eu cyfranogiad. Maent yn cofnodi gweithgareddau a'u heffaith drwy adborth gan wirfoddolwyr a defnyddwyr prosiect. Gellir defnyddio'r adborth hwn i gefnogi ceisiadau am gyllid.

## Beth yw llywodraethu a pha mor bwysig ydyw?



### Gellir diffinio llywodraethu fel a ganlyn:

*Y systemau a'r prosesau sy'n ymwneud â sicrhau cyfeiriad, goruchwyliaeth ac atebolrwydd cyffredinol sefydliad.”  
(Trosolwg Llywodraethu Chris Cornforth, prosiect Llywodraethu a Chyfranogi, Co-operatives UK, 2004)*

Mae llywodraethu yn gysylltiedig â strategaeth; gwneud yn siŵr bod systemau ar gyfer gweithgareddau o ddydd i ddydd ar waith. Yn eich prosiect, gallai hyn gynnwys gwneud yn siŵr bod system ar waith i gofnodi alldaliadau a derbyniadau ariannol.

Mewn prosiectau tyfu cymunedol bach, mae'n debygol y bydd y bobl sy'n cyflawni'r rolau llywodraethu hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw'r holl amser mewn cyfarfodydd pwyllgor yn cael ei dreulio'n trafod adroddiadau ar weithgareddau o ddydd i ddydd yn unig. Gwnewch yn siŵr eich bod yn caniatáu amser i wneud penderfyniadau strategol a chynnal persbectif ar weithgareddau presennol sy'n canolbwyntio ar nodau cyffredinol y prosiect.



I ddechrau, gellir ystyried mai llywodraethu yw'r dogfennau llywodraethu sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer eich sefydliad ac, yn ail, y cynllun neu strategaeth busnes sy'n goruchwyllo'r prosesau gwneud penderfyniadau tymor hir a'r gweithdrefnau ar gyfer gweithredoedd o ddydd i ddydd.

Mae angen i'ch dogfennau llywodraethu gydweddu â'r math o sefydliad ydych chi:

| Ffur Gyfreithiol                    | Dogfen Lywodraethu                         |
|-------------------------------------|--------------------------------------------|
| Cymdeithas (Association)            | Cyfansoddiad a/neu Reolau                  |
| Partneriaeth                        | Cytundeb neu Weithred Partneriaeth         |
| Ymddiriedolaeth                     | Gweithred Ymddiriedolaeth                  |
| Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig | Cytundeb Partneriaeth neu Gytundeb Aelodau |
| Cwmni Cyfyngedig                    | Erthyglau                                  |
| Cwmni Buddiannau Cymunedol          | Erthyglau                                  |
| Cymdeithas (Society)                | Cyfansoddiad a/neu Reolau                  |
| Sefydliad Elusennol Corfforaethol   | Cyfansoddiad                               |

Bydd angen i chi benderfynu pa ffurf gyfreithiol i'w mabwysiadu. Mae gan The Cooperative adnodd ar-lein defnyddiol i roi cyngor i chi ar ba ffurf gyfreithiol fydd yn addas ar gyfer eich grŵp [www.uk.coop/our-work/select-structure-tool](http://www.uk.coop/our-work/select-structure-tool)



## Statws cyfreithiol

Eich statws cyfreithiol yw'r ffordd y mae eich sefydliad wedi'i diffinio yn ôl y gyfraith, yn seiliedig ar y ffordd y mae wedi'i sefydlu a'r rheolau a'r rheoliadau sy'n ei lywodraethu. Mae gan bob sefydliad ryw fath o statws cyfreithiol, p'un a yw'n ymwybodol o hynny ai peidio, os oes bwriad sylfaenol i greu cydberthynas gyfreithiol (hyd yn oed os nad oes dogfen lywodraethu ysgrifenedig gan y sefydliad).

Mae dau brif fath o strwythur cyfreithiol, sef:

- **Anghorfforedig:** e.e. Cymdeithasau, rhai Ymddiriedolaethau (gan gynnwys cymdeithas elusennol anghorfforedig), Partneriaethau
- **Corfforedig:** e.e. Cwmnïau cyfyngedig drwy warant, Cymdeithasau er Budd y Gymuned – Bencoms (a ddisodlodd Gymdeithasau Diwydiannol a Darbodus), Cwmnïau Buddiannau Cymunedol, Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig a Sefydliadau Elusennol Corfforedig.

## Corfforedig – anghorfforedig: beth yw'r gwahaniaeth?

Mae gan sefydliad corfforedig ei hunaniaeth gyfreithiol ei hun. Mae'n gorff corfforedig a all weithredu'n gyfreithiol fel un endid. Mae hyn yn golygu y gall fod yn berchen ar ei eiddo ei hun, ymrwymo i gontractau a chyflogi pobl yn ei enw ei hun.

Mae sefydliad anghorfforedig yn parhau'n gasgliad o unigolion ac, os bydd am fod yn berchen ar eiddo ac ati, rhaid iddo ddibynnu ar unigolion i wneud hynny ar ei ran. Os bydd cymdeithas anghorfforedig yn cau gyda dyledion heb eu talu, bydd ei hymddiriedolwyr/aelodau ei phwyllgor yn atebol am y dyledion yn bersonol.

Mae corffori hefyd yn golygu bod atebolrwydd y sefydliad i drydydd partion wedi'i gyfyngu i gyfanswm gwarantau neu gyfalaf cyfranddaliadau'r aelodau, yn dibynnu ar natur y sefydliad. Mae hyn yn diogelu'r rhai sy'n rhedeg y sefydliad a'i aelodau yn y rhan fwyaf o achosion.

## Crynodeb o fanteision ac anfanteision corffori

|                      | Anghorfforedig                                                                                             | Corfforedig                                                                                               |
|----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Atebolrwydd</b>   | Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i unigolion dalu unrhyw ddyledion yn bersonol.                                | Mae atebolrwydd unigol yn gyfyngedig i warant neu gyfalaf cyfranddaliadau heb ei dalu.                    |
| <b>Perchenogaeth</b> | Nid oes modd ymrwmo i gcontractau yn enw sefydliad ac mae anawsterau o ran awdurdod aelodau i wneud hynny. | Gall corff corfforaethol fod yn berchen ar eiddo ac ymrwmo i gcontractau yn ei rinwedd ei hun.            |
| <b>Risg</b>          | Gall risg gael ei dosbarthu'n anghyfartal ymhlith aelodau.                                                 | Mae'r risg yn fwy cyfartal. Caiff pob aelod ei drin yn gyfartal oni bai bod rhyw gytundeb arall ar waith. |
| <b>Cost</b>          | Yn gyffredinol, bydd mân gostau cychwyn, neu ni fydd unrhyw gostau cychwyn o gwbl.                         | Bydd costau cychwyn i'w talu ynghyd â ffioedd blynyddol (er y bydd y rhain yn gymharol fach).             |
| <b>Gweinyddu</b>     | Nid oes angen unrhyw weinyddu yn ôl y gyfraith (oni bai eich bod yn elusen).                               | Rhaid cadw cofnodion parhaus a'u ffeilio gyda'r gofrestrfa briodol.                                       |
| <b>Preifatrwydd</b>  | Preifatrwydd llwyr (oni bai eich bod yn elusen).                                                           | Mae manylion penodol, megis cyfeiriadau aelodau'r corff llywodraethol, ar gofnod cyhoeddus.               |

Gweler: [www.uk.coop/resources/simply-legal](http://www.uk.coop/resources/simply-legal)

## Llunio eich dogfen lywodraethu

Mae nifer o strwythurau cyfreithiol gwahanol a dewisiadau eraill yn lle cyfansoddiad. Yn syml, y nodau a'r rheolau y bydd eich grŵp yn eu defnyddio yw cyfansoddiad. Mae'n ddatganiad o'r hyn y bydd eich grŵp yn ei wneud a sut y bydd yn gwneud hynny. Bydd y rhan fwyaf o gyfansoddiadau yn cynnwys y penawdau neu'r cymalau canlynol:

- enw grŵp
- eich nodau/amcanion (nawr ac yn y dyfodol)
- pwerau (mae hyn yn ymdrin â'r swyddogaethau penodol sy'n gysylltiedig â'r grŵp, megis darparu gwasanaethau neu weithgareddau i ddatblygu'r nodau a'r amcanion)
- aelodau (pwy all ymuno)
- rheolaeth (sut y caiff ei redeg)
- cyllid (ar gyfer atebolrwydd a gweithdrefnau ariannol)
- cyfarfodydd (e.e. pwyllgor rheoli, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, Cyfarfodydd Cyffredinol Arbennig/Eithriadol ac ati)
- rheolau trefniadaeth ym mhob cyfarfod

- newidiadau i'r cyfansoddiad
- diddymu (beth fyddai'n digwydd petai'r grŵp yn dod i ben)

Efallai y byddwch am ystyried y strwythurau cyfreithiol gwahanol gan ddefnyddio rhestr wirio a elwir yn 'Simply Legal'

[www.uk.coop/resources/simply-legal](http://www.uk.coop/resources/simply-legal) ond mae'n debygol y bydd angen cyngor a chymorth arbenigol arnoch cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Fel arfer, mae dogfennau llywodraethu ar gael i **strwythurau cyfreithiol anghorfforedig** eu haddasu ar wefan y rheoleiddwyr, yn ogystal â chanllawiau ynglŷn â'r hyn y gellir ei newid a'r hyn na ellir ei newid a sut i'w cofrestru.

[www.gov.uk/set-up-a-social-enterprise](http://www.gov.uk/set-up-a-social-enterprise)

[www.gov.uk/guidance/how-to-write-your-charitys-governing-document?step-by-step-nav=3dd66b86-ce29-4f31-bfa2-a5a18b877f11](http://www.gov.uk/guidance/how-to-write-your-charitys-governing-document?step-by-step-nav=3dd66b86-ce29-4f31-bfa2-a5a18b877f11)

Gall **strwythurau anghorfforedig** megis cymdeithas ddod o hyd i enghreifftiau da o gyfansoddiadau ar-lein a'u haddasu i ddiwallu eu hanghenion. Nid oes angen cofrestru cyfansoddiad ar gyfer grŵp anghorfforedig gydag unrhyw un. [www.resourcecentre.org.uk/information/constitutions/](http://www.resourcecentre.org.uk/information/constitutions/)

Diffinio rolau a chyfrifoldebau a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio

Rolau hanfodol unrhyw strwythur pwyllgor yw’r cadeirydd, yr ysgrifennydd a’r trysorydd. Fel arfer, cyfeirir at y rhain fel ‘swyddogion’ y pwyllgor. Dyma esboniad o’r rolau hynny a rhai eraill y byddwch, o bosibl, am eu hystyried ar gyfer eich prosiect.

| Rôl                    | Disgrifiad                                                                                                   |
|------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cadeirydd              | Mae’n cadw golwg gyffredinol ar y ffordd y mae’r prosiect yn cael ei lywodraethu. Mae’n cynnal ffocws y grŵp |
| Ysgrifennydd           | Mae’n cymryd cofnodion o gyfarfodydd y pwyllgor, yn anfon agendâu ac yn cyflwyno adroddiadau                 |
| Trysorydd              | Mae’n cadw cofnodion ariannol ac yn awdurdodi taliadau                                                       |
| Ysgrifennydd Aelodaeth | Mae’n cyfathrebu’n uniongyrchol â’r aelodau ac yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf iddynt                        |
| Cyhoeddusrwydd         | Mae’n hyrwyddo’r prosiect, a gall fod ganddo sgiliau dylunio                                                 |
| Digwyddiadau           | Mae’n trefnu digwyddiadau ar y safle                                                                         |
| Iechyd a Diogelwch     | Mae’n gwneud yn siŵr bod y polisiau a’r gweithdrefnau hyn yn gyfredol                                        |
| Gofalwr                | Mae’n rhoi gwybod i’r pwyllgor am unrhyw broblemau ar y safle                                                |
| Cynhwysiant/allgymorth | Mae’n gwneud yn siŵr bod pobl o bob cefndir yn cael cyfle i fod yn rhan o’r prosiect.                        |

Beth yw diben Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol?

- galluogi eich aelodau i glywed adroddiadau gan y Pwyllgor ar lwyddiannau a gwaith eich grŵp yn ystod y flwyddyn
- ethol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf
- gwneud unrhyw newidiadau i’r cyfansoddiad

Cofnodion cyfarfod cyffredinol blynnyddol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofnodi unrhyw benderfyniadau a wneir yn y cyfarfod cyffredinol blynnyddol. Mae’n arbennig o bwysig cadw cofnodion clir o’r etholiadau ac unrhyw newidiadau i’r cyfansoddiad.

Cofnodwch enwau a manylion cyswllt y bobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod er mwyn i chi allu cysylltu â nhw wedyn e.e. gofynnwch i bobl gofrestru pan fyddant yn cyrraedd ar gyfer y cyfarfod cyffredinol blynnyddol

Polisiau, pam mae eu hangen a phabolisiau y dylid eu rhoi ar waith?

Mae polisiau yn set o egwyddorion sy’n llywio prosesau gwneud penderfyniadau. Gall rhai polisiau, megis polisi amddiffyn plant, fod yn ofynnol gan gyllidwyr grantiau neu reoleiddwyr, gan gynnwys y Comisiwn Elusennau, ac mae eraill yn nodi trefniadau llywodraethu mewnol sefydliad.

Dogfennau polisi

Mae dogfennau polisi yn eich galluogi i nodi arferion da ar gyfer amrywiaeth o faterion ac amgylchiadau a manylu arnynt. Maent yn darparu set o reolau hawdd eu diffinio y mae angen i bawb yn eich sefydliad eu dilyn a bod yn ymwybodol ohonynt.

Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng yr awydd i sicrhau arferion da mewn cynifer o feysydd â phosibl a meddu ar y gallu i roi polisiau ar waith. Felly, beth yw’r polisiau hanfodol y mae angen i chi eu rhoi ar waith? Mae hyn yn dibynnu ar y math o safle sydd gennych, a ydych yn caniatáu ymwelwyr, pwy sy’n cynnal gweithgareddau ar eich safle a pha fath o weithgareddau sy’n cael eu cynnal. Gweler isod bum polisi a fyddai’n ddefnyddiol yn y rhan fwyaf o achosion.



## Polisi plant a phobl sy'n agored i niwed

Bwriedir iddo hyrwyddo ymwybyddiaeth, arferion da a gweithdrefnau cadarn. Nod y polisi hwn yw sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau corfforol, emosiynol a chymdeithasol, ac y cânt eu parchu waeth beth fo'u hoed, eu gallu neu eu cyfeiriadedd rhywiol.

## Polisi gwirfoddolwyr

Mae pob grŵp tyfu cymunedol yn dibynnu ar wirfoddolwyr i helpu, felly mae cael polisi sy'n nodi sut mae'r grŵp yn gweithio er budd ei wirfoddolwyr a'r hyn a ddisgwylir gan wirfoddolwyr, yn ddogfen ddefnyddiol.

## Polisi effaith amgylcheddol

Yn gyffredinol, bydd eich gwaith yn canolbwyntio ar welliannau cymunedol ac amgylcheddol, ond mae rhai gweithgareddau

cysylltiedig (e.e. teithio, defnyddio ynni, caffael nwyddau a chynhyrchu gwastraff) yn cael effaith amgylcheddol negyddol. Dylai'r polisi hwn nodi sut y byddech yn ceisio lleihau'r effaith honno.

## Polisi iechyd a diogelwch

Mae'n ddefnyddiol i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch, eu cyfrifoldebau a'r hyn y mae'r grŵp yn ei wneud i sicrhau iechyd a diogelwch da ar y safle.

## Polisi cyfle cyfartal

Mae'n helpu i ddod ag arferion da at ei gilydd, o ran sut mae eich grŵp yn bwriadu gweithredu cyfle cyfartal.

[www.wcva.org.uk/volunteering/working-with-volunteers/model-policies](http://www.wcva.org.uk/volunteering/working-with-volunteers/model-policies)



## Cylch oes grŵp

Mae gan grwpiau gylchoedd oes naturiol ac mae bod yn ymwybodol ohonynt yn tawelu'r meddwl. Lluniodd y seicolegydd, Bruce Tuckman, yr ymadrodd 'Forming, Storming, Norming and Performing' yn 1965 i ddisgrifio'r broses hon. Yn ddiweddarach, ychwanegodd bumed cam, sef oedi neu alaru ('adjourning' neu 'mourning'). Gall y camau hyn gymryd cyfnodau gwahanol o amser, a gellir disgwyl rhywfaint o darfu a gwrthdaro yn ystod y cam Trafod - wrth i chi geisio cytuno ar nodau cyffredin a ffyrdd o weithio. Yn aml, y cam mwyaf trallodus yw'r cam oedi, sef, ar ôl cyfnod o 'gyflawni', mae rhywbeth yn digwydd i amharu ar bethau. Er enghraifft, gall aelod allweddol o'r grŵp adael neu daw prydles i ben. Yn sydyn, ymddengys fod eich prosiect mewn perygl ac mae popeth yn ansicr. Peidiwch â digalonni - efallai mai ad-drefnu sydd ei angen arnoch. Efallai y bydd y grŵp yn chwalu'n llwyr ond, os bydd digon o bobl bwyllog ar ôl, gallant ail-ddechrau, a mynd drwy'r cam cychwynnol unwaith eto.

## Gwrthdaro

Gall gwrthdaro ddigwydd am sawl rheswm. Mae Co-operatives UK wedi llunio set o lyfyrnau, 'From Conflict to Co-operation', sydd ar gael ar eu gwefan. [www.uk.coop/resources/from-conflict-to-co-operation](http://www.uk.coop/resources/from-conflict-to-co-operation)

Yn aml, gellir osgoi gwrthdaro gyda pholisïau a gweithdrefnau cadarn, yn ogystal â chyfarfodydd effeithiol. Dyma rai enghreifftiau:

- **Nid yw deiliad llain ar safle rhandiroedd yn trin y tir ar ei lain neu mae'n gollwng sbwriel neu'n achosi niwsans i ddeiliaid lleiniau eraill.** Os byddwch yn cynnwys polisi peidio â thrin y tir yn eich cytundeb tenantiaeth, gallwch gyfeirio ato mewn llythyr swyddogol oddi wrth y pwyllgor, ac adennill llain os na fydd y deiliad yn cydymffurfio o fewn cyfnod penodol o amser. Bydd hyn yn atal y sefyllfa rhag mynd yn bersonol – fel y gallai ar safle sy'n cael ei reoli'n wael.
- **Mae un unigolyn yn dominyddu'r pwyllgor – nid yw'n ystyried syniadau unrhyw un arall ac mae pobl yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi.** Os oes gennych rolau diffiniedig yn eich

pwyllgor a all newid yn flynyddol, ni ddylai'r unigolyn hwn allu dominyddu'n gyfan gwbl. Hefyd, cofiwch nad yw bod yn gadeirydd y grŵp yn golygu y dylai fod yn gadeirydd ym mhob cyfarfod. Dylech gylchdroi'r rôl o gadeirio'r cyfarfodydd a gwneud yn siŵr bod pawb yn cael tro. Dylai'r aelodau helpu'r cadeirydd i gynnal y cyfarfod.

- **Mae cyfarfodydd yn llusgo ymlaen am oriau ac nid oes unrhyw beth yn cael ei gyflawni. Mae'r aelodau'n mynd yn rhwystredig ac nid ydynt yn dychwelyd.**

Dylech sicrhau bod agenda ar gyfer pob cyfarfod a chyfyngu ar faint o amser sy'n cael ei dreulio ar bob eitem. Ceisiwch barhau i sgwrsio a chymdeithasu ar ôl ymdrin â'r busnes hanfodol.

- **Mae gwrthdaro ynghylch cyfeiriad y prosiect.**

Os bydd nodau ac amcanion eich sefydliad wedi'u nodi'n glir yn y cyfansoddiad, bydd angen i aelodau newydd gadw atynt, gydag unrhyw awgrymiadau neu addasiadau yn cael eu trafod yn agored.

- **Mae gwrthdaro personol difrifol rhwng aelodau.**

Dyma'r sefyllfa anoddaf i ymdrin â hi, oherwydd bydd pobl yn emosiynol iawn. Ystyriwch ofyn i hwylusydd neu gyfryngwr diduedd helpu i ddatrys y gwrthdaro.

## Casgliad

Er mwyn i unrhyw grŵp cymunedol ffynnu, rhaid i'w aelodau fwynhau cymryd rhan. Bydd achlysuron bob amser pan geir anghytuno neu pan fydd problemau'n codi. Dylai grwpiau allu cynnal ethos o gyfathrebu agored a pharch y naill at y llall. Dylech osgoi bod yn orddibynnol ar un neu ddau o bobl. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn mwynhau gallu helpu, os cânt y cyfle. Dylech annog aelodau o'r gymuned i gymryd rhan a chanfod pa sgiliau sydd ganddynt a beth maent yn hoffi ei wneud. Os bydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ac yn cael cyfle i gyfrannu eu sgiliau a gwneud eu cyfraniad unigryw eu hunain, yna bydd eich grŵp cymunedol yn un bywiog a hapus.

## Arian a Chyllid

**Bydd y bennod hon yn gosod awgrymiadau allweddol ar reoli eich arian, codi arian a chynhyrchu incwm.**

Gosododd Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu rhandiroedd yn ôl y galw. Gwnaeth ddarpariaeth i awdurdodau lleol brynu tir yn orfodol er mwyn darparu rhandiroedd a sefydlodd y fframwaith ar gyfer y system rhandiroedd fodern. Nid yw cyllid ar gyfer rhandiroedd erioed wedi cael ei glustnodi, felly mae cyllid i sefydlu a rheoli rhandiroedd awdurdodau lleol wedi amrywio'n fawr iawn. Os bydd darparu a rheoli rhandiroedd wedi'i nodi yng nghynllun corfforaethol awdurdod lleol, mae'n fwy tebygol y caiff gymorth ariannol a chymorth un o swyddogion yr awdurdod lleol.

Mae trefniadau gweinyddu a rheoli safleoedd rhandiroedd yn amrywio. Mae rhai awdurdodau

lleol yn rheoli eu safleoedd eu hunain, tra bod eraill yn prydlesu tir i sefydliadau cymunedol, cynghorau cymuned neu gymdeithasau rhandiroedd, sy'n rheoli'r safleoedd ar ran yr awdurdodau lleol. Hefyd, mewn llawer o ardaloedd ceir rhandiroedd preifat, nad yw'r awdurdod lleol yn ymwneud â nhw o gwbl, yn ogystal â rhandiroedd a gerddi cymunedol.

Ar gyfer llawer o safleoedd rhandiroedd awdurdodau lleol, mae'r rhent blynyddol sy'n cael ei dalu gan ddeiliaid lleiniau yn gyfraniad bach iawn, ond mae safleoedd eraill yn tueddu i godi rhent uwch i dalu am gostau cynnal a chadw sylfaenol. Bydd y gwaith o sefydlu safleoedd newydd a gweithgareddau newydd yn cael eu hariannu gan gyfuniad o gyllidebau mewnol awdurdodau lleol, cyllid o ffynonellau allanol ac incwm arall a gynhyrchir, fel y disgrifir isod.





## Rheoli arian: safbwynt grŵp cymunedol

Er mwyn dod o hyd i gyllid i sefydlu rhandiroedd a gerddi cymunedol, mae rheolaeth ariannol dda yn hanfodol am ei bod yn galluogi eich grŵp i wneud y canlynol:

- cynllunio, monitro ac asesu datblygiad a chynaliadwyedd eich prosiect
- sicrhau bod arian yn cael ei wario'n gall ac fel y cytunwyd
- dangos i gyllidwyr a chefnogwyr posibl fod eich prosiect wedi cael ei drefnu'n dda a'i fod yn gynnig deniadol
- cyflawni cyfrifoldebau cyfreithiol
- llunio adroddiadau cywir i gyllidwyr, cefnogwyr ac aelodau eraill o'ch grŵp

Yn gyntaf oll, bydd angen i chi ganfod pa sgiliau a phrofiad ariannol sydd gan eich grŵp. Os bydd angen cymorth a chynghor ychwanegol arnoch, nodwch pa sefydliadau yn eich ardal sy'n cynnig gwasanaethau ariannol i grwpiau cymunedol a gwirfoddol. Holwch eich Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Lleol, Canolfan Cydweithredol Cymru, Busnes Cymru, y Sefydliad Codi Arian, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol a'r Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd. Gofynnwch i gymdeithasau rhandiroedd/grwpiau cymunedol sefydledig eraill sut maent yn trefnu eu cyllid, pwy sy'n archwilio eu llyfrau'n annibynnol (neu'n cynnal archwiliad ar gyfer sefydliadau mwy o faint), a phwy sy'n rhoi cynghor a gwybodaeth ariannol iddynt.

## Cyfrifon banc cymunedol

Os ydych yn gymdeithas rhandiroedd/grŵp cymunedol, bydd angen i chi gael cyfrif banc i ymdrin â llif cyllid. Mae'n arfer da ac, fel arfer, yn ofyniad grant, bod gan y cyfrif ddau lofnodwr digyswllt, yn ogystal â thrysorydd sy'n gyfrifol am gyllid y sefydliad. Mae gan bron pob undeb credyd neu fanc ar y stryd fawr gyfrifon banc cymunedol heb unrhyw ffioedd. Bydd pob banc yn gofyn am dystiolaeth amrywiol i sicrhau eich bod yn grŵp dilys. Wrth ddewis banc, gwnewch

yn siŵr bod gennych ddarlun clir o'r hyn sydd ei angen arnoch h.y. llyfr siec, cerdyn debyd a pha mor syml yw gwneud taliadau i'r cyfrif.

Efallai y byddwch am ystyried a oes gan y banc safbwynt moesegol, yn eich barn chi, sy'n cydfynd â safbwyntiau moesegol ac amgylcheddol eich grŵp. Os gallwch fynd i mewn i gangen leol, fel arfer mae hynny'n fan cychwyn da i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Mae'r rhan fwyaf o fanciau hefyd yn cynnig grantiau bach ac amser staff i ddod i gynorthwyo gyda phrosiect lleol.

## Rhai termau ariannol

**Cyllideb:** Mae cyllideb yn gynllun sy'n nodi ar beth y byddwch yn gwario eich arian a sut bydd y gwariant hwnnw'n cael ei ariannu.

**Rhagolygon elw a cholled (a elwir hefyd yn Gyllideb Incwm a Gwariant):** Mae cyfrif elw a cholled yn grynoded o drafodion busnes ar gyfer cyfnod penodol – 12 mis fel arfer. Drwy ddiwynnu cyfanswm gwariant o gyfanswm incwm, mae'n dangos a wnaeth eich busnes elw neu golled ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Caiff cyfrif elw a cholled ei greu'n bennaf at ddibenion busnes – er mwyn dangos i berchnogion, rhanddeiliaid neu fuddsoddwyr posibl pa mor dda y mae'r busnes yn perfformio.

**Rhagolygon llif arian parod:** Mae hon yn broses sy'n eich galluogi i ragweld uchafbwyntiau ac isafbwyntiau o ran eich balans arian parod. Mae'n nodi ffynonellau a'r symiau o arian sy'n dod i mewn i'ch busnes, a'r symiau sy'n mynd allan ac i ble, dros gyfnod penodol. Fel arfer, mae dwy golofn, gyda'r naill yn rhestru symiau rhagamcanol a'r llall yn rhestru symiau gwirioneddol. Fel arfer, caiff rhagolwg ei lunio ar gyfer blwyddyn neu chwarter a'i rannu'n wythnosau neu'n fisoedd.

**Mantolen:** Mae hon yn rhoi cipolwg ar gyllid eich gardd ar ddyddiad penodol. Mae'n crynhoi eich incwm a'ch gwariant. Yna, mae'n rhoi eich balans cychwynnol ar gyfer y flwyddyn nesaf.

**Archwiliad:** archwiliad swyddogol o gyfrifon sefydliad a gynhelir, fel arfer, gan gorff annibynnol.



**Cyfrifon:** cofnod neu ddatganiad o wariant ariannol a derbynebaw sy'n ymwneud â chyfnod neu ddiben penodol.

## Trafod arian

Mae'n bwysig sefydlu rheolau sylfaenol ynghylch trafod arian o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y sefydliad yn rhedeg yn ddidrafferth ac, felly, fod anghydfodau yn cael eu datrys yn gynt.

Rhaid i'r grŵp gyfrif am yr holl arian sy'n cael ei dderbyn a'i wario. Mae hyn yn hanfodol, p'un a ydych yn gwario £50 neu £50,000 bob blwyddyn. Yr egwyddor sylfaenol gyffredinol yw cynnal trywydd papur atebol llawn, ar gyfer pob trafodiad, bob amser. Dyma rai rheolau sylfaenol:

- dylech roi derbynneg bob tro y byddwch yn derbyn arian
- dylech gael derbynneg bob amser am unrhyw arian sy'n cael ei dalu allan a sicrhau bod pobl yn llofnodi am unrhyw arian y maent wedi'i dderbyn
- peidiwch byth â chadw mwy o arian nag sy'n angenrheidiol yng nghartref y trysorydd nac ar safle'r ardd – gwnewch yn siŵr bod eich yswiriant yn eich cwmpasu am gadw symiau bach o arian parod
- dylech dalu incwm i mewn i'r banc cyn gynted â phosibl bob amser.
- peidiwch byth â thalu am unrhyw beth ag arian parod rydych newydd ei dderbyn – codwch arian o'r banc ar gyfer gwariant (fel arall, byddwch yn mynd i drafferthion cadw cyfrifon a fydd yn arwain at gamgymeriadau wrth gyfrifo am yr hyn rydych yn ei dderbyn ac yn ei wario).
- cadwch gynifer o gofnodion a nodiadau am drafodion â phosibl, mewn un man diogel, oddi ar y safle os oes modd.

## Cyllidebau – costio eich prosiect

Cyllideb yw'r ffordd orau o nodi cynlluniau ariannol eich grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae'n gwneud yn siŵr eich bod wedi ystyried costau'r hyn rydych am ei wneud gyda'ch safle

rhandiroedd neu ardd gymunedol ac yn eich helpu i gynllunio ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol. Cofiwch y gallai cyllideb sydd wedi'i llunio ar gyfer cais codi arian fod yn wahanol i gyllideb flynyddol eich grŵp. Os byddwch yn gwneud cais am arian ar gyfer prosiect penodol (yn hytrach nag am grant tuag at eich gwaith cyffredinol), efallai y bydd y cyllidwr yn gofyn am gyllideb prosiect yn unig.

## Ysgrifennu cyllideb

Er mwyn ysgrifennu cyllideb, dylai fod gennych syniad realistig, clir ynghylch gweithgareddau eich grŵp ar gyfer y flwyddyn nesaf. Efallai y byddwch am gynnal cyfarfod i drafod hyn. Yr adeg orau i wneud hyn yw cyn dechrau blwyddyn ariannol eich grŵp, er mwyn sicrhau bod gennych ddigon o amser i gynllunio at y dyfodol a pharatoi'r gyllideb.

Mae'r broses o ysgrifennu cyllideb yn debyg i ysgrifennu rhestr siopa, gyda chost pob eitem yn cael ei rhestru. Wedyn, rhaid i chi weithio allan o ble y byddwch yn cael yr arian i dalu am yr eitemau. Peidiwch ag anghofio y gall fod pobl â sgiliau cyllidebu yn eich grŵp a gallwch hefyd geisio cymorth allanol os byddwch yn ei chael hi'n anodd iawn cyllidebu.

## Defnyddiwch eich cyllideb!

Mae eich cyllideb yn adnodd defnyddiol i gadw cofnod o ble mae pethau'n mynd. Bob tri mis, o leiaf, dylai'r unigolyn sy'n gyfrifol am y gyllideb gyflwyno adroddiad ariannol i'r grŵp. Dylai'r datganiad ddangos incwm a gwariant gwirioneddol, gan gynnwys unrhyw filiau heb eu talu ac ati, a chymhariaeth â'r gyllideb wirioneddol. Yna, byddwch yn gallu gweld a ydych ar y trywydd cywir neu a oes angen i chi ailfeddwl.

Os oes gwahaniaeth mawr rhwng y datganiad ariannol a'r gyllideb, mae hynny'n dangos y bydd angen i chi addasu eich cynlluniau. Er enghraifft, os bydd incwm gryn dipyn yn is na'r disgwyl, ystyriwch arbedion posibl y gallech eu gwneud. Os bydd gennych arian

dros ben, gallech benderfynu gwario'r arian ar weithgareddau eraill.

Cofiwch mai dim ond er mwyn cyfrif am wahaniaethau mawr y dylech addasu'r gyllideb a dylech wneud hyn mewn cyfarfod o'ch pwyllgor rheoli bob amser. Hefyd, os ydych yn cael eich ariannu gan grant, peidiwch â gwneud unrhyw newidiadau mawr i'ch gweithgareddau nes i chi gysylltu â'r cyllidwyr a chyd-drafod unrhyw newidiadau.

### Cyllidebau a chodi arian

Yn achos cyllid ar gyfer prosiect/gweithgaredd penodol e.e. atgyweirio llwybrau neu gynnal clwb garddio i blant, caiff costau'r prosiect eu cynnwys yng ngwariant eich cyllideb flynyddol, ond efallai y bydd y cyllidwr yn gofyn am gyllideb prosiect yn unig. Efallai y bydd cyllidwyr prosiect yn gofyn am gyllideb gyffredinol eich grŵp, er mwyn iddynt wybod eich bod yn ddigon sefydlog yn ariannol i gynnal y gyllideb. Mae'n dystiolaeth hefyd eich bod yn drefnus

ac yn deall eich ymrwymiadau ariannol a bod gennych gynllun clir o weithgareddau.

Mae'n bwysig dangos yn glir yn eich cyllideb gyffredinol pa gostau a gaiff eu talu â grant ar gyfer prosiect a pha rai a gaiff eu talu ag incwm cyffredinol. Cofiwch, os cewch gyllid ar gyfer prosiect penodol, mai dim ond er mwyn talu costau'r prosiect ei hun y byddwch yn gallu defnyddio'r grant. Ni fyddwch yn gallu defnyddio'r arian i dalu costau cyffredinol eich grŵp nac ar gyfer prosiect arall. Mae hyn yn wir hefyd am grant ar gyfer offer cyfalaf.

Fel gyda chyllideb gyffredinol, peidiwch ag anghofio cynnwys y 'costau cudd' hynny, megis treuliau, costau teithio, deunyddiau ysgrifennu, argraffu, costau ffôn ac ati.

Os na fyddwch yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â phrosiect yng nghyllideb y prosiect penodol hwnnw, efallai y bydd angen i chi sybsideiddio'r prosiect o'ch cyllideb gyffredinol – nid yw hynny'n syniad da!



Cadarnhau bod y grant yn cyd-fynd â'ch cyllideb:

- Bydd llythyr dyfarnu'r grant neu ffurflen 'amodau'r grant' oddi wrth y cyllidwr yn nodi at ba ddibenion y dylid defnyddio'r arian.
- Os bydd y swm llawn wedi'i ddyfarnu i chi, mae'n debygol mai diben y grant yw talu am y prosiect fel y'i disgrifir yn eich cais – ond dylech edrych ar y manylion bob amser.
- Os bydd y grant yn llai na'r swm y gwnaethoch gais amdano, dylech gadarnhau at ba ddibenion y gellir defnyddio'r grant. Dylech newid eich cyllideb gyffredinol yn y cyfarfod nesaf, os oes angen.
- Os yw eich grŵp yn elusen gofrestredig, bydd grantiau ar gyfer prosiectau neu offer cyfalaf yn cael eu hystyried yn gyllid cyfyngedig. Efallai y bydd angen nodi'r rhain ar wahân yn eich cyfrifon.
- Bydd llawer o grantiau yn amodol ar eich grŵp yn dod o hyd i arian cyfatebol – byddant yn ariannu'r prosiect yn rhannol a bydd angen i chi dalu'r gweddill o ffynonellau eraill.

## Rhagor o wybodaeth

### Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol

Mae 'A Practical Guide to Financial Management', a gyhoeddir gan DSC, yn rhoi llawer o wybodaeth ddefnyddiol am weithdrefnau ar gyfer rhedeg sefydliad cymunedol. [www.dsc.org.uk](http://www.dsc.org.uk)

### Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr

Sawl cyhoeddiad defnyddiol, gan gynnwys:

- Charity reporting and accounting: The essentials (CC15a)
- The essential trustee: What you need to know. (CC3)
- Managing charity assets and resources: an overview for trustees (CC25).  
[www.gov.uk/government/collections/list-of-charity-commission-cc-guidance-publications](http://www.gov.uk/government/collections/list-of-charity-commission-cc-guidance-publications)

### Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ceir adran ar reoli arian ar ei wefan, sy'n cynnwys llawer o daflenni ffeithiau

<https://wcva.cymru/cy/polisiau-gweithdrefnau-a-materion-ymarferol/>

## Busnes yn y Gymuned

Efallai y bydd yn gallu paru prosiectau cymunedol â chymorth am ddim gan gyfrifwyr, cysylltiadau cyhoeddus, cyngor cyfreithiol, dylunwyr a chwmnïau adeiladu. [www.bitc.org.uk/business-in-the-community-cymru/](http://www.bitc.org.uk/business-in-the-community-cymru/)

## Codi arian a chynhyrchu incwm

Mae'n hanfodol, er iechyd eich grŵp yn y dyfodol, eich bod yn sicrhau eich bod yn creu ffyrdd amrywiol a gwahanol o gynhyrchu refeniw. Nid yw dibynnu ar grantiau na chyllid arall yn ddichonadwy.

Mae tair elfen wahanol i'r broses o sicrhau cynaliadwyedd ariannol eich grŵp:

1. Lleihau eich angen am arian yn y lle cyntaf
2. Cynhyrchu eich incwm eich hun
3. Sicrhau cyllid o ffynonellau allanol (e.e. ymddiriedolaethau elusennol, y Llywodraeth, eich cyngor lleol, y loteri, cwmnïau allanol ac ati).

## Lleihau eich angen am arian

Mae tuedd i lawer o brosiectau cymunedol dreulio eu holl amser yn ceisio dod o hyd i ddigon o arian ond dim ond un o'r ffyrdd y gall eich grŵp gyflawni ei nodau a chael effaith ar eich cymuned leol yw sicrhau a gwario arian.

Mae'n amlwg bod arian yn hanfodol ar gyfer rhai pethau, ond gall cymorth mewn nwyddau neu wasanaethau (fel cyngor technegol am ddim, gwirfoddolwyr ymroddedig a medrus, a deunyddiau a gwasanaethau a roddir) ddiwallu llawer o anghenion eich grŵp. Hefyd, mae achub, ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu oll yn ffyrdd o helpu i leihau eich angen am arian. Yn syml, gall bod yn fwy dyfeisgar arbed arian i chi yn aml, yn y byrdymor a'r tymor hwy.

Fodd bynnag, mae lleihau eich angen am arian yn gofyn am gynllunio, systemau trefniadol a sgiliau cyd-drafod.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol:

- A allech dalu llai am wasanaethau neu gynhyrchion rydych yn eu defnyddio'n rheolaidd?
- A ydych yn gwneud y canlynol? Lleihau, Arbed, Atgyweirio, Ailgylchu ac Adolygu'n rheolaidd.



- A allech fod yn fwy dyfeisgar o ran achub offer a benthyg offer?
- A ydych yn talu unrhyw daliadau banc ac, os felly, a oes angen i chi eu talu?
- A oes gennych reolaethau ariannol clir sy'n helpu i atal gwariant gwastraffus?
- Yswiriant – a allwch gael dyfynbris rhatach?
- A ydych yn denu help gwirfoddol ac a oes gennych systemau cymorth da i wirfoddolwyr?
- A ydych yn cael disgownt ffafriol gan eich cyflenwyr?
- Ydych yn annog ac yn defnyddio gwasanaethau ac adnoddau a ddarperir am ddim (rhoddion mewn nwyddau a gwasanaethau)? A all yr awdurdod lleol ddarparu compost, biniau compost ac unrhyw ddeunyddiau eraill?
- A oes unrhyw gydweithrediadau neu gonsortia prynu y gallwch ymuno â nhw?
- A yw eich systemau ariannol a'ch gweithdrefnau cynnal a chadw yn effeithiol?
- A ydych yn cael rhyddhad ar drethi busnes fel elusen?
- A oes grwpiau eraill yn eich ardal y gallech ymuno â nhw i gyd-drafod prisiau gostyngol am nwyddau a gwasanaethau (e.e. hadau, offer ac ati)?

Gall gymryd amser ac egni i asesu'r holl elfennau hyn, ond gallai olygu bod eich grŵp yn gwneud arbedion sylweddol a bod angen llai o incwm arnoch.

## Cynhyrchu eich incwm eich hun

1. Rhoddion mewn nwyddau a gwasanaethau
2. Gwerthu nwyddau
3. Cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau codi arian
4. Gosod rhandiroedd ar rent

## Rhoddion mewn nwyddau a gwasanaethau

Gellir gwahanu'r rhain yn fras yn dri chategori:

- nwyddau, e.e. eitemau anariannol megis offer swyddfa, dyfeisiau, cyflenwadau adeiladu, planhigion, compost ac ati

- adnoddau, e.e. lle storio oddi ar y safle; defnyddio offer fel peiriant argraffu, llungopiwr, peiriannau garddwriaethol
- gwasanaethau, e.e. gwasanaethau proffesiynol am ddim, megis gwaith cynllunio neu gyfreithiol, gwasanaethau adeiladu neu wasanaethau technegol megis dylunio gwefan neu waith gweinyddol.

Bydd angen i chi wneud ymdrech a gwaith cynllunio trefnedig er mwyn denu rhoddion mewn nwyddau a gwasanaethau. Dyma rai syniadau:

- Sefydlu hysbysfwrdd i wirfoddolwyr (tebyg i fwrdd swyddi gwag mewn canolfan gwaith), gan roi cyfarwyddiadau clir ar sut y gall pobl gymryd rhan. Gallech hysbysebu am sgiliau penodol sydd eu hangen arnoch, gyda manylion ynghylch pryd y bydd eu hangen arnoch ac â phwy y dylai darpar wirfoddolwyr gysylltu.
- Llunio a dosbarthu 'rhestr dymuniadau', yn gofyn am roddion mewn nwyddau a gwasanaethau e.e. toriadau planhigion, coed, potiau blodau, offer, pren, argraffu cylchlythyr, gwirfoddolwyr, sgiliau, help gyda digwyddiadau neu weithgareddau penodol ac ati. Dylech ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi – dylech nodi'n glir yr hyn sydd ei eisiau arnoch a chynnwys manylion cyswllt, dyddiadau, amserau a lleoliad.
- Creu cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl a sefydliadau roi i'ch grŵp. Os na fyddwch yn gofyn nac yn helpu pobl i roi, ni fyddwch yn cael unrhyw beth!
- Sôn am y pethau sydd eu hangen ar eich grŵp mewn datganiad i'r wasg, ac fel rhan o gyfleoedd cyhoeddusrwydd eraill. Mae gan y rhan fwyaf o orsafoedd radio lleol 'slot cymunedol' neu 'linell weithredu', lle y gallech ofyn am y pethau sydd eu hangen arnoch.
- Cysylltu â'ch cyngor gwasanaeth gwirfoddol lleol i gael gwasanaethau arbenigol.
- Freegle neu Freecycle – pobl sy'n rhoi pethau nad oes eu hangen arnynt mwyach  
[www.ilovefreegle.org/](http://www.ilovefreegle.org/)

## Gwerthu nwyddau a gwasanaethau

Mae'r rhain yn gofyn am gynllunio a threfnu (e.e. asesiadau risg) er mwyn iddynt weithio. Cofiwch, yn ogystal â chynhyrchu incwm, gallai fod costau yn gysylltiedig â phob un o'r gweithgareddau hyn (e.e. amser staff, ffioedd digwyddiadau). Felly, gwnewch yn siŵr bod y gweithgaredd yn cynhyrchu incwm net.

### Dyma rai syniadau:

**Digwyddiadau cymdeithasol:** Mae'r rhan fwyaf o fannau tyfu cymunedol yn lleoliadau gwych ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol, megis diwrnodau gardd agored, barbiciws, ciniawau'r cynhaeaf, perfformiadau, digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dyddiadau ar y calendr, fel noson tân gwyllt neu Ddiwrnod Afalau, picniciau a gemau, twmpathau, helfeydd trysor ac ati. Gall y rhain fod yn ddatliadau cymunedol ac yn gyfleoedd cyhoeddusrwydd gwerthfawr a, thrwy godi tâl mynediad - neu elfen codi arian arall - gallant gynhyrchu incwm ar gyfer eich gardd. Gall digwyddiadau fod yn gysylltiedig â'r tymhorau a gallant gynnwys gweithgaredd er budd yr ardd, megis plannu, cloddio pwll, cynaeafu ac ati. Mae ffyrdd eraill o godi arian mewn digwyddiadau yn cynnwys gwerthu lluniaeth neu gynnyrch dros ben, rafflau a chystadlaethau.

**Gwerthu:** Mae gan brosiectau tyfu bwyd cymunedol ryw faint o botensial masnachol, ond cofiwch fod angen sgiliau penodol. Yn arbennig, mae angen sicrhau a) amser i gysylltu â chwsmeriaid (unigolion a bwytai/busnesau), b) amser i brosesu cynnyrch a'i gludo i gwsmeriaid, c) y sgiliau i hyrwyddo a chyflwyno cynnyrch i gwsmeriaid.

Gallwch werthu planhigion, toriadau a chynnyrch yn uniongyrchol i'r cyhoedd o'ch safle. Fel arall, os bydd gennych ddigon, gallech werthu llysiau, ffrwythau neu gynhyrchion wedi'u prosesu (e.e. bwyd hylif wedi'i wneud o blanhigion cwmffri neu jamiau wedi'u gwneud o ffrwythau meddal) ar stondin mewn digwyddiad allanol, megis marchnad ffermwyr. Cofiwch y gall costau fod yn

gysylltiedig â hyn. Mae taflen bwnc ar gael gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, sef [www.farmgarden.org.uk/resources/guide-growing-and-selling-produce](http://www.farmgarden.org.uk/resources/guide-growing-and-selling-produce)

Bydd angen i chi ddeall cyfraith Safonau Masnach yn ogystal â goblygiadau iechyd yr amgylchedd. Hefyd, gallech wneud eitemau i'w gwerthu, fel pecynnau gwelyau uchel, pecynnau bae compost a blychau ffenest.

Os byddwch yn datblygu mentrau, bydd ysgrifennu cynllun busnes yn debygol o fod yn ddefnyddiol iawn i chi. Er bod cynlluniau busnes yn dyddio, maent yn eich helpu chi i gadw trefn ar bethau, parhau ar y trywydd cywir a nodi sut y byddwch yn mynd ati i fodloni eich gofynion ariannol. Bydd angen i chi feithrin sgiliau o ran marchnata eich nwyddau a'ch gwasanaethau, ac (ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon) mae Busnes Cymru yn rhoi hyfforddiant am ddim ar y pwnc hwn.

## Gwerthu cynnyrch dros ben mewn rhandiroedd

**Noder:** Mae cyfyngiadau cyfreithiol ar werthu cynnyrch o randiroedd statudol, gweler y Bennod: Rhandiroedd a'r Gyfraith

Mae Deddf Rhandiroedd 1922 a22 (1) yn nodi mai ystyr yr ymadrodd "gardd rhandir" yw rhandir nad yw'n fwy na 40 polyn sy'n cael ei drin yn gyfan gwbl neu'n bennaf gan y meddiannydd at ddibenion cynhyrchu cnydau llysiau neu ffrwythau i'w bwyta ganddo ef neu ei deulu.

Y defnydd o'r ymadrodd "yn bennaf" sy'n rhoi rhyddid i werthu'r cynnyrch dros ben, ynghyd â'r gallu i dyfu ychydig o flodau.

Gallai cytundebau tenantiaeth penodol gynnwys cyfyngiadau ychwanegol ar fasnachu, ond byddai hyn ar sail achosion unigol.

Mae rhandiroedd a redir gan Gymdeithasau Rhandiroedd yn aml yn cynnal digwyddiadau/diwrnodau agored sy'n caniatáu'n benodol i

ddeiliaid lleiniau roi planhigion a chynnyrch dros ben er mwyn codi arian.

Hefyd, mae rhai cymdeithasau rhandiroedd yn swmp-brynu hadau a phlygiau i'w gwerthu'n uniongyrchol i'r deiliaid lleiniau fel ffordd o gynhyrchu incwm i'r gymdeithas.

Darparu hyfforddiant ymarferol: Defnyddio, lle y bo'n bosibl, ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, gallech godi tâl am fynychu gweithdy hyfforddi e.e. 'Dewch i adeiladu uned gompost' neu 'Gwneud a phlannu basged grog gan ddefnyddio perlysiâu'. Os oes gennych y sgiliau angenrheidiol o fewn eich grŵp, gallech hefyd gynnal gweithdai crefft, fel troelli a gwehyddu.

**Gweithgareddau addysgol:** Efallai y bydd gan ysgolion lleol neu grwpiau eraill ddiddordeb mewn ymweld â'ch gardd fel gweithgaredd addysgol.

**Darparu gwasanaethau arbenigol:** Er enghraifft, tirlunio, adeiladu gerddi mewn ysgolion, clirio gerddi pobl hŷn ac ati.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau codi arian – 5 peth i'w hystyried

- Cynnal gweithgareddau neu stondinau codi arian a chyhoeddusrwydd mewn digwyddiadau lleol allanol megis ffeiriau ysgol ac ati.
- Gosod blwch rhoddion yn eich gardd, mewn man amlwg, gyda hysbysiad deniadol. Gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiogel a'i fod yn cael ei wagio'n ddyddiol.
- Sefydlu grŵp o wirfoddolwyr a chefnogwyr sy'n fodlon rhoi o'u hamser i redeg neu drefnu eich gweithgareddau codi arian. Gallech, er enghraifft, benderfynu cynnal pedwar diwrnod agored tymhorol mewn blwyddyn i godi arian, rhoi chyhoeddusrwydd i'r hyn rydych chi'n ei wneud, a denu aelodau a gwirfoddolwyr newydd.
- Ystyriwch amrywiaeth o weithgareddau codi arian ac ystyriwch yn feirniadol pa rai sy'n debygol o fod yn llwyddiannus i'ch grŵp. Mae

trefnu a chynnal digwyddiadau a chlirio ar eu hôl yn cymryd amser ac ymdrech; a yw'r digwyddiad yn debygol o godi digon o arian i'w wneud yn werth chweil? Mae enghreifftiau o ddigwyddiadau codi arian yn cynnwys: ffeiriau sborion, arwerthiannau cist car/ stondinau, rafflau, ffeiriau, carnifalau, tombola, rasys hwyaid, cystadlaethau tyfu blodau'r haul, sioeau llysiau a blodau a digwyddiadau noddedig.

- Efallai y bydd sefydliadau neu grwpiau lleol eraill yn fodlon cydweithio â chi i drefnu a chynnal digwyddiadau codi arian ar y cyd.

## Rhentu rhandiroedd

- Mae'r ffioedd a godir am rentu rhandiroedd yn amrywio'n fawr. Mae rhent rhai rhandiroedd yn uwch i dalu costau cyflenwi dŵr, darparu cyfleusterau toiled a chynnal a chadw'r safle. Bydd deiliaid lleiniau unigol yn talu eu rhent blyneddol naill ai i'r gymdeithas rhandiroedd sy'n rheoli'r safle neu'n uniongyrchol i'r awdurdod lleol, os yw'n rheoli'r safle.
- Mae'r Deddf Rhandiroedd yn nodi y dylid pennu rhent teg gan ystyried beth mae pobl eraill yn ei dalu ar safleoedd eraill.
- Gall yr awdurdod lleol neu'r gymdeithas rhandiroedd ofyn am flaendaliadau, a fydd yn ffordfed os bydd deiliad llain yn gadael llain mewn cyflwr anfoddhaol.

## Cyllid grant

Mae'r cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch tyfu cymunedol dros y blyneddau diwethaf wedi dod â llawer o fanteision, ond mae'n golygu bod nifer gynyddol o grwpiau tyfu cymunedol yn chwilio am gymorth o gronfa gyllid sy'n lleihau'n gyflym.

Mae'n bwysig bod unrhyw grŵp sy'n chwilio am grantiau yn ystyried ei drefniadau llywodraethu (h.y. y cyfansoddiad cyfundrefnol), bod ganddo gyfrif banc, amcanion prosiect a chynllun prosiect, a'i fod yn bodloni'r meini prawf



penodol ar gyfer cynlluniau grant, er mwyn gwella ei siawns o gael cyllid. Os nad ydych yn siŵr a yw eich sefydliad neu'ch gweithgaredd yn gymwys i gael grant penodol, mae bob amser yn werth ffonio'r cyllidwr i drafod hyn cyn i chi dreulio amser gwerthfawr ar geisiadau cymhleth. Esboniwch i'r cyllidwr beth rydych yn ceisio ei gyflawni, yna bydd yn gallu dweud wrthyhch a oes unrhyw un o'i lifau cyllid yn briodol ac ar agor i dderbyn geisiadau.

Er mwyn gwella eich siawns o gael cyllid, mae'n hanfodol eich bod yn gallu dangos eich bod yn cael eich rheoli'n dda, yn drefnus, o fudd gwirioneddol i'r gymuned leol ac yn gallu rheoli arian a chynnig gwerth am arian. Gofynnwch i chi eich hun, gyda chymaint o achosion teilwng, pam y dylai unrhyw un roi arian i'ch grŵp chi?

Gall codi arian fod yn waith caled a chymryd llawer o amser, a bydd costau yn gysylltiedig ag ef. Mae'n bwysig eich bod yn neilltuo'r amser a'r adnoddau angenrheidiol i'w wneud yn gywir – anaml iawn y bydd geisiadau brysiog, amhriodol neu anghywir neu geisiadau nas ystyriwyd yn drwyadl yn llwyddo a gallent ddifetha eich cydberthynas â chyllidwr hirdymor neu reolaidd posibl.

Cofiwch fod mwy na 90 y cant o waith codi arian yn ymwneud â pharatoi gofalus, cynllunio, meithrin cydberthnasau a chadw cofnodion. Gall cysylltu â'r cyllidwr cyn i chi wneud cais, er mwyn cael sgwrs am eich prosiect a'ch cais, fod yn hynod werthfawr ac arbed llawer o amser i chi.

Dim ond am arian i wneud y pethau sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun datblygu cyffredinol eich grŵp y dylech wneud cais. Gall fod yn demtasiwn gwneud cais am arian gan ei fod ar gael, neu am yr ymddengys ei fod yn hawdd i'w gael yn unig. Fodd bynnag, mae perygl y gallai eich grŵp orfod gwneud pob math o bethau nad ydynt yn ymwneud â'r rhesymau gwirioneddol y ffurfiwyd y grŵp yn y lle cyntaf.

Fel arfer, mae'n llawer anoddach codi cyllid refeniw rheolaidd (costau rhedeg) na chyllid

cyfalaf (e.e. offer, tir ac adeiladau). Dylai eich cynllun busnes/gweithredu ystyried hyn.

Ceisiwch feithrin cydberthynas â chyrrff cyllido presennol a phosibl. Cadwch gofnodion da o bob agwedd ar weithgareddau eich grŵp, cofiwch gasglu tystiolaeth ynghylch pa mor dda y mae eich prosiect yn datblygu a pheidiwch â bod ofn herio a newid y pethau hynny nad ydynt, o bosibl, yn mynd yn dda. Anfonwch gylchlythyrau neu adroddiadau cynnydd. Dylech bob amser lenwi unrhyw ffurflenni neu gwblhau unrhyw waith monitro y mae'r cyllidwr yn gofyn i chi eu llenwi neu eu cwblhau, o fewn ei derfynau amser.

Gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth sydd gennych am sefydliadau cyllido yn gyfredol ac yn gywir. Gall themâu neu ffocws cyllidwyr newid o un flwyddyn i'r llall, neu efallai y byddant yn cau cronfa benodol.

## Paratoi eich cais

### Dylai pob cais ddilyn y 5 rheol ganlynol:

1. Pwy? Disgrifiwch eich grŵp.
2. Beth? Nodwch ar beth yn union rydych am wario'r arian.
3. Pryd y bydd ei angen arnoch? Dylech ganiatáu sawl mis i brosesu eich cais.
4. Ble? Disgrifiwch eich cymuned leol.
5. Pam? Esboniwch pwy fydd yn elwa o ganlyniad i gael y grant.

### A dylai geisiadau gynnwys y 3 Cham canlynol:

1. Sut y byddwn yn cyflawni'r hyn rydym am ei wneud?
2. Faint fydd cyfanswm y gost?
3. Faint o gyllid rydych yn gwneud cais amdano?

Bydd y rhan fwyaf o gyllidwyr am weld sut y bydd eich prosiect yn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol ac iechyd i'ch cymuned.

## Codi arian – pwyntiau i'w cofio

- mae angen i chi wybod at ba ddibenion yn union rydych yn codi arian a faint o arian sydd ei angen arnoch? Erbyn pryd y mae angen i chi gael yr arian, beth yw eich amserlen?
- gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau penodol ar y ffurflen gais o fewn y terfyn geiriau
- gwnewch yn siŵr bod y gyllideb yn gywir!
- dylech gynnwys ychydig o ddeunydd ategol perthnasol (ond nid gormod), gan gynnwys, lle y bo'n bosibl, ddeunyddiau gweledol da e.e. lluniau neu luniadau, cyllideb fanwl ar gyfer y prosiect a'ch adroddiad a chyfrifon blynyddol diwethaf (os yw eich grŵp yn fwy na blwydd oed).
- cadwch gopi o'ch llythyrau/ffurflenni cais bob amser, rhag ofn y bydd y cyllidwr yn gofyn am fwy o wybodaeth neu eglurhad, ac i alluogi aelod arall o'ch grŵp i ateb ymholiadau os na fydd yr awdur/awduron gwreiddiol ar gael
- paratowch ar gyfer cael eich gwrthod; gall cais gael ei wrthod am sawl rheswm. Efallai ei fod yn rhy wan neu efallai nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau penodol y cyllidwr, neu efallai nad oes arian ar ôl yn y flwyddyn ariannol honno neu yn y rownd honno o geisiadau. Ceisiwch ganfod pam y gwrthodwyd eich cais ac ystyriwch wneud cais ar gyfer prosiect gwahanol ar ôl i flwyddyn fynd heibio.
- os byddwch yn llwyddiannus, yn ogystal ag anfon llythyr o ddiolch, rhowch y wybodaeth ddiweddaraf i'r cyllidwr wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen; bydd hyn yn helpu i gryfhau a datblygu eich cydberthynas â nhw ac, o bosibl, sicrhau mwy o gyllid. Anfonwch adroddiadau cynnydd a gohebiaeth arall, os yw'n briodol e.e. adroddiad blynyddol, gwahoddiadau i ddigwyddiadau, lluniau, gwaith plant, deunydd cyhoeddusrwydd a datganiadau i'r wasg sy'n sôn am y cyllidwr. Mae cysylltu ddwy neu dair gwaith y flwyddyn yn ddigon; os byddwch yn cysylltu'n rhy aml, efallai y bydd y cyllidwr yn teimlo eich bod yn ei beledu â gohebiaeth
- byddwch yn onest. Gwariwch arian fel y cytunwyd a gofynnwch gyngor y cyllidwr os oes angen gwneud newidiadau sylweddol i'r prosiect y mae wedi'i gyllido – gall ddigwydd!

Weithiau, efallai bydd gardd yn derbyn arian o ddwy ffynhonnell ar gyfer yr un gwaith. Cysylltwch ag un o'r cyllidwyr, esboniwch a gofynnwch a allwch wario'r arian ar ddarn penodol arall o waith; mae'n annhebygol o ddweud na.

## Ffynonellau cyllid

Mae rhaglenni grant yn mynd a dod, felly ni fydd y ddogfen hon yn nodi cronfeydd cyllido penodol, gan y byddai'n dyddio'n fuan. Fodd bynnag, mae nifer o gyrff grantiau y mae'n werth eu hystyried.

Mae ffynonellau cyllid allanol yn perthyn i'r categorïau canlynol:

### Ymddiriedolaethau elusennol

Mae tua 4,000 o ymddiriedolaethau sy'n cynnig grantiau yn y Deyrnas Unedig. Gyda'i gilydd, maent yn rhoi miliynau o bunnau bob blwyddyn, ond nifer cymharol fach sy'n rhoi symiau dros £5,000. Cewch fwy o wybodaeth am ymddiriedolaethau elusennol o'r ffynonellau canlynol:

- Mae 'The Guide to Major Trusts', a gyhoeddwyd gan y Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol, yn rhoi gwybodaeth fanylach. Gall fod gan eich llyfrgell leol neu Gyngor Gwasanaeth Gwirfoddol gopïau neu holwch sefydliadau eraill.
- Porthol Ariannu'r Trydydd Sector Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), sef y siop un stop ar gyfer cyngor a chyfleoedd ariannu. [www.wcva.org.uk/funding](http://www.wcva.org.uk/funding)
- mae gweithwyr cymunedol a gweithwyr datblygu lleol tebyg yn aml yn ffynhonnell dda o help a chyngor.
- mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth a ddiweddarir yn rheolaidd am ffynonellau cyllido drwy ei gylchlythyrau, ei e-fwletinau a'i wefan.

### Cyllid y Loteri

[www.lotterygoodcauses.org.uk/funding](http://www.lotterygoodcauses.org.uk/funding)

Mae'r wefan yn eich galluogi i chwilio am wybodaeth am raglenni cyllido presennol ledled y DU. Cynhelir seminarau'r Loteri yn rheolaidd ac maent yn ffynhonnell dda o gyngor a chymorth.

## **Cronfeydd cyhoeddus**

Mae hyn yn cynnwys derbyn arian ar ffurf grantiau, cytundebau gwasanaeth a mathau eraill o gontractau o amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus, megis: adrannau'r Llywodraeth, cynghorau sir, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau iechyd neu ymddiriedolaethau iechyd ac ati.

## **Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol**

Mae cytundeb Adran 106 (A106) yn gytundeb preifat cyfreithiol rwyngol rhwng datblygwr (neu nifer o bartion â buddiant) ac Awdurdod Cynllunio Lleol, ac mae'n gweithredu ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio statudol.

Mae cytundebau Adran 106, a elwir hefyd yn rhwymedigaethau cynllunio, yn gytundebau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth ganiatadau cynllunio unigol ac sy'n gosod gofynion lliniaru lleol er mwyn gwneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Mae hyn yn golygu y dylai'r awdurdod cynllunio ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwr gyfrannu'n ariannol at "seilwaith gwyrdd". Mae'r cyfraniad ariannol hwn yn agored i'w drafod, yn seiliedig ar ddichonoldeb y cynllun a gwerthoedd y tir. Mae at beth y dylai'r arian gyfrannu (ffyrdd, ysgolion, tai fforddiadwy, yn ogystal â seilwaith gwyrdd) hefyd yn agored i'w drafod ac, yn aml, bydd cryn gystadlu am yr arian hwnnw. Mae rhai awdurdodau lleol yn ehangu'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr â seilwaith gwyrdd fwyfwy, sy'n eu galluogi, wedyn, i wario arian ar fannau tyfu a rhandiroedd, yn ogystal ag ardaloedd gwarchod bywyd gwyllt a chyfleusterau chwarae a chwaraeon. Gellir gwario'r arian a gyfrannwyd gan y datblygwr ar ddarparu seilwaith gwyrdd o fewn y datblygiad newydd a hefyd yn yr ardal ddaearyddol lleol ehangach.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 16 Llywodraeth Cymru (2009) ar Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored tudalen 20, yn cadarnhau y gall awdurdodau lleol ddefnyddio A106 i ddarparu rhandiroedd ar y cyd â mannau compostio a mannau gwyrdd naturiol.

<https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-16-chwaraeon-hamdden-mannau-agored>

Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaeth cyfalaf a refeniw ddigonol ar gyfer seilwaith gwyrdd yn eu cyllidebau eu hunain a bod cyfraniadau effeithiol yn ddarparu adnoddau digonol ar gyfer datblygiadau cymeradwy, naill ai mewn nwyddau neu drwy symiau ariannol wedi'u clustnodi. Gall ffynonellau cyllid refeniw gynnwys cyfleoedd i gynhyrchu incwm o asedau seilwaith gwyrdd drwy fasnachfreinio, ffioedd trwyddedu a mynediad, gwaddolion, ymddiriedolaethau cymunedol, buddsoddi masnachol a chyllid traddodiadol awdurdodau lleol.

Mae'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn dreth datblygu leol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008 ac a ddaeth i rym yng Nghymru a Lloegr ar 6 Ebrill 2010. Hyd yn hyn, dim ond nifer bach o awdurdodau cynllunio yng Nghymru sydd wedi cyflwyno'r ardoll. Os bydd gwerthoedd tir awdurdodau lleol yn isel, bydd cael Ardoll Seilwaith Cymunedol yn atal datblygiadau newydd mewn ardaloedd y mae angen eu hadfywio. Mae awdurdodau lleol nad ydynt yn defnyddio'r Ardoll Seilwaith Cymunedol wedi'u cyfyngu o ran y pethau y gallant wario arian Adran 106 arnynt.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi penderfynu mai'r dull hwn sy'n seiliedig ar dariffau sy'n cynnig y fframwaith gorau ar gyfer cyllido seilwaith newydd, er mwyn datgloi tir ar gyfer twf. Mae'n ystyried bod yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn decach, yn gyflymach ac yn fwy tryloyw na defnyddio rhwymedigaethau cynllunio (h.y. cytundebau Adran 106). Gellir defnyddio arian yr ardoll i ddarparu seilwaith lleol ac isranbarthol newydd er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu ardal yn unol â chynllun datblygu awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 15% o'r ardoll a gesglir gael ei throsglwyddo i'r Cynghorau Cymunedol lle y digwyddodd y datblygiad. Os nad oes Cyngor Cymunedol, bydd yr awdurdod sy'n codi'r ardoll yn cadw'r arian ond dylai gynnal trafodaethau â'r cymunedau perthnasol a dod i gytundeb â nhw ar y ffordd orau o wario'r arian.

Bwriedir i'r Ardoll ddarparu seilwaith sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu ardal yn hytrach



nag A106 i wneud ceisiadau cynllunio unigol yn dderbyniol o safbwynt cynllunio. Dylai pob Awdurdod lunio atodlen o daliadau yn dangos faint o Ardoll fydd ynghlwm wrth ddatblygiadau penodol. Byddant hefyd yn llunio rhestr o dan Reoliad 123 yn dangos lle y caiff yr arian ei wario. Yn ei hanfod, gall yr arian gael ei wario ar flaenoriaethau ardal fel y'u nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Dylech siarad â chynghorydd eich ward leol (Aelod Etholedig) ynghylch lle y bwriedir gwario'r arian yn eich ardal leol.

[www.gov.uk/guidance/community-infrastructure-levy](http://www.gov.uk/guidance/community-infrastructure-levy)

Mae **Nights Out** yn un o gynlluniau Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n helpu sefydliadau lleol i gyflwyno perfformiadau proffesiynol mewn adeiladau cymunedol a lleoedd awyr agored cymunedol, am brisiau cymorthdaledig.

[www.nosonallan.org.uk](http://www.nosonallan.org.uk)

**Dyngarwch:** Mae'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru yn elusen unigryw sy'n hyrwyddo ac yn rheoli dyngarwch. Ei rôl yw cryfhau cymunedau yng Nghymru drwy ddyfarnu grantiau i brosiectau sy'n cael effaith gynaliadwy ar anghenion lleol, a helpu eu cleientiaid i wneud y gorau o'u rhoddion elusennol

<https://communityfoundationwales.org.uk/>

Mae gan **Archfarchnadoedd** gynlluniau grant neu docynnau cymunedol. Ewch i wefannau ac archfarchnadoedd lleol i gael mwy o wybodaeth.

**Tâl am fagiau siopa plastig**, gan fanwerthwyr sy'n rhoi bagiau siopa untro i'w cwsmeriaid. Nid yw'r Rheoliadau'n nodi i ble y dylai elw'r tâl fynd. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r elw gael ei roi i elusennau neu achosion da yng Nghymru ac, yn arbennig, i brosiectau amgylcheddol.

**Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi.** Mae angen i'r prosiect fod o fewn 10 milltir i safle tirlenwi.

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/cynllun-cymunedau-y-dreth-gwarediadau-tirlenwi/>

Mae **Cynllun Grantiau'r Cyfamod Cymunedol** yn rhoi cymorth ariannol i brosiectau lleol, sy'n cryfhau'r cysylltiadau neu'r gyd-ddealltwriaeth rhwng aelodau o Gymuned y Lluedd Arfog

a'r gymuned ehangach lle maent yn byw. Gall unrhyw ran o'r gymuned gyflwyno cais am gyllid; gallai gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennau, cyrff cyhoeddus, megis ysgolion ac ati.

[www.covenantfund.org.uk/](http://www.covenantfund.org.uk/)

**Cymdeithasau Tai:** Mae'r rhan fwyaf o gymdeithasau tai yn cynnig grantiau. Mae rhai yn berthnasol i grwpiau cymunedol yn y pentref neu'r dref lle mae gan y gymdeithas tai eiddo ac nid, o reidrwydd, ar ystad y gymdeithas dai ei hun.

**Cwmnïau Ynni a Chwareli:** Os ydych mewn ardal lle mae cyfleuster cynhyrchu ynni neu chwarel, mae'n debygol y bydd cynllun grantiau gan y cwmni ar gyfer prosiectau cymunedol. Felly cysylltwch â'r cwmni yn uniongyrchol.

### Cymorth Rhodd

Os ydych yn elusen gofrestredig neu'n glwb chwaraeon amatur cymunedol, gallwch hawlio ad-daliad o 25c bob tro y bydd unigolyn yn cyfrannu £1 i'ch elusen. Yr enw ar yr ad-daliad hwn gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) yw Cymorth Rhodd. Mae elusennau wedi'u heithrio rhag talu treth, felly gall yr elusen adennill y dreth sydd eisoes wedi'i thalu ar yr arian hwnnw.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/>

### Cwmnïau

Efallai y bydd cwmnïau lleol a changhennau lleol o gwmnïau cenedlaethol neu ryngwladol yn fodlon eich cefnogi. Mae gan lawer o gwmnïau mwy o faint raglen Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol. Ar y cyfan, ystyrir bod y rhain yn ffordd i gwmnïau wneud rhywbeth y tu hwnt i'w cylch gwaith arferol er budd cymdeithas.

Mae sawl ffordd y gall cwmnïau helpu, megis:

- noddi digwyddiad
- rhoddion mewn nwyddau neu wasanaethau (megis cyfrifiadur ail-law, dodrefn ac offer)
- rhoi disgowntiau ffafriol ar nwyddau rydych yn eu prynu ganddynt
- grantiau arian parod
- yn aml, mae gan gwmnïau mawr gangen rhoi grantiau eu hunain, sy'n aml yn cefnogi grwpiau lleol yn yr ardal lle mae eu canghennau

- caniatáu i grwpiau ddefnyddio eu cyfleusterau neu eu gwasanaethau a'u hoffer am ddim
- benthg aelod o staff ar secondiad byrdymor byr er mwyn helpu gyda phrosiect neu broblem benodol
- talu am hysbysebu yn eich cylchlythyr neu'ch pamffled

### Cynhyrchu Incwm yn Ddigidol

Mae nifer cynyddol o grwpiau cymunedol yn troi at y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwrdd fel ffordd o gynhyrchu incwm. Mae hwn yn faes deinamig sy'n datblygu'n gyflym, gyda photensial ar gyfer y rhai sy'n gyfforddus â thechnoleg ar-lein ac sy'n meddu ar sgiliau cyfryngau cymdeithasol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

#### Defnyddio PayPal i greu botymau rhoi ar

**eich gwefan:** Mae ychydig yn gymhleth i'w sefydlu, ond mae'n galluogi defnyddwyr eich gwefan neu'ch blog i roi'n uniongyrchol. Mae hyn yn golygu, os byddwch yn awyddus i gynnal apêl lle rydych yn gofyn yn uniongyrchol am roddion gan unigolion, y gallant roi rhodd syml yn uniongyrchol drwy eu cyfrif PayPal.

Mae costau'n gysylltiedig â hyn h.y. 3.4% ac 20c fesul trafodiad, oni bai eich bod yn elusen gofrestredig, sy'n golygu y bydd yn codi tâl o 1.4%. Mae gan PayPal rif rhadffôn, felly ffoniwch y cwmni i drafod eich opsiynau

#### Defnyddio gwasanaeth codi arian ar-lein:

Mae rhai grwpiau yn dewis defnyddio pŵer a hyblygrwydd gwefannau codi arian megis [www.JustGiving.com](http://www.JustGiving.com). Gall y rhain gael eu defnyddio gan bobl sy'n codi arian ar ran eich grŵp, e.e. rhedeg nodedig. Fodd bynnag, efallai y codir tâl ar sefydliadau am ddefnyddio gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r gwefannau hyn.

**Cyllido torfol:** Dyma pryd y byddwch yn cynnal ymgyrch marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer prosiect penodol ac yn gofyn i lawer o bobl roi ychydig bach o arian yr un. Mae rhai cynlluniau cyllido torfol yn cynnig gwobrau i bobl am roi.

[www.ukcfa.org.uk/what-is-crowdfunding/](http://www.ukcfa.org.uk/what-is-crowdfunding/)

### Ymchwilio i ffynonellau cyllid ar-lein

Mae gan rai ymddiriedolaethau a sefydliadau mwy o faint wefannau sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am y cyllid a ddarperir ganddynt, ynghyd â chynghor a chanllawiau ar wneud cais. Mae'n bwysig darllen y nodiadau cyfarwyddyd a llenwi pob adran o unrhyw ffurflen gais yn ofalus, os byddant wedi darparu un.

Gallwch hefyd fynd i wefannau cyllido arbenigol megis:

<https://wcva.cymru/cy/cyllid/>

[www.j4bcommunity.co.uk](http://www.j4bcommunity.co.uk)

[www.grantsonline.org.uk](http://www.grantsonline.org.uk) gwasanaeth tanysgrifio gyda gwybodaeth am gyfleoedd cyllido yn y DU ar gyfer sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymunedol

### Rhagor o wybodaeth

- Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol – Mae cyhoeddiadau defnyddiol yn cynnwys 'The Complete Fundraising Handbook' gan 'The directory of grant making trusts' a 'Voluntary but not Amateur'.  
[www.dsc.org.uk/Publications](http://www.dsc.org.uk/Publications)
- CGGC  
<https://wcva.cymru/cy/cyllid/>
- Canolfan Cydweithredol Cymru Cynigion Cyfranddaliadau Cymunedol Canolfan Cydweithredol Cymru;  
[www.communityshares.org.uk](http://www.communityshares.org.uk)

Nesta – Elusen arloesedd gyda gwybodaeth am gyllido torfol gan gynnwys y ddogfen, 'Working the crowd'.

[www.nesta.org.uk/](http://www.nesta.org.uk/)

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – adnoddau sy'n amrywio o werthu cynnyrch dros ben i becyn cymorth partneriaethau i Fusnesau a Chorfforaethau

[www.farmgarden.org.uk/cy/adnoddau](http://www.farmgarden.org.uk/cy/adnoddau)



## Yr amgylchedd a bioamrywiaeth

Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd, o'r fronfraith mewn perllan i ffyngau mewn coetir hynafol. Mae natur yn rhoi hanfodion bywyd i ni ac yn ein hysbrydoli, gan ddarparu gwasanaethau ecosystem megis dŵr ac aer glân, yn ogystal â rhoi pleser a heddwch mewn byd prysur. Rydym yr un mor ddibynnol ar system ecolegol iach â'r pryfed, y planhigion a'r anifeiliaid rydym yn rhannu'r blaned â nhw. Colli cynefin, llygredd, cyflwyno rhywogaethau goresgynnol, newid yn yr hinsawdd a gorddefnyddio adnoddau sy'n gyfrifol am y dirywiad cyflym mewn bioamrywiaeth. Mae'r colledion hyn yn golygu bod ecosystemau yn llai abl i wrthsefyll ergydion a newid. Enghraifft bosibl o hyn yw os bydd tiriogaeth rhywogaeth yn newid oherwydd newid yn yr hinsawdd ond bod bylchau yn y cynefin sydd ar gael. Er bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth, gallwn hefyd wneud dewisiadau bob dydd sy'n cefnogi bioamrywiaeth a'r amgylchedd – yn enwedig ar y rhandir.

### Nodweddion ar y rhandir sy'n cefnogi bioamrywiaeth

Er bod gerddi rhandir yn cael eu defnyddio i dyfu cynydau a blodau neu fel man hamdden fel arfer, gallant hefyd gynnwys cynefinoedd megis dôl, ymyl coetir (gwrych) a phyllau, a chynnal sawl rhywogaeth y mae eu nifer yn lleihau'n genedlaethol, megis adar cân, ystlumod lleiaf, draenogod, amffibiaid a pheillwyr.

Gan gadw hyn mewn cof, os bydd eich grŵp yn ystyried creu rhandiroedd neu ardd gymunedol ar safle newydd, dylid ystyried bioamrywiaeth a budd ecolegol y safle. Mae'n bwysig meddwl am yr effaith y bydd trin y tir yn ei chael ar nodweddion ecolegol presennol ac ystyried a oes modd cadw rhai o'r nodweddion hyn neu gynllunio mannau i'w cynnwys.



## Gwrychoedd ac ymylon

Gall un gwrych gynnal hyd at 2000 o rywogaethau, gan gynnal gwe fwyd ecolegol gymhleth. Mae gwrychoedd yn creu coridorau i fywyd gwyllt drwy'r dirwedd, gan gysylltu coetiroedd a chynefinoedd. Mae tyfu gwrych o amgylch y safle cyfan yn ffordd wych o gynyddu nifer y rhywogaethau sy'n cael eu cynnal gan eich prosiect a denu bywyd gwyllt buddiol i'ch tir.

Yn ogystal â chreu cynefin pwysig ar y safle, mae gwrychoedd hefyd yn helpu i gynnal hyd at 135 o 'rywogaethau â blaenoriaeth'. Mae Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd 2016 yn rhoi manylion am Rywogaethau a Chynefinoedd â Blaenoriaeth

[www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru](http://www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru)

Wrth blannu gwrych, mae'n well defnyddio cymysgedd o rywogaethau brodorol, gan gynnwys coed cyll, drain gwynion, drain duon, coed celyn a rhosod gwylltion. Er mwyn sicrhau bod eich gwrych yn cynnig y cynefin gorau posibl ac yn cynyddu bioamrywiaeth dylech wneud y canlynol:

- Ei gadw'n drwchus.
- Ei dorri ar yr adeg gywir, tua diwedd y gaeaf yn ddelfrydol.
- Peidio â'i dorri'n rhy aml nac yn rhy agos, ac ystyried plygu'r gwrych mewn modd traddodiadol.
- Annog blodau a glaswelltau i dyfu wrth fôn y gwrych ac ar ymylon.
- Gofalu am goed a phlannu rhai newydd i lenwi unrhyw fylchau.
- Adfywio hen wrychoedd.
- Gofalu eich bod yn plannu rhywogaethau addas wrth blannu gwrychoedd newydd.
- Cysylltu'r gwrych â chynefinoedd bywyd gwyllt eraill a llenwi bylchau.
- Cadw golwg ar eich clawdd a'i archwilio

Mae [www.hedgelink.org.uk](http://www.hedgelink.org.uk) yn rhoi rhagor o wybodaeth am blannu a chynnal a chadw gwrychoedd.

## Pyllau

Mae pyllau yn cynnal dwy ran o dair o'r holl rywogaethau dŵr croyw. Mae creu pyllau newydd yn un o'r ffyrdd symlaf a mwyaf effeithiol o greu cynefin dŵr croyw.

Bydd gosod pwll nid yn unig yn denu ysglyfaethwyr buddiol i'r man tyfu, gan gynnwys amrywiaeth o amffibiaid ac infertebratau ond gall effeithio ar faterion amgylcheddol ehangach. Mae pyllau'n helpu i leihau llifogydd ac mae planhigion dyfrol sy'n ffotosyntheseiddio yn helpu i ostwng lefelau llygredd atmosfferig.

Mae'r Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw [www.freshwaterhabitats.org.uk](http://www.freshwaterhabitats.org.uk) yn sicrhau bod manteision cyrff dŵr bach yn cael eu cydnabod mewn polisi, yn y DU ac Ewrop. Mae'n gweithio gyda chyrrff eraill i dynnu sylw at bwysigrwydd cyrff dŵr bach ar yr agenda ddŵr ac mae llawer o wybodaeth ar gael ar ei gwefan.

Mae pyllau yn creu lle hyfryd i ymlacio a gwylio bywyd gwyllt. Beth am lawrlwytho taflen creaduriaid pyllau i weld faint o rywogaethau sy'n byw yn eich pwll ac o'i amgylch. Peidiwch â chael eich temptio i ddod â bwcedaid o ddŵr pwll o bwl arall i ddechrau eich un chi. Gallech ledaenu clefydau fel Coes Goch amffibiaid neu gyflwyno planhigion goresgynnol fel Bwyd yr Hwyaidd yn ddamweiniol. Bydd proses hudol yn digwydd ar ei phen ei hun a bydd creaduriaid pyllau yn dod o hyd i'ch pwll ac yn symud i mewn.

Os hoffech greu pwll ar eich rhandir neu yn eich gardd gymunedol dylech ddarllen telerau eich tenantiaeth yn gyntaf. Mae rhai tenantiaethau rhandiroedd a chytundebau tir eraill yn gosod cyfyngiadau ar byllau neu efallai y byddant yn mynnu eich bod yn cael caniatâd penodol cyn dechrau ar unrhyw waith. Cofiwch gynnal asesiad risg. Gall hyd yn oed ddŵr bas fod yn beryglus i blant bach.



## Ardaloedd o laswellt hir a dolydd

Mae glaswelltiroedd a dolydd sy'n llawn rhywogaethau yn gynefinoedd dan fygythiad mawr yn y DU. Mae'r mwyafrif o'r glaswelltir yng Nghymru wedi cael ei wella drwy ychwanegu gwrteithiau ato, sydd wedi lleihau nifer y blodau gwyllt a'r peillwyr. Mae nifer y peillwyr yn lleihau'n sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i golli'r cynefin hwn ac mae'n hanfodol ein bod yn atal y dirywiad hwn. Mae gweirgloddiau'n olygfa brin hefyd. Mae chwyn â'r, gan gynnwys Melyn yr Yd, Rhwyddlwyn, Briwlys y Tir â'r a Throellig yr Yd yn brin o ganlyniad i amaethu dwys, y defnydd o chwynladdwyr a phrosesau glanhau hadau.

Er mwyn helpu i wrthdroi'r duedd hon, gall neilltuo llain o dir o amgylch ymyl eich safle neu ardaloedd "gwyllt" ar gyfer porfeydd a blodau gwyllt gynyddu amrywiaeth y planhigion a'r pryfed ar eich safle. Bydd y rhain hefyd yn annog mamaliaid bach fel draenogod ac ystlumod i ymweld a bwydo, gan helpu i leihau plâu fel gwlithod a malwod a phryfed.

### Awgrymiadau defnyddiol:

- caniatewch i laswellt a blodau gwyllt dyfu'n hir rhwng mis Ebrill a mis Awst, yna torrwch nhw (yn eu tro) a chael gwared ar y toriadau. Bydd hyn yn helpu i greu 'glastir' sy'n llawn rhywogaethau
- sefydlwch eich dŵl wrth ymyl clawdd
- mae glaswellt o uchder gwahanol yn cynnal amrywiaeth ehangach o bryfed ac infertebratau.
- peidiwch â thorri'r ddŵl gyfan ar yr un pryd. Penderfynwch ar drefn torri ardaloedd yn eu tro ac amrywio'r uchder. Bydd amrywio'r uchder fel hyn o fudd i infertebratau ac yn darparu cysgod.
- ceisiwch adael rhan o'r ardal laswellt heb ei thorri dros y gaeaf. Bydd hyn yn cynnig cynefin pwysig iawn i bryfed sy'n gaeafu, ar ffurf deiliach marw neu frigau neu goesynnau marw sy'n sefyll.
- os bydd gennych ardaloedd gwlyb, dylid eu gwerthfawrogi fel ased bioamrywiaeth. Bydd infertebratau pwysig, fel chwilod y llawr, yn tyrru i'r ardaloedd hyn yn ôl y tymor.

- ychwanegwch hadau cribell felen i ardaloedd glaswellt presennol. Bydd hyn yn helpu i leihau goruchafiaeth glaswellt ac annog mwy o rywogaethau blodau gwyllt i dyfu. Dylid hau hadau cribell felen yn yr hydref ar ôl cribino neu ddigroeni'r glaswellt ac mae angen rhew ar yr hadau i egino.
- A ydych yn bwriadu hau dŵl newydd yn hytrach na thorri a chribino glaswellt ac aros i weld beth sy'n ymddangos? Byddwch yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng cymysgeddau o hadau blodau darluniadol sy'n llawn rhywogaethau estron lliwgar a chymysgeddau o hadau cadwraeth sy'n cynnwys ein rhywogaethau dan fygythiad ac sy'n cynnal bywyd gwyllt brodorol.

Am ragor o wybodaeth ewch i:

[www.buglife.org.uk](http://www.buglife.org.uk)

[www.plantlife.org.uk/uk](http://www.plantlife.org.uk/uk)

## Annog draenogod a helpwyr eraill yr ardd

Dylid annog bywyd gwyllt fel draenogod, llyffantod a bronfreithod i ddod i'r ardd gan eu bod yn bwyta plâu, gan gynnwys gwlithod a malwod. Yn anffodus, yn sgil colli cynefinoedd, mae niferoedd llawer o'r rhywogaethau hyn yn gostwng.

Mae sawl ffordd y gallwch ddenu draenogod a helpwyr eraill yr ardd i ddod i'ch ardal dyfu, gan gynnwys:

- gwneud yn siŵr bod mannau mynediad i'ch gardd, gan gynnwys bylchau mewn gwrychoedd a ffensys
- gadael ardaloedd i fywyd gwyllt
- adeiladu tŷ i ddraenogod
- darparu ffynhonnell dŵr croyw
- osgoi defnyddio pelenni lladd gwlithod a chemegion
- gwneud pyllau'n ddiogel i ddraenogod drwy roi ffordd iddynt ddringo allan
- archwilio glaswellt hir cyn ei dorri
- archwilio'ch pentwr compost cyn ei droi
- creu gwesty pryfed

- gosod blychau adar ac ystlumod
- plannu coed ffrwythau a chnau yn eich ardal dyfu.

## Planhigion i beillwyr

Mae'n dra hysbys ei bod hi'n argyfwng ar ein peillwyr. Mae'r rhesymau dros hyn yn cynnwys diffyg ffynonellau bwyd oherwydd newidiadau mewn amaethyddiaeth, y defnydd o blaladdwyr a newid yn yr hinsawdd. Lansiodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yn 2013 (a ddiwygiwyd yn 2018) er mwyn ceisio atal y dirywiad hwn.

<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio-ffeithlun>

Gallwn helpu drwy droi ein gerddi a'n rhandiroedd yn hafan i'n peillwyr – hebddynt, byddai ein cyflenwad bwyd mewn trafferthion difrifol a byddai ein hecosystem yn dlotach. Mae llawer o blanhigion ar y rhandir yn ffynonellau bwyd gwych i beillwyr, gan gynnwys perlysiâu blodeuol, coed a llwyni ffrwythau, ffa, corbwmpenni ac asbaragws. Ond beth am blannu planhigion eraill sy'n beillwyr gwych ymhlith y rhain er mwyn ymestyn y tymor, neu gael ymyl addurnol i gynyddu nifer y gwenyn, gloynnod byw, gwyfynod a phryfed hofran ar y rhandir? Mae'r RHS wedi llunio rhestr o blanhigion sy'n cynnal peillwyr rhwng dechrau'r gwanwyn a diwedd yr hydref.

[www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/plants-for-pollinators](http://www.rhs.org.uk/science/conservation-biodiversity/wildlife/plants-for-pollinators)

## Adeiladu cartrefi i natur

Mae adeiladu gwestai pryfed a blychau i adar ac ystlumod yn weithgareddau llawn hwyl i oedolion a phlant fel ei gilydd. Mae angen gosod blychau adar mewn man lle y gallwch eu tynnu i lawr a'u glanhau yn y gaeaf. Gall gwestai pryfed i wenyn unigol a phryfed eraill gael eu gwneud o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, fel paledi, cardbord a gwiall bambŵ wedi torri.

Mae pentyrrau o gerrig a boncyffion yn ffordd hawdd o annog bioamrywiaeth ar y rhandir. Bydd pren sy'n pydru yn cynnig cynefin delfrydol i bryfed, brogaod, llyffantod a madfallod dŵr a bydd yn gartref i amrywiaeth o ffyngau. Yn yr un modd, bydd pentyrrau o gerrig llaith, oer yn boblogaidd ymhlith brogaod, llyffantod a

madfallod dŵr. Ceisiwch beidio â tharfu ar y pentyrrau hyn ar ôl eu creu. Os oes gennych blant sy'n mwynhau symud cerrig a boncyffion i ddod o hyd i greaduriaid, gosodwch gerrig neu foncyffion unigol mewn man â rhywfaint o gysgod er mwyn iddynt eu harchwilio.

[www.wildaboutgardens.org.uk/](http://www.wildaboutgardens.org.uk/)

## Compost

Mae pridd trwm yn cynnwys miloedd o facteria a ffyngau gwahanol. Gallwch helpu i sicrhau ecosystem iach o dan eich traed drwy gyfoethogi eich pridd â chompost, gwymon a thail wedi pydru'n dda yn hytrach na dibynnu ar wrteithiau artiffisial. Bydd eich pridd yn iachach fyth ac yn fwy amrywiol os byddwch yn osgoi cloddio mwy nag sydd raid ac yn defnyddio eich compost fel tomwelld. Caiff ei ddadelfennu a'i gymryd i'r pridd gan bryfed a mwydod, a bydd yn atal chwyn rhag tyfu drwy gysgodi'r pridd.

Yn ogystal â bod yn dda i'ch pridd, gall y pentwr compost ei hun gynnig cartref clyd i nadroedd y gwair sy'n aml yn dodwy wyau ynddynt. Os byddwch yn ddigon ffodus i fod â nadroedd y gwair yn byw yn eich pentwr compost, peidiwch â tharfu arnynt, dechreuwch bentwr arall.

Bydd eich pentwr hefyd yn gartref i fwydod, chwilod a phryfed eraill ac, o bosibl, frogaod a madfallod dŵr.

Mae compostio chwyn lluosflwydd megis tafol, llysiâu'r gymalwst, marchwellt neu gwlwm y cythraul yn anodd. Bydd pob un ohonynt yn goroesi pentwr compost oer. Gellir annatureiddio rhai chwyn lluosflwydd neu chwyn â hadau parhaol drwy eu sychu neu eu 'boddi' mewn casgen am ychydig wythnosau. Gallwch hefyd greu pentwr compost poeth neu brynu 'compostiwr poeth' masnachol.

<https://charlesdowding.co.uk/advice-on-making-compost/>

## Permaddiwylliant

"Mae permaddiwylliant yn system ddylunio gynaliadwy sy'n pwysleisio'r gydberthynas gytûn rhwng pobl, planhigion, anifeiliaid a'r Ddaear. Wrth wraidd permaddiwylliant y mae dylunio a'r cydberthnasau gwaith a'r cysylltiadau rhwng pob peth." (Bill Mollison)

Yn ymarferol ar y rhandir, gall deuddeg egwyddor permaddiwylliant gael eu cymhwyso at eich gwaith dylunio a'ch arferion tyfu er mwyn sicrhau eu bod yn fwy cynaliadwy. Efallai y bydd ei olwg yn llai taclus na'r rhandir traddodiadol o 'dir moel a llwybrau glaswellt byr' – ond mae gweithio gyda natur yn golygu llai o waith i chi a chydberthynas gytûn â'r ddaear.

Cewch ragor o wybodaeth yn  
[www.permaculture.org.uk/](http://www.permaculture.org.uk/)

## Rhywogaethau estron goresgynol

Gall rhywogaethau planhigion estron goresgynol achosi difrod amgylcheddol sylweddol, costio miliynau o bunnau i fynd i'r afael â nhw a lleihau bioamrywiaeth. Mae rhododendron ponticum yn rhyddhau tocsinau i'r pridd sy'n atal unrhyw blanhigyn arall rhag tyfu ac, felly, mae ein fflora brodorol yn colli cynefin. Mae rhai o'r planhigion hyn yn gymaint o broblem fel bod deddfwriaeth wedi'i phasio er mwyn rheoli eu lledaeniad, sef Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Nid oes rhaid i chi eu rheoli ar eich tir eich hun ond mae'n rhaid i chi eu hatal rhag lledaenu i dir pobl eraill neu i'r gwyllt.

Y ffordd orau o atal lledaeniad planhigion estron goresgynol yw sicrhau eich bod yn gallu eu hadnabod ac yn gwybod sut i gael gwared arnynt. Peidiwch BYTH â chompostio'r rhywogaethau hyn.

Mae llawer o wybodaeth ar gael i'ch helpu i reoli planhigion sy'n achosi problemau o'r tudalennu ar wefan Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â rhywogaethau estron goresgynol.

<https://llyw.cymru/chwyn-a-rhywogaethau-estron-goresgynol>

Drwy'r wefan, gallwch ddod o hyd i daflenni ffeithiau i'ch helpu i adnabod a rheoli rhywogaethau goresgynol y gallech eu canfod ar safleoedd rhandiroedd ac mewn gerddi cymunedol, megis:

- Clymog Japan
- Efwr Enfawr
- Jac y Neidiwr

Mae taflenni gwybodaeth am rywogaethau estron goresgynol hefyd ar gael yn  
[www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=47](http://www.nonnativespecies.org/index.cfm?sectionid=47)

Field Guide to Invasive Plants and Animals in Britain – Bloomsbury ISBN: 9781408123188

## Gwrteithiau, chwyn a rheoli plâu

Mae gwrteithiau yn cynnwys lefelau uchel o nitrogen, potasiwm a ffosffad sy'n arwain at dyfiant trwchus. Pan gânt eu defnyddio ar ardaloedd tyfu, yn ogystal ag effeithio ar y planhigion y'u bwriedir ar eu cyfer, mae gwrteithiau hefyd yn annog glaswellt bras a chwyn i dyfu'n doreithiog ac yn achosi i ddŵr ffo llygredig lifo i gyrsgiau dŵr. Yn lle gwrteithiau, gallech ddefnyddio compost, tail sydd wedi pydru'n dda, te cwmffri a gwymon. Gallech hefyd roi cynnig ar dail gwyrdd – mae Phacelia yn un da ac mae'n fwrlwm o wenyn pan fydd mewn blodau.

Gall clirio eich llain fod yn waith caled iawn a gallech gael eich temtio i chwistrellu glyffosad er mwyn clirio'r glaswellt. Am amser maith ystyriwyd bod glyffosad yn ddiogel ond bellach mae cryn drafod ynghylch pa mor hir y mae'n para yn y pridd a'i effeithiau ar beillwyr ac iechyd pobl. Yn lle defnyddio glyffosad, gallech orchuddio eich safle â chroen rheoli chwyn a chloddio un darn ar y tro. Gallech hefyd roi cynnig ar dyfu Heb Gloddio. Defnyddiwch gardbord ac wedyn gwellhâwr pridd/compost i greu haen drwchus na all chwyn dyfu drwyddi ac arbedwch eich cefn!

Mae'n rhwystredig dros ben pan fydd plâu megis gwllthod a malwod yn cnoi eu ffordd drwy eich cnydau. Er mai defnyddio cemegion fel pelenni lladd gwllthod a chwistrellau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddelio â nhw yn y byrdymor, mae hyn yn cael sgil-ffeithiau. Caiff adar a draenogod eu gwenwyno gan belenni lladd gwllthod Metaldehyd, ac mae hylifau a chwistrellir i ladd plâu megis llyslau hefyd yn gwenwyno wenyn a pheillwyr eraill. Mae opsiynau amgen ar gael. Os byddwch yn annog peillwyr i ddod i'ch llain, efallai y bydd y cydbwysedd naturiol yn cadw llyslau draw - er enghraifft mae larfau buchod coch cwta yn bwyta nifer mawr ohonynt! Os na fyddwch yn gallu eu rheoli rhowch gynnig ar chwistrellu hylifau asid brasterog – nid ydynt yn niweidio peillwyr. Gallwch hefyd ddefnyddio pelenni lladd gwllthod sy'n cynnwys haearn heb ofni gwenwyno'r draenogod buddiol.

Mae'n werth ystyried gwahardd defnyddio plaladdwyr a chwynladdwyr ar bob rhan o safle eich rhandir. Dysgwch fwy am dyfu'n organig yma;

[www.gardenorganic.org.uk/](http://www.gardenorganic.org.uk/)  
[www.permaculture.org.uk/knowledge-base/basics](http://www.permaculture.org.uk/knowledge-base/basics)  
<https://charlesdowding.co.uk/>

## Gwastraff

Mae deiliaid rhandiroedd yn adnabyddus am addasu eitemau, a allai fel arall fod wedi cael eu taflu, i'w defnyddio at ddibenion gwahanol. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys defnyddio hambyrddau cynnyrch fel hambyrddau hadau a gwneud biniau compost o baledi. Fodd bynnag, weithiau mae problem yn codi pan fydd y duedd hon yn golygu bod pobl yn casglu llawer o bethau a allai fod yn ddefnyddiol ar eu llain. Mae hen deirs, ffenestri, gorchuddion plastig a charped yn eitemau sy'n achosi problemau mawr.

Gall defnyddio hen garped i atal chwyn rhag tyfu ollwng cemegion gwenwynig a pharhaol megis arafyddion tân, lliwiau, plastigau a chemegion arafu staenio i'r pridd. Ac mae unrhyw un sydd wedi etifeddu llain y mae carped wedi'i osod arni ac sydd wedi cael ei gadael yn segur yn gwybod, ar ôl tymor neu ddau, fod y glaswelltau yn tyfu drwyddo a'i fod yn anodd iawn i'w symud.

Ni fwriedir i orchuddion plastig megis croen atal lleithder glas gael eu defnyddio y tu allan a bydd yn diraddio yng ngolau'r haul. Ar ôl dau dymor, pan fyddwch yn cyffwrdd ag ef, bydd yn chwalu'n filoedd o ddarnau bach, na fyddwch byth yn gallu eu gwaredu o'r pridd.

Ni ellir gwaredu teirs mewn gwastraff cartref na thrwy eu hanfon i safle tirlenwi. Felly, er y gallant fod yn ddefnyddiol ar y rhandir, bydd yn rhaid i chi dalu i'w gwaredu pan na fydd eu heisiau arnoch mwyach.

Mae'n werth llunio polisi safle ar ddefnyddio'r eitemau hyn a'u symud ar ddiwedd tenantiaeth a gwaredu gwastraff cyffredinol. Prin iawn yw'r safle rhandiroedd nad oes ganddo wasanaeth casglu sbwriel. Mae rhai safleoedd yn dechrau

casglu blaendaliadau i dalu cost gwaredu gwastraff os bydd pobl yn gadael eu llain mewn cyflwr gwael. Byddai gwahardd defnyddio carped a gorchuddion plastig o ryw gymorth i osgoi'r problemau hyn.

## Dŵr

Mae prif gyflenwad dŵr – os yw ar gael – yn rhad. Fodd bynnag, mae'n defnyddio llawer o ynni i buro dŵr i safon lle y gellir ei yfed ac mae planhigion yn hapusach gyda dŵr glaw beth bynnag! Ceisiwch annog pobl i gynaeafu dŵr glaw ar y safle. Mae pob to ar sied yn gyfle i gynaeafu dŵr glaw. Gallwch brynu cynwysyddion wedi'u hailgylchu gan gwmnïau sy'n casglu swmpgynwysyddion canolraddol (IBCs) a chasgenni o'r sector cludo bwyd. Chwiliwch ar-lein am gyflenwr lleol. Beth am gysylltu sawl tap pelen 'up using' a sawl falf nofiol er mwyn creu system â chapasiti mawr. Os oes gennych brif gyflenwad dŵr hefyd, ystyriwch ddefnyddio tapiau gwthio amseredig i osgoi gwastraff.

## Deddfwriaeth Cymru i gefnogi bioamrywiaeth

Mae **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i osod targedau ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â phennu cyllidebau carbon. Bydd hyn yn helpu i gyflymu'r broses o gyflawni ein prif dargedau a meithrin cadernid. Wrth wraidd y Ddeddf mae'r angen i fabwysiadu dull newydd, mwy integredig o reoli ein hadnoddau naturiol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.

O dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae gan awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Er bod ein safleoedd a'n rhywogaethau a warchodir yn bwysig, mae a wnelo dyletswydd a6 â chymryd camau i ddiogelu natur yn ein trefi, ein dinasoedd, ein mannau cyhoeddus a'r dirwedd ehangach, drwy gamau gweithredu ymarferol ar lawr gwlad, ac yn y ffordd y cyflawnir pob swyddogaeth gyhoeddus.



Er mwyn helpu i wneud hyn, a chydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai awdurdodau cyhoeddus ymgorffori ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, eu polisiau, eu cynlluniau, eu rhaglenni a'u prosiectau. Mae a wnelo â newid y ffordd rydym yn meddwl am weithredu er budd bioamrywiaeth. [www.biodiversitywales.org.uk/Adran-6](http://www.biodiversitywales.org.uk/Adran-6)

Mae'r **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** yn cynnwys saith maes sydd, gyda'i gilydd, yn sicrhau Cymru fywiog a chynaliadwy i bobl a natur. Mae wedi'i hymgorffori ym mhob polisi cyhoeddus. Un o'r saith maes hyn yw:



### Cymru gydnerth

"Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid."

Ceir rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-08/deddf-llesiant-cenedlaethau-dyfodol-cymru-2015-yr-hanfodion.pdf>

Lansiwyd Y **Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru** gan nodi'r weledigaeth strategol, y canlyniadau a meysydd gweithredu a gwrthdroi dirywiad peillwyr yng Nghymru. Mae Tasglu Peillwyr sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol bellach ar waith. Diwygiwyd y cynllun yn 2018.

[www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio](http://www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio)

Mae **Caru Gwenyn** yn gynllun achredu ar gyfer Cymru gyfan lle y gall cymunedau, ysgolion, prifysgolion, busnesau ac addoldai ennill statws "Caru Gwenyn".

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi ymuno â Llywodraeth Cymru er mwyn lansio'r fenter gyntaf o'i math yn y byd i amddiffyn gwenyn a phryfed peillio eraill yng Nghymru.

[www.foe.cymru/cy/carugwenyn](http://www.foe.cymru/cy/carugwenyn)

Mae llawer mwy yn digwydd ar lefel genedlaethol. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, ewch i:

<https://llyw.cymru/yr-amgylchedd-ar-newid-yn-yr-hinsawdd>





# Asesu Risg ac Yswiriant

Fel sefydliad sy'n gyfrifol am ardd gymunedol neu safle rhandiroedd, mae gennych ddyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel i'ch staff, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr. Os bydd gennych broses asesu risg gadarn, bydd yn eich helpu i wneud hyn. Fodd bynnag, gall damweiniau ddigwydd o hyn a dylech fod wedi'ch yswirio er mwyn lleihau eich atebolrwydd cyfreithiol ac ariannol.

Dylech sicrhau bod gennych yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ac yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr o leiaf. Siaradwch â'ch yswiriwr am eich safle, eich gweithgareddau ac unrhyw adeiladau ac offer/cyfarpar a gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch yswirio. Mae sawl yswiriwr yn cynnig yswiriant sy'n ymwneud yn benodol â thyfu cymunedol a rhandiroedd ac mae'r rhain yn fwy tebygol o ddeall eich anghenion.

## Mathau o yswiriant

### Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus

Mae yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yn eich yswirio yn erbyn hawliadau gan bobl sydd wedi'u hanafu neu ddifrod/colled i'ch eiddo – ar yr amod eich bod wedi cymryd gofal rhesymol i ddarparu amgylchedd diogel. Gall gwmpasu eich safle a'ch gweithgareddau.

### Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr

Mae cyflogaeion a chyflogwyr wedi'u cwmpasu gan y math hwn o yswiriant. Felly, os byddwch yn cyflogi unrhyw un neu'n cymryd rhan mewn unrhyw fath o weithgaredd gwirfoddol bydd yn rhaid i chi ei gael.

### Adeiladau, cynnwys, offer a pheiriannau

Pan fyddwch yn siarad â brocer yswiriant, mae'n syniad da rhestru'r adeiladau a'r strwythurau eraill ac unrhyw gynnwys, offer a pheiriannau a'u gwerth, os hoffech iddynt fod wedi'u hyswirio. Mae'n amlwg, os bydd gwerth yr offer yn isel, ei bod yn bosibl na fydd yn gwneud synnwyr eu hyswirio o safbwynt ariannol. Ar rhandiroedd, oni fyddwch yn cytuno ar hynny â'ch yswiriwr, ni fydd siediau na chynnwys ar leiniau unigol

wedi'u hyswirio. Gall deiliaid lleiniau drefnu eu hyswiriant eu hunain os byddant yn dymuno.

### Yswiriant Indemnio Ymddiriedolwyr

Prin iawn yw hawliadau yn erbyn Ymddiriedolwyr neu aelodau o bwyllgorau rheoli ond mae yswiriant ar gael.

Yn ôl y Comisiwn Elusennau mae yswiriant indemnio ymddiriedolwyr yn yswirio ymddiriedolwyr rhag gorfod talu'n bersonol hawliadau cyfreithiol a wneir yn eu herbyn (gan eu helusen neu drydydd parti), am dor-ymddiriedaeth, neu dor-ddyletswydd neu esgeuluster ar eu rhan yn rhinwedd eu swydd fel ymddiriedolwyr.

## Pwy sy'n gyfrifol?

Os ydych yn berchen ar dir, chi sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod gennych atebolrwydd cyhoeddus o leiaf. Os ydych yn rhentu tir/adeiladau, dylid nodi'n glir yn y brydles pwy sy'n gyfrifol am ddarparu yswiriant, pa fath o yswiriant ac ar ba lefel. Ar safle rhandiroedd a redir gan yr awdurdod lleol, y corff hwnnw fydd yn gyfrifol. Os yw'r safle yn cael ei rentu, dylid nodi'n glir yn y brydles pwy sy'n gyfrifol.

## Deiliaid lleiniau unigol

Dylai'r yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n cwmpasu'r safle cyfan gwmpasu eich llain hefyd. Fodd bynnag, ni fydd eich cynydau, eich sied na'ch offer wedi'u hyswirio fel arfer ac os byddwch am eu hyswirio dylech wneud hynny eich hun. Holwch y sawl sy'n rheoli'r safle ac edrychwch ar eich cytundeb tenantiaeth er mwyn cael eglurhad. Mae'r Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd yn cynnig yswiriant i ddeiliaid lleiniau fel un o fuddiannau bod yn aelod. Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus yw hwn ac mae'n eich indemnio'n bersonol rhag unrhyw anaf neu golled neu ddifrod i eiddo a achosir gan eich gweithgareddau ar y rhandir neu mewn sioeau ar y rhandir. Nid yw'n eich yswirio rhag colled na difrod i'ch eiddo.

## Asesu Risg

Mae'r broses Asesu Risg yn ffordd dda iawn o roi ystyriaeth briodol i'r risgiau a'r peryglon sy'n gysylltiedig â'ch safle/gweithgareddau ac ystyried sut y gallwch sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Byddai yswirwyr yn disgwyl i chi fod wedi cwblhau asesiad risg fel rhan o'ch gofal dyletswydd i ddarparu amgylchedd diogel. Dim ond os bydd pawb yn ymwybodol ohono y bydd yn werth cynnal asesiad risg. Gellir seilio rhai o reolau eich safle ar eich asesiad risg a gallwch ei adolygu bob blwyddyn er mwyn ei gadw'n fyw yn y cof. Gwnewch yn siŵr eich bod yn pennu camau gweithredu o'ch asesiad risg.

## Beth yw perygl a beth yw risg?

Mae perygl yn rhywbeth a all achosi niwed. Risg yw'r niwed y gallai ei achosi a lefel y risg yw'r tebygolrwydd y bydd yn achosi niwed. Mae amllder risg hefyd yn berthnasol. Er enghraifft, mae tân yn berygl y mae risg uchel ond anfyfych yn gysylltiedig ag ef. Gallwch leihau'r risg o niwed drwy gael tanau o fewn llosgyddion yn unig a gwneud yn siŵr bod dŵr yn cael ei arllwys ar y lludw cyn gadael y safle. Nid oes rhaid i chi ddileu peryglon yn llwyr – y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw ystyried sut y cânt eu rheoli.

## Rhai enghreifftiau o asesiad risg o safle rhandiroedd

| Perygl       | Risg            | Pwy sydd mewn perygl                     | Maint/amllder y risg | Mesurau lliniaru presennol                                                                                             | Camau i leihau'r risg ymhellach                                                                                            |
|--------------|-----------------|------------------------------------------|----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pwll         | Boddi           | Plant                                    | Uchel ac anfyfych    | Ni chaniateir i blant ddod ar y safle ar eu pen eu hunain a hysbysir deiliaid lleiniau o'r risgiau yn llawlyfr y safle | Codwch ffens o amgylch y pwll, gosodwch arwyddion 'dŵr dwfn'.                                                              |
| Tir anwastad | Baglu a chwympo | Holl ddefnyddwyr y safle a phob ymwelydd | Canolig a mynych     | Mae rhai llwybrau wedi'u lefelu.                                                                                       | Cam gweithredu: caiff gweddill y llwybrau eu lefelu a chaiff llystyfiant ar y safle ei dorri'n rheolaidd (erbyn y dyddiad) |

## Deunydd darllen pellach

- Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch lawer o wybodaeth ddefnyddiol am Asesu Risg  
[www.hse.gov.uk/risk/](http://www.hse.gov.uk/risk/)
- Mae'r Comisiwn Elusennau yn cyhoeddi canllaw defnyddiol iawn ar yswiriant ar gyfer elusennau sy'n berthnasol i unrhyw grŵp sy'n rheoli gardd gymunedol neu safle rhandiroedd  
[www.gov.uk/government/publications/charities-and-insurance-cc49](http://www.gov.uk/government/publications/charities-and-insurance-cc49)



# Gwybodaeth ac Adnoddau Ychwanegol

Cynllun Gweithredu Tyfu Bwyd yn y Gymuned  
Llywodraeth Cymru

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-05/bwyd-a-dyfir-gan-y-gymuned-cynllun-gweithredu.pdf>

Growing in the Community

[www.local.gov.uk/growing-community-second-edition](http://www.local.gov.uk/growing-community-second-edition)

Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1908

Deddf Rhandiroedd 1922 Deddf  
Rhandiroedd 1925

Deddf Tyddynnod a Rhandiroedd 1926 a  
Deddf Rhandiroedd 1950

Deddf Llywodraeth Leol Cymru 1994 a  
Deddf Llywodraeth Cymru 1998

Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru 1999  
Deddf Landlord a Tenant 1927

## Gwybodaeth i ddeiliaid a chymdeithasau rhandiroedd

Y Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd  
[www.nsalg.org.uk](http://www.nsalg.org.uk)

Gwefan Allotment and Gardens  
[www.allotment-garden.org](http://www.allotment-garden.org)

## Gwybodaeth i dyfwyr

Y Gymdeithas Genedlaethol Rhandiroedd  
[www.nsalg.org.uk](http://www.nsalg.org.uk)

Y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol  
[www.rhs.org.uk](http://www.rhs.org.uk)

Garden Organic  
[www.gardenorganic.org.uk](http://www.gardenorganic.org.uk)

Permaculture Association  
[www.permaculture.org.uk](http://www.permaculture.org.uk)

Cymdeithas y Pridd  
[www.soilassociation.org](http://www.soilassociation.org)

## Gwybodaeth i grwpiau tyfu cymunedol

Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol  
[www.farmgarden.org.uk](http://www.farmgarden.org.uk)

Pecyn Adnoddau Ffermydd a Gerddi  
Cymdeithasol ar gyfer Tyfu Cymunedol  
[www.farmgarden.org.uk/resources/community-growing-resource-pack-wales](http://www.farmgarden.org.uk/resources/community-growing-resource-pack-wales)

Y Gwasanaeth Cyngori ar Dir Cymunedol,  
CLAS Cymru  
[www.communitylandadvice.org.uk](http://www.communitylandadvice.org.uk)

Groundwork Wales  
[www.groundworkwales.org.uk](http://www.groundworkwales.org.uk)

Cadwch Gymru'n Daclus  
[www.keepwalestidy.org](http://www.keepwalestidy.org)

## Adnoddau bioamrywiaeth

Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt  
[www.wildlifetrusts.org](http://www.wildlifetrusts.org)

Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru  
[www.biodiversitywales.org.uk](http://www.biodiversitywales.org.uk)

Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar  
[www.rspb.org.uk/whatwedo/wales](http://www.rspb.org.uk/whatwedo/wales)

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Amffibiaid  
ac Ymlusgiaid  
[www.arc-trust.org](http://www.arc-trust.org)

Cymdeithas Gwenynwyr Cymru  
[www.wbka.com](http://www.wbka.com)

Buglife  
[www.buglife.org.uk](http://www.buglife.org.uk)



Plantlife

[www.plantlife.org.uk/wales](http://www.plantlife.org.uk/wales)

Cadw Coed

[www.woodlandtrust.org.uk](http://www.woodlandtrust.org.uk)

## Adnoddau Llywodraethu a Chyllido

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

Y Gronfa Loteri Fawr

[www.biglotteryfund.org.uk](http://www.biglotteryfund.org.uk)

Canolfan Cydweithredol Cymru

[www.wales.coop](http://www.wales.coop)

## Adnoddau eraill

Busnes Cymru

[www.businesswales.gov.wales/cy](http://www.businesswales.gov.wales/cy)

Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ar-gyfer-pryfed-peillio.pdf>

Strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol

<https://llyw.cymru/chwyn-a-rhywogaethau-estron-goresgynnol>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/](http://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/)

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

[www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents](http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents)

<https://wcva.cymru/cy/deddf-yr-amgylchedd-cymru/>

